RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
65/2022
DYDDIAD CYHOEDDI:
12/10/2022

# Astudiaeth Ddichonoldeb Cysylltu Data Gyrfa Cymru

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80364-685-5

Astudiaeth Ddichonoldeb Cysylltu Data Gyrfa Cymru: Adroddiad Terfynol

Katy Huxley, Ymchwil Data Gweinyddol (ADR)

Rhys Davies, Ymchwil Data Gweinyddol (ADR)

Adroddiad Llawn yr Ymchwil: Huxley, K a Davies O.R. (2022). *Astudiaeth Ddichonoldeb Cysylltu Data Gyrfa Cymru: Adroddiad Terfynol.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 65/2022.
Ar gael yn https://llyw.cymru/astudiaeth-ddichonoldeb-cysylltu-data-gyrfa-cymru

Barn yr ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd barn Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Heledd Jenkins

Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ebost: cyflogadwyedd.sgiliau.ymchwil@llyw.cymru

## Tabl cynnwys

Geirfa......2
1. Cyflwyniad/Cefndir......4
2. Methodoleg......8
3. Canfyddiadau: Cyd-destun......11
4. Canfyddiadau: Data......31
5. Dulliau Posibl......57
6. Argymhellion......75
Atodiad A: Canllaw Cyfweliadau......78
Atodiad B: Daliadau data IO ac Atlas Gyrfa Cymru......79
Atodiad C: Cwestiynau'r Arolwg Gwirio Gyrfa......84

## Rhestr Tablau

Tabl 3.1: Amcanion Dyfodol Disglair a dangosyddion perfformiad allweddol......12
Tabl 3.2: Model Ymgysylltu Pum Haen Gyrfa Cymru......18
Tabl 4.1: Rhesymau’r DWP dros Gau Hawliadau’r Credyd Cynhwysol......49
Tabl 5.1: Meysydd Data Unigol Gofynnol Hyb Data......60
Tabl 5.2: Costau blynyddol rôl bosibl......64
Tabl 5.3: Amcangyfrifon o gostau trwyddedau......65
Tabl 5.4: Nodweddion Allweddol Cyfleoedd Ariannu Ymchwil y DU......73

**Geirfa**

| Acronym | Diffiniad |
|---|---|
| ADR | Ymchwil Data Gweinyddol |
| ADY | Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| CIAG | Gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd |
| CfW | Cymunedau am Waith |
| CfW+ | Cymunedau am Waith a Mwy |
| CRM | Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid |
| DPO | Swyddfa diogelu data |
| DSA | Cytundeb rhannu data |
| DWP | Yr Adran Gwaith a Phensiynau |
| EPC | Cydlynydd Ymgysylltu a Datblygu |
| ESF | Cronfa Gymdeithasol Ewrop |
| AB | Addysg Bellach |
| PYDd | Prydau ysgol am ddim |
| GDPR | Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data |
| EHE | Addysg ddewisol yn y cartref (addysg gartref) |
| AU | Addysg Uwch |
| SAU | Sefydliad Addysg Uwch |
| HESA | Yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch |
| CThEM | Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi |
| JACS | System Cyd-godio Pynciau Academaidd |
| ALI | Awdurdod Lleol |
| LEO | Deilliannau Addysg Hydredol |
| LLWR | Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru |
| LMI | Gwybodaeth am y Farchnad Lafur |
| NEET | Pobl nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant |
| TSC | Twf Swyddi Cymru |
| TSC+ | Twf Swyddi Cymru a Mwy |
| PaCE | Prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth |
| NDC | Casglu Data Cenedlaethol (Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion gynt) |
| ONS | Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| AHO | Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol |
| WBL | Dysgu Seiliedig ar Waith |
| CYBLD | Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion |

| | |
|---|---|
| RSP | Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol |
| SAIL | Cysylltu Data Dienw Diogel |
| AAA | Angen Addysgol Arbennig |
| SIMS | System Rheoli Gwybodaeth Myfyrwyr |
| SRS | Gwasanaeth Ymchwil Diogel |
| UCAS | Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a’r Colegau |
| RhUD | Rhif Unigryw'r Disgybl |
| WASPI | Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru |
| YEPF | Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid |
| YPG | Gwarant i Bobl Ifanc |

# 1. Cyflwyniad/Cefndir

1.1 Gyrfa Cymru yw piler canolog y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd (CIAG) yng Nghymru. Mae Gyrfa Cymru, a sefydlwyd yn 2012, yn gyfrifol am ddarparu gwasanaeth CIAG annibynnol a diduedd yng Nghymru. Ac yntau'n is-gwmni sy'n eiddo'n llwyr i'r llywodraeth, mae'r sefydliad yn ymgysylltu ag unigolion, ysgolion a rhieni, cyflogwyr, sefydliadau cymdeithas sifil, awdurdodau lleol a'r llywodraeth i ddarparu gwasanaeth cynllunio a chynghori proffesiynol ar ddatblygiad gyrfa i bawb. Hefyd, mae'n cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion polisi'r llywodraeth. Mae Gyrfa Cymru yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gefnogi dewisiadau addysg a galwedigaethol llwyddiannus a darparu cyfarwyddyd gyrfaoedd ym mhob cam bywyd, gan weithredu yn y sectorau addysg a chyflogaeth, a chwarae rolau hanfodol ym maes cyflwyno polisi addysg a chyflogadwyedd Cymru. Mae Gyrfa Cymru yn gweithio yn unol â chylch gwaith y mae'r Gweinidog dros Addysg a'r Gymraeg yn ei bennu ac mae'n cefnogi amcanion strategol Llywodraeth Cymru fel y'u nodir yn y Rhaglen Lywodraethu.

1.2 Ers ei sefydlu, ffocws Gyrfa Cymru oedd cefnogi amcanion strategol Llywodraeth Cymru, sef sicrhau dilyniant parhaus pobl ifanc drwy addysg ac i gyflogaeth neu addysg bellach/hyfforddiant, gan flaenoriaethu'r rhai sydd fwyaf mewn perygl o ymddieithrio a syrthio'r tu allan i'r system addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Mae 'Rhaglen Lywodraethu' Llywodraeth Cymru (Mehefin 2021 a'r diweddariad ym mis Rhagfyr 2021)[1] yn nodi ymrwymiadau sy'n ymwneud ag iechyd, addysg, yr economi ac yn dangos bod adferiad yn sgil pandemig COVID yn flaenoriaeth allweddol. Mae agweddau sylweddol ar y diweddariad i'r Raglen Lywodraethu yn ymwneud â gwaith Gyrfa Cymru, gan gynnwys y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid a'r Warant i Bobl Ifanc. Nododd Datganiad Polisi Llywodraeth Cymru ar Sgiliau[2] bwysigrwydd cydweithio rhwng addysg uwch (AU) ac addysg bellach (AB) er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd dilyniant, cefnogi hyfforddiant prentisiaeth, codi gwerth addysg a hyfforddiant galwedigaethol fel llwybr at ddysgu uwch a chefnogi'r gwaith o ddarparu sgiliau hanfodol. Bydd creu sefydliad newydd i gydlynu'r ddarpariaeth addysg a hyfforddiant ôl-orfodol (AHO), fel y'i nodir yn Mil Addysg Drydyddol ac Ymchwil 2021, yn ategu'r nodau hyn. Hefyd, mae'r Datganiad ar Sgiliau yn pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod y rhai

[1] Y Rhaglen Lywodraethu
[2] Datganiad Polisi Llywodraeth Cymru ar sgiliau

sy'n chwilio am waith yn gallu cael at raglenni cymorth cyflogaeth priodol. Mae'r Rhaglen Lywodraethu bresennol yn canolbwyntio ar leihau'r rhwystrau sy'n cyfyngu ar fynediad i addysg, hyfforddiant a chyfleoedd am waith, yn ogystal â hwyluso mwy o gydlynu rhwng marchnadoedd llafur lleol a'r ddarpariaeth addysg a hyfforddiant leol. Mae Cynllun Cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru[3], yn nodi bod angen i Gyrfa Cymru (gydag ysgolion, darparwyr a chyflogwyr) "annog dysgwyr i ddilyn cyrsiau a fyddai'n fuddiol i economi Cymru, gyda chyfleoedd gwaith a lefelau incwm uwch." (t. 30) ac y bydd gan Gyrfa Cymru "swyddogaeth gryfach o ran gweithredu'r Porth Cyngor Cyflogaeth, yn ogystal â darparu cysylltiadau cryfach ac agosach â chyflogwyr drwy wasanaeth newydd y Gyfnewidfa Addysg Busnes a thrwy gyd-fynd yn agosach â gwaith Busnes Cymru." (t.12). Arweiniodd y cynllun hwn at gyflwyno Cymru'n Gweithio yn 2019, yn lle'r Porth Cyngor Cyflogaeth, sef gwasanaeth cyngor a chymorth teilwredig, dan arweiniad Gyrfa Cymru, ar gyfer pobl dros 16 oed. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gynllun Cyflogadwyedd newydd ym mis Mawrth 2022[4].

1.3 MaeLlythyr Cylch Gwaith Tymor y Llywodraeth 2021-2022 Gyrfa ar gyfer Cymru, a ysgrifennwyd gan Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, yn amlinellu'r 'Cynllun Busnes' disgwyliedig ar gyfer Gyrfa Cymru. Caiff amcanion strategol Gyrfa Cymru eu llywio gan y Llythyr Cylch Gwaith, yn ogystal â pholisïau a rhaglenni Llywodraeth Cymru fel y Cynllun Cyflogadwyedd, y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid (YEPF) a'r Warant i Bobl Ifanc (YPG). Nod y polisïau hyn yw lleihau lefelau diweithdra ac anweithgarwch economaidd ledled Cymru, yn enwedig ymhlith pobl ifanc. Wrth ymgymryd â'i waith, mae'r Llythyr Cylch Gwaith yn datgan y dylai Gyrfa Cymru "ddefnyddio data cwsmeriaid yn rhagweithiol" yn ogystal ag "arwain y sector wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus drwy sianeli digidol". At hynny, mae'r Gweinidog yn datgan: "Mae potensial gan y data a roddwch i bartneriaid a rhanddeiliaid i lywio penderfyniadau seiliedig ar dystiolaeth gan lunwyr polisïau ar lefel genedlaethol a rhanbarthol, a hoffwn weld y potensial i Gyrfa Cymru fod yn 'ganolfan ddata' ar gyfer materion sy'n gysylltiedig â gyrfaoedd yn cael ei ddatblygu ymhellach".

1.4 Felly, comisiynodd Llywodraeth Cymru yr astudiaeth hon i ystyried dichonoldeb cysylltu'r data y mae Gyrfa Cymru yn ei dal â setiau data gweinyddol eraill. Mae'r

[3] Cynllun Cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru
[4] Cymru gryfach, decach a gwyrddach: Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau

astudiaeth yn archwilio a allai canolfan deallusrwydd data gynnig cipolwg ar y garfan gwsmeriaid ar draws Cymru ar gyfer cefnogaeth cyflogadwyedd a sgiliau, a dealltwriaeth ohoni, yn ogystal â darparu tystiolaeth i Lywodraeth Cymru ar effeithiolrwydd gwasanaethau cefnogi cyflogadwyedd a sgiliau. Drwy asesu dichonoldeb cysylltu data, bydd Gyrfa Cymru mewn gwell sefyllfa i ystyried y dylanwad posibl y gallai canolfan ddata ei gael wrth ddarparu gwasanaeth mwy effeithiol sy'n ystyried amgylchiadau a galluoedd gwahanol cwsmeriaid ac yn cyflawni'r nodau a osodwyd o dan y Rhaglen Lywodraethu newydd.

1.5 Ymdrinnir â'r cwestiynau ymchwil allweddol canlynol yn yr adroddiad hwn:

1. Pa anghenion data sy'n cael eu creu gan bolisi sefydliadol a chenedlaethol?
2. A yw daliadau data Gyrfa Cymru a phartneriaid yn diwallu'r anghenion hyn, neu a all wneud hynny?
3. Beth yw'r cyd-destun deddfwriaethol ar gyfer rhannu data gweinyddol?
4. A oes materion neu risgiau cyfreithiol, preifatrwydd neu faterion eraill sy'n atal cysylltu data?
5. Beth yw'r manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â rhannu data?
6. Beth, os o gwbl, yw'r dulliau posibl o wella'r defnydd ar ddata ac effeithiolrwydd data?

Mae'r ymchwil yn archwilio'r cyd-destun polisi a deddfwriaethol y mae Gyrfa Cymru yn gweithredu ynddo, y defnydd ar ddaliadau data Gyrfa Cymru a sefydliadau eraill, a’r posibilrwydd o rannu data i gefnogi amcanion Gyrfa Cymru. Llywiodd y materion hyn ddatblygiad dulliau posibl o ddefnyddio data cysylltiedig yn effeithiol. Cafodd yr opsiynau y gallai Gyrfa Cymru eu dilyn eu datblygu a'u hystyried o ran dichonoldeb gweithredol, technegol, economaidd, cyfreithiol ac amserlennu.

1.6 Mae'r adroddiad hwn yn asesu dichonoldeb cysylltu data a strategaethau data cysylltiedig o fewn Gyrfa Cymru, a sefydliadau partner, wrth gefnogi darparu gwasanaethau a chyflawni polisi yn effeithiol yng Nghymru. Cyflwynir yr adroddiad mewn 5 prif adran:

- Mae Adran 2 yn cyflwyno trosolwg o'r dull ymchwil a ddefnyddiwyd yn y prosiect, gan fanylu ar y cwestiynau a'r fethodoleg ymchwil a fabwysiadwyd. Hefyd, mae’n disgrifio adolygu moesegol a dulliau sicrhau ansawdd.

- Mae adran 3 yn ystyried y cyd-destun polisi a deddfwriaethol yng Nghymru yn fanylach. Mae'n archwilio anghenion data Gyrfa Cymru o ystyried amcanion y sefydliad a pholisïau cenedlaethol cyn ystyried y darpariaethau cyfreithiol (ar lefel genedlaethol, y DU a'r UE) a all gefnogi rhannu data, a mater cydsynio.
- Mae Adran 4 yn archwilio'r data y mae Gyrfa Cymru yn ei ddal, gan gynnwys data a ddarperir iddo gan ysgolion, Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill. Yna, mae'n ystyried ffynonellau posibl eraill a all ddarparu data'n ymarferol i wella'r broses o wneud penderfyniadau strategol a chefnogi nodau polisi.
- Yn Adran 5, mae'r awduron yn cynnig chwe opsiwn i hwyluso gwaith cysylltu data. Mae 5 o’r opsiynau yn awgrymu gweithgareddau a all ddatblygu gallu Gyrfa Cymru i ddefnyddio data i'r eithaf a chreu effaith sylweddol o ran darparu gwasanaethau a gweithio mewn partneriaeth.
- Mae adran olaf yr adroddiad yn cyflwyno argymhellion yr awduron, gan dynnu sylw at fanteision a chyfyngiadau y dylai Gyrfa Cymru eu hystyried wrth symud ymlaen i wella'r defnydd o ddata er budd y cyhoedd.

## 2. Methodoleg

2.1 Y dulliau allweddol a ddefnyddiwyd oedd ymchwil ddesg (gan gynnwys adolygiadau o ddogfennaeth data, adnoddau ar y we, llenyddiaeth a dadansoddiad meintiol) a chyfweliadau â rhanddeiliaid allweddol.

*Ymchwil ddesg*

2.2 Asesodd yr ymchwil ddesg dri maes: 1) cyd-destun polisi a deddfwriaethol; 2) cynnwys ac argaeledd data; 3) ymchwil a thystiolaeth academaidd sy'n bodoli eisoes. Yn gyntaf, roedd hyn yn cynnwys archwilio gwybodaeth am bolisïau cyflogadwyedd a sgiliau yng Nghymru, yn enwedig y Cynllun Cyflogadwyedd, y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid a'r Warant i Bobl Ifanc, ac amcanion strategol Gyrfa Cymru i nodi anghenion data. Archwiliwyd y cyd-destun deddfwriaethol ar lefel llywodraethu Cymru, y DU ac Ewrop, sy'n baramedrau dylanwadol o ran rhannu data a mynediad at ddata.

Roedd archwilio data y mae Gyrfa Cymru yn ei dal yn gam allweddol tuag at ddeall a yw hyn yn ddigon i werthuso anghenion carfanau a darparu gwasanaethau yn gysylltiedig ag amcanion Gyrfa Cymru yn ogystal ag ystyried ymgysylltu â rhaglenni cyflogadwyedd a sgiliau Llywodraeth Cymru a deilliannau'r rhaglenni hynny. Roedd hyn yn cynnwys dogfennau Gyrfa Cymru ar gasgliadau data a hysbysiad(au) preifatrwydd. Caniataodd yr asesiad hwn o ddaliadau data mewnol am nodi cryfderau a gwendidau'r data o ran cysylltu data.

Yr ail gam oedd ystyried y ffynonellau data allanol a allai ategu nodau canolfan deallusrwydd data i wella'r modd y cyflawnir polisi cyhoeddus a gwella'r gwasanaethau a ddarperir. Dyma'r ffynonellau data cychwynnol a ystyriwyd: Data yr oedd LLWR, CYBLD, LEO, Hwb, y DWP, yr ESF ac ALlau yn ei ddal (gan ganolbwyntio ar ddata gweinyddol cyffredin gan wasanaethau cymorth ieuenctid, cymunedol, cyflogadwyedd a sgiliau a dysgwyr sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref). Eto, cafodd dogfennau gwasanaethau neu ddefnyddwyr, dogfennau rhaglenni, hysbysiadau preifatrwydd a dogfennau ategol eraill sy'n gysylltiedig â'r ffynonellau data hyn eu harchwilio i asesu defnyddioldeb y data, hawliau cyfreithiol i gael mynediad at ddata a hyfywedd cysylltu. Caiff enghreifftiau o ymchwil a wnaed gan ddefnyddio data Gyrfa Cymru ynghyd â ffynonellau eraill o wybodaeth a gedwir am gleientiaid eu cyflwyno hefyd i ddangos y defnydd o ddata gweinyddol

cysylltiedig. Roedd y rhai hynny a ystyriwyd yn opsiynau posibl yn destun ymchwiliadau ansoddol pellach (a ddisgrifir isod).

2.3 Ystyriwyd y cwestiynau canlynol yn gysylltiedig â ffynonellau data allanol:

- Pa wybodaeth unigryw sy'n cael ei dal ym mhob un o'r setiau data eraill a fyddai'n ychwanegu gwerth at ddata Gyrfa Cymru?
- Beth yw'r problemau o ran eitemau data sy'n gwrthdaro yn y gwahanol setiau data?
- Beth fyddai pob un yn ei ychwanegu at y posibiliadau ar gyfer dadansoddi?
- Beth y gellid ei ennill o ran symleiddio casgliadau data?
- Pwy arall allai elwa a sut?

2.4 Lle y bo'n bosibl, ystyriwyd hefyd y fframiau codio a ddefnyddir o fewn data Gyrfa Cymru ac a ydynt yn cyd-fynd â safonau cenedlaethol neu systemau codio a ddefnyddir mewn ffynonellau data eraill, ai peidio, i gefnogi mathau eraill o gysylltu data a mwy o aliniad â gwybodaeth a gyhoeddir o ffynonellau data eraill.

*Cyfweliadau*

2.5 Defnyddiwyd cyfweliadau hefyd yn y prosiect i archwilio cymhlethdodau cysylltu data yn fanylach – rhwystrau, manteision, deddfwriaeth, mynediad, fformat data, adnoddau – yn ogystal ag ystyried gofynion sefydliadol Gyrfa Cymru a phartneriaid. Rhoddodd y cam hwn o'r ymchwil ddealltwriaeth fwy cynnil o anghenion Gyrfa Cymru, yn ogystal â'r amgylchiadau o ran y tebygolrwydd o gael mynediad at ffynonellau data pellach mewn fformat y gellir ei gysylltu. Roedd y ffocws yma ar ddichonoldeb cael gafael ar ffynonellau allanol a chysylltu â hwy, archwilio ymhellach y manteision a'r heriau posibl, a cheisio egluro neu gadarnhau canfyddiadau'r ymchwil ddesg.

2.6 Cynhaliwyd cyfweliadau gyda 13 o randdeiliaid a swyddogion allweddol. Cynhaliwyd cyfweliadau yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd 2021 drwy Microsoft Teams. Yn ogystal â'r cyfweliadau, bu'r tîm ymchwil hefyd yn arsylwi cyfarfod rhwng Gyrfa Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau. Roedd y cyfweliadau'n lled-strwythuredig. Mae cwestiynau'r canllaw cyfweld i'w gweld yn Atodiad A. Roedd y cyfweliadau'n canolbwyntio ar bedwar maes allweddol: anghenion data, daliadau data, rhannu data a seilwaith data. Dewiswyd cyfweleion yn bwrpasol i gasglu cymaint o wybodaeth â phosibl am y pynciau uchod. Roedd y cyfranogwyr yn

cynnwys staff Gyrfa Cymru – yn cwmpasu rheolwyr, TG, ymchwil a chynghorwyr – a swyddogion Llywodraeth Cymru (yn enwedig y rhai â chyfrifoldeb am oruchwylio polisi, rheoli data a diogelu data). Roedd cyfweleion eraill yn cynnwys arweinwyr awdurdodau lleol a chydlynwyr rhanbarthol mewn meysydd polisi perthnasol. Cynhaliwyd cyfweliadau gyda staff banc data SAIL ym Mhrifysgol Abertawe hefyd. (Mae SAIL yn gyfleuster ymchwil diogel sy'n cefnogi'r gwaith o ddadansoddi data gweinyddol cysylltiedig at ddibenion ymchwil[5]).

**Sicrhau Ansawdd**

2.7 Er mwyn sicrhau trylwyredd a sicrhau ansawdd, ymgorfforwyd nifer o ddulliau yn y prosiect ymchwil. Yn gyntaf, cynhaliwyd adolygiad moesegol gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol (SREC) Prifysgol Caerdydd a'i gymeradwyo cyn dechrau'r astudiaeth. Asesodd yr adolygiad hwn nodau a methodoleg gyda golwg ar ddiogelu ymchwilwyr, a sicrhau bod hawliau, diogelwch, urddas a lles cyfranogwyr ymchwil yn cael eu diogelu.

2.8 Roedd cyfarfodydd a gohebiaeth reolaidd rhwng y tîm ymchwil ac arweinydd prosiect Llywodraeth Cymru yn caniatáu am ddiweddariadau ynghylch sut roedd y gwaith yn mynd rhagddo, y canfyddiadau a oedd yn dod i'r amlwg, y materion a nodwyd a'r camau nesaf. Lluniodd Llywodraeth Cymru grŵp llywio, a wnaeth gymryd rhan mewn cyfarfod cychwynnol a 2 weithdy ar-lein gyda chyflwyniadau gan y tîm ymchwil, a derbyniodd adroddiad cychwynnol ac adroddiad interim. Lluniwyd adroddiad interim ar ôl yr ymchwil ddesg gychwynnol i amlygu'r canfyddiadau cychwynnol a chael mewnbwn gan randdeiliaid. Roedd y gweithdy cyntaf yn canolbwyntio ar yr adroddiad interim ac, yn arbennig, ar hyfywedd opsiynau o safbwyntiau'r mynychwyr a nodi unrhyw fylchau neu bryderon. Roedd yr ail weithdy yn seiliedig ar strwythur a chynnwys terfynol yr adroddiad, gyda thrafodaeth yn canolbwyntio ar ddichonoldeb yr opsiynau ac argymhellion yr adroddiad. Roedd ymgysylltu â'r grŵp llywio yn sicrhau bod rhanddeiliaid allweddol yn rhan o waith o adeiladu a chyflawni nodau'r ymchwil.

[5] SAIL Databank

# 3. Canfyddiadau: Cyd-destun

## Cyflwyniad

3.1 Mae'r adran hon yn dechrau drwy ddisgrifio'n fyr amcanion sefydliadol Gyrfa Cymru a sut mae hyn yn berthnasol i anghenion data. Yna, mae'n mynd ymlaen i dynnu sylw at bolisi Llywodraeth Cymru sy'n effeithio'n uniongyrchol ar rwymedigaethau a gweithgareddau Gyrfa Cymru, yn enwedig y Cynllun Cyflogadwyedd, y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid (YEPF) a’r Warant i Bobl Ifanc (YPG). Yn olaf, mae’r llwybrau cyfreithiol y gall Gyrfa Cymru eu dilyn wrth gael mynediad at ddata a rhannu data â sefydliadau partner yn cael eu hystyried. Archwilir deddfwriaeth Cymru, y DU a'r UE, yn ogystal â materion cydsynio.

## Amcanion Sefydliadol Gyrfa Cymru

3.2 Mae Gyrfa Cymru yn cynnig gwasanaeth pob oed ledled Cymru ac mae ganddo dri grŵp craidd o gwsmeriaid: y rhai mewn addysg orfodol, pobl ifanc 16–24 oed, a phobl dros 25 oed. Mae Cynllun Gweithredol strategol Gyrfa Cymru yn amlinellu blaenoriaethau ac amcanion sefydliadol ac fe'i datblygir yn unol â chyfarwyddebau Gweinidogol, a nodir yn Llythyr Cylch Gwaith y Llywodraeth. Ar gyfer pob grŵp, bydd Gyrfa Cymru yn parhau i dargedu dysgwyr sydd mewn perygl o fod yn NEET (ddim mewn Cyflogaeth, Addysg na Hyfforddiant) neu sy'n ddi-waith. Mae'r Cynllun Gweithredol yn amlygu 11 o ganlyniadau strategol. Mae’r canlyniadau strategol, dangosyddion perfformiad allweddol cysylltiedig, grwpiau targed a ffynonellau data posibl i ddangos tystiolaeth o gyflawni dangosyddion perfformiad allweddol yn cael eu crynhoi yn Nhabl 3.1. Mae Canlyniadau 1, 2 ac 11, eu dangosyddion perfformiad allweddol a’u grwpiau allweddol, yn amlygu’n benodol yr angen, o fewn Gyrfa Cymru, i olrhain canlyniadau cwsmeriaid yn seiliedig ar wahanol nodweddion a’r ystod o ffynonellau data gweinyddol allanol a all ategu hyn. Mae Canlyniad 4 yn pwysleisio’r angen am rannu data’n effeithlon gyda phartneriaid. Mae Canlyniadau 5, 6 a 7 yn canolbwyntio ar ymgysylltu ag ysgolion, ond maent hefyd yn ymwneud â chydweithio â chyflogwyr ac yn cysylltu â blaenoriaethau sgiliau economaidd. Amlygir yr angen i ddatblygu gwasanaethau digidol yng Nghanlyniad 8, tra bod Canlyniadau 9 a 10 yn ymwneud â sgiliau gweithlu Gyrfa Cymru.

**Tabl 3.1: Amcanion Dyfodol Disglair a dangosyddion perfformiad allweddol**

| Amcan Strategol | Dangosyddion Perfformiad Allweddol | Grwpiau allweddol | Ffynonellau Data Posibl |
|---|---|---|---|
| **Canlyniad Strategol 1** Cefnogi pobl ifanc ac oedolion i bontio'n gadarnhaol i addysg, gwaith a hyfforddiant, gan gynnwys prentisiaethau a deall y sgiliau sy'n ofynnol i lwyddo yn y farchnad lafur a chyfrannu at economi Cymru yn y dyfodol | 95% o ddisgyblion sy'n derbyn gwasanaeth cyfarwyddyd ac anogaeth yn mynd i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant wrth adael ysgol | Disgyblion ysgol a dysgwyr AB | Arolwg Cyrchfannau, data disgyblion ysgol, data ôl-16, data LLWR, data'r DWP |
| **Canlyniad Strategol 2** Galluogi cwsmeriaid sydd wedi elwa o lefelau uwch o gefnogaeth i bontio'n gadarnhaol i ddarpariaeth briodol | 85% o bobl ifanc sy'n derbyn cymorth wedi'i dargedu yn mynd i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant wrth adael ysgol | Disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim, Plant sy'n Derbyn Gofal, Addysg heblaw yn yr ysgol (UCDau a Chwricwlwm Amgen), Mewn Perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, Gofalwyr Ifanc, Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy, Mynychwyr Gwael, Pobl nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant, Addysg Gartref, dysgwyr ag ADY, pobl ifanc sydd wedi'u lleoli mewn ystadau diogel | NDC/CYBLD, Data ôl-16, data LLWR, UCAS, HESA, data'r DWP, Addysg heblaw yn yr ysgol, data Awdurdodau Lleol |
| **Canlyniad Strategol 3** Codi ymwybyddiaeth cwsmeriaid o addysg, cyflogaeth a hyfforddiant a chyfleoedd arall i wneud cynnydd | 90% o bobl ifanc mewn addysg yn dweud eu bod yn fwy ymwybodol o gyfleoedd | O dan 25 oed | Data bodlonrwydd mewnol neu ymchwil ansoddol |
| **Canlyniad Strategol 4** Gwella mynediad at fanteision cymorth ar ffurf cyfarwyddyd gyrfaoedd ac anogaeth drwy gydweithredu ac ymgysylltu â phartneriaid a dylanwadwyr. | Cytundebau Partneriaeth gyda'r holl sefydliadau partner sy'n galluogi mynediad gwell at fanteision cyfarwyddyd ac anogaeth gyrfaoedd | Ysgolion, AB, AU, ALlau, Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, y trydydd sector | - |

| Amcan Strategol | Dangosyddion Perfformiad Allweddol | Grwpiau allweddol | Ffynonellau Data Posibl |
|---|---|---|---|
| **Canlyniad Strategol 5** Hysbysu ac ysgogi pobl ifanc ynglŷn â'r byd gwaith drwy ymgysylltu â chyflogwyr a modelau rôl | Gyrfa Cymru'n hwyluso o leiaf un digwyddiad ymgysylltu â chyflogwyr mewn 95% o ysgolion uwchradd yng Nghymru | Ysgolion cynradd, CA3, CA4, cyflogwyr, ysgolion arbennig/UCDau | Data cwsmeriaid mewnol |
| **Canlyniad Strategol 6** Codi ymwybyddiaeth pobl ifanc o'r sgiliau sydd eu hangen ar sectorau sy'n flaenoriaeth yn economaidd a sut maen nhw'n cysylltu â'r cwricwlwm. | Dywedodd 80% o gwsmeriaid eu bod yn fwy ymwybodol o'r sgiliau sy'n ofynnol gan sectorau â blaenoriaeth economaidd | Ysgolion (yn gweithio gyda Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol/Phartneriaethau Sgiliau a Dysgu Rhanbarthol) | Data bodlonrwydd mewnol neu ymchwil ansoddol |
| **Canlyniad Strategol 7** Gwella capasiti ysgolion ac Arweinwyr Gyrfaoedd i ddarparu GPhCG o fewn y Cwricwlwm i Gymru. | Mae cymorth hyfforddiant neu ymgynghoriaeth i wella rhaglenni GPhCG yn cael ei ddarparu i athrawon mewn 65% o ysgolion uwchradd yng Nghymru. | Ysgolion cynradd ac uwchradd | Mewnol |
| **Canlyniad Strategol 8** Darparu gwasanaethau wedi'u personoli, sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, wedi'u gwella gan dechnoleg, sy'n ymatebol i anghenion defnyddwyr ac yn hygyrch i bawb | Dywedodd 85% o gwsmeriaid fod eu hanghenion wedi'u diwallu gan wasanaeth ar-lein | Pob cwsmer | Mewnol – Arolwg o Fodlonrwydd Cwsmeriaid |

| Amcan Strategol | Dangosyddion Perfformiad Allweddol | Grwpiau allweddol | Ffynonellau Data Posibl |
|---|---|---|---|
| **Canlyniad Strategol 9** Creu gweithlu Gyrfa Cymru hynod fedrus, brwd, amrywiol ac ystwyth. | Mae pob cynghorydd gyrfaoedd dan hyfforddiant yn cwblhau ei Ddiploma Cyfarwyddyd a Datblygiad Gyrfa lefel 6 yn llwyddiannus o fewn y ddwy flynedd a roddir<br>Mae 75% o weithwyr yn dweud eu bod yn cael lefelau ymgysylltu cadarnhaol gyda'r cwmni | Gweithwyr | Mewnol – cofnodion hyfforddiant ac arolwg o fodlonrwydd gweithwyr |
| **Canlyniad Strategol 10** Gwneud y defnydd gorau o dechnoleg i drawsnewid ein ffyrdd o weithio a datblygu sgiliau a galluoedd digidol holl weithwyr Gyrfa Cymru | Gwelliant yn sgiliau digidol a galluoedd gweithwyr Gyrfa Cymru. | Gweithwyr | Mewnol – cofnodion hyfforddiant |
| **Canlyniad Strategol 11** Seilio ein datblygiadau o ran strategaeth, polisi a gwasanaeth ar ein dealltwriaeth o gwsmeriaid, gwybodaeth fusnes, data a dadansoddeg | - | Cwsmeriaid, rhanddeiliaid | Ffynonellau data mewnol ac allanol – LMI, arolygon bodlonrwydd y DWP, data cleientiaid, Career Check |

Ffynhonnell: Addaswyd o Gynllun Gweithredol 2021 Gyrfa Cymru. Ffynonellau data yn seiliedig ar ymchwil ddesg.

3.3 Mae'n bwysig i Gyrfa Cymru olrhain canlyniadau ei gwsmeriaid er mwyn asesu effeithiolrwydd gwasanaethau a darparu cipolygon i wella'r ddarpariaeth CIAG. Er y gellir mesur llawer o amcanion a dangosyddion perfformiad allweddol gan ddefnyddio data mewnol, megis arolygon adborth cwsmeriaid neu weithwyr, mae Canlyniadau eraill a'u dangosyddion perfformiad allweddol cysylltiedig yn dibynnu ar gaffael data allanol. Ar hyn o bryd, mae data addysg yn cael ei ddarparu i Gyrfa Cymru i olrhain cyrchfannau disgyblion CA4 a dysgwyr Ôl-16 (CA5) ar gyfer yr Arolwg Cyrchfannau Ymadawyr (gweler Adran 4). Fodd bynnag, mae'n fwy anodd dilyn trywydd unigolion nad ydynt wedi'u cofnodi yn y data hwn (efallai am eu bod wedi gadael addysg orfodol, wedi cael eu haddysgu gartref, neu wedi gadael Cymru). Mae'n arbennig o anodd dilyn trywydd cwsmeriaid sy'n oedolion (dros 18 oed) oherwydd diffyg setiau data gweinyddol hygyrch a chynhwysfawr. Gallai cysylltu â data AU gefnogi'r dadansoddiad o deithiau addysgol unigolion a'r cyflenwad sgiliau yn y dyfodol. Gallai cysylltu â data'r DWP alluogi nodi'r rhai sydd

mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, chyflogaeth na hyfforddiant a chaniatáu am flaenoriaethu cymorth i'r unigolion hyn. Yn ogystal, gellid defnyddio data'r DWP i ddangos lle nad yw cwsmer bellach yn ddi-waith neu'n cael budd-daliadau, sy'n ddefnyddiol ar gyfer asesu effaith darpariaeth CIAG Gyrfa Cymru. Gellid hefyd asesu'r effeithiau tymor hwy sy'n gysylltiedig â derbyn CIAG neu gymryd rhan mewn gwahanol fathau o Ymyriadau'r Farchnad Lafur.

3.4 Er mwyn bodloni'r nodau a nodir yn y Llythyr Cylch Gwaith, yn ogystal ag amcanion sefydliadol, ac i gefnogi gweithio mewn partneriaeth ar draws rhaglenni polisi, mae angen i sefydliadau partneriaeth rannu data. Er enghraifft, er mwyn cefnogi'r rhai yn yr ysgol 'sydd â'r risg uchaf o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, neu'r rhai sy'n ei chael hi'n anodd pontio rhwng gweithgareddau dysgu neu rhwng dysgu a gwaith', mae'n ofynnol i ysgolion ddarparu data sensitif sy'n gysylltiedig â nodweddion disgyblion megis cymhwysedd i gael Prydau Ysgol am Ddim, Anghenion Addysgol Arbennig a statws Plant sy'n Derbyn Gofal. Yn yr un modd, byddai cymorth effeithiol i grwpiau cwsmeriaid hŷn yn elwa o ddarparu data LLWR sy'n mynd y tu hwnt i'w ddefnydd dim ar gyfer adnabod pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ac ar gyfer yr Arolwg Cyrchfannau. (Gweler Adran 4 am drafodaeth bellach ar faterion data a ffynonellau posibl).

**Cymru'n Gweithio a Gweithio mewn Partneriaeth**

3.5 Mae Gyrfa Cymru yn hanfodol i gyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru drwy ddarparu cymorth hanfodol i unigolion lywio'r sectorau addysg a chyflogaeth. Mae Cynllun Cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru yn "fecanwaith allweddol ar gyfer sicrhau cymorth cyflogadwyedd symlach i unigolion ledled Cymru". Mae'n canolbwyntio ar gymorth cyflogadwyedd i annog cyflogaeth fel ffordd o leihau tlodi yng Nghymru. Dywed y Cynllun mai'r prif nod yw cael gwared ar y "y bwlch rhwng cyfraddau diweithdra ac anweithgarwch economaidd yng Nghymru a chyfartaledd y DU ymhen 10 mlynedd. Bydd y rhaglen hon yn lleihau nifer y bobl nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET), ac yn cynorthwyo pobl ddi-waith, y rhai sy'n economaidd anweithgar a'r rhai sy'n wynebu perygl o golli eu swyddi, i gael gwaith." (Cynllun Cyflogadwyedd, tudalen 4). Mae'r Cynllun Cyflogadwyedd hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd cefnogi pobl ifanc sy'n pontio i ddysgu pellach a datblygu mwy o barch cyffelyb rhwng cymwysterau academaidd a galwedigaethol.

3.6 Mae'r Cynllun Cyflogadwyedd wedi arwain at ddatblygu gwasanaeth 'Cymru'n Gweithio' dan arweiniad Gyrfa Cymru. Mae anghenion pob cwsmer sy'n cael ei gyfeirio at gynghorwyr Cymru'n Gweithio yn cael eu hasesu er mwyn cael at wasanaethau ac ymyriadau priodol. Felly, mae Gyrfa Cymru yn borthgeidwad ar gyfer nifer o raglenni ac ymyriadau addysg a chyflogadwyedd, gan "gryfhau dulliau systematig o gynorthwyo pobl ifanc i fynd yn ôl i fyd addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant drwy ddulliau cadarn sy'n cynnig ffordd well o nodi, cefnogi ac olrhain pobl ifanc y mae perygl iddynt ymadael a'r system", yn ogystal â chwsmeriaid hŷn (Cynllun Cyflogadwyedd, 2018, t. 14)

3.7 Mae'r YEPF yn bolisi pwysig arall y mae Gyrfa Cymru yn chwarae rhan bwysig ynddo wrth annog pobl i gymryd rhan mewn AHO a lleihau nifer y bobl NEET. Nod yr YEPF, a gyflwynwyd yn 2013, yw cefnogi ymyrraeth effeithiol gyda phobl ifanc 16 i 24 oed drwy chwe elfen allweddol: nodi pobl ifanc sydd mewn perygl neu bobl ifanc NEET yn gynnar; brocera a chydlynu cymorth; olrhain pontio; gwell mynediad at ddarpariaeth; datblygu sgiliau cyflogadwyedd, a chyfleoedd ac atebolrwydd. Mae'r YEPF yn defnyddio model ymgysylltu 5 haen Gyrfa Cymru (gweler Tabl 3.2). O dan yr YEPF, mae ALlau yn ganolog i gefnogi'r rheini yn Haenau 1 a 2, mae Gyrfa Cymru yn gyfrifol am Haen 3, ac mae ysgolion a darparwyr dysgu yn gyfrifol am Haenau 4 a 5.

3.8 Mae'r Warant i Bobl Ifanc (YPG), a lansiwyd ym mis Medi 2021, yn gynllun sy'n gwarantu lle mewn addysg neu hyfforddiant, cymorth i gael gwaith (yn hytrach na chynnig gwaith) neu gymorth mewn perthynas â bod yn hunangyflogedig. Mae'n canolbwyntio ar anghydraddoldebau, gan ganolbwyntio ar dargedu cymorth at y bobl ifanc hynny sy'n NEET a phobl ifanc sydd wedi cael rhybudd y gallai eu swydd gael ei dileu. Nod y cynllun yw darparu CIAG mewn cymunedau, gan ddarparu gwybodaeth am hyfforddeiaethau, prentisiaethau, cyngor ar hunangyflogaeth, atgyfeirio at raglenni cymorth cyflogadwyedd. Hefyd, mae'n ariannu ac yn darparu Gwasanaeth Paru Swyddi i helpu pobl ifanc i sicrhau cyflogaeth ac i helpu cyflogwyr i lenwi swyddi gwag. Unwaith eto, Cymru'n Gweithio yw'r porth unigol i bawb sy'n dymuno cael at y gwasanaethau a ddarperir gan y Warant. Cymru'n Gweithio fydd yn gyfrifol am olrhain ac adrodd ar statws y Warant i'r holl bobl ifanc sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth.

3.9 Mae nifer o raglenni y gall gwasanaeth Cymru'n Gweithio gyfeirio pobl ifanc atynt. Bydd llawer o bobl ifanc yn cael eu cyfeirio at golegau, hyfforddeiaethau neu

brentisiaethau. I'r cleientiaid hynny sydd angen cymorth i gael at gynlluniau gwaith fel PaCE a ReAct. Nod PaCE yw cynorthwyo rhieni sydd allan o waith i gael hyfforddiant neu gyflogaeth pan Gofal Plant yw'r prif rwystr i'r naill riant neu'r llall rhag gweithio. Mae'n ategu Cynnig Gofal Plant Cymru[6] a gall ddarparu cyllid i gyfranogwyr ar gyfer gofal plant, a chymorth un i un i ddeall budd-daliadau gwaith, ysgrifennu CV, nodi hyfforddiant a dod o hyd i waith. Mae cynllun ReAct yn cynnig help ariannol gyda hyfforddiant i'r rheini sydd wedi colli eu swyddi neu sydd wedi bod yn ddi-waith yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae Gyrfa Cymru yn asesu anghenion hyfforddi pob ymgeisydd. I bobl dros 25 oed, mae'r rhaglen Cymunedau am Waith (CfW) yn canolbwyntio ar gymorth cyflogaeth a mentora i'r rheini sy'n economaidd anweithgar, yn ddi-waith yn y tymor hir neu sydd ag anghenion cymhleth, er enghraifft, yn gysylltiedig â chyfrifoldebau gofalu. Yn ategu CfW hefyd y mae Cymunedau am Waith a Mwy (CfW+), a ariennir gan Lywodraeth Cymru, sy'n rhoi cymorth i'r rhai nad ydynt yn gymwys i gael CfW, PaCe neu gynlluniau eraill, sydd mewn tlodi neu mewn perygl o dlodi ac sy'n wynebu rhwystrau sylweddol rhag cyflogaeth. Er mwyn cael mynediad at CfW+, mae unigolion sydd â diddordeb yn cael eu cyfeirio at Gymru'n Gweithio am asesiad cychwynnol o gymhwysedd ac yna'n cael eu cyfeirio at gymorth lleol CfW+.

[6] Cynnig Gofal Plant

**Tabl 3.2: Model Ymgysylltu Pum Haen Gyrfa Cymru**

| Haen | Grŵp Cleientiaid | Gweithiwr Arweiniol |
|---|---|---|
| Haen 5<br>Pobl Ifanc mewn Addysg Bellach, Cyflogaeth neu Hyfforddiant (EET) | • Cynnal addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (EET)<br>• Gweithio neu astudio'n rhan-amser am fwy nag 16 awr<br>• Gwaith Gwirfoddol | • Ni fernir bod angen unrhyw weithiwr arweiniol gan fod y person ifanc eisoes yn cymryd rhan ac ni fernir ei fod mewn perygl o ymddieithrio |
| Haen 4<br>Pobl Ifanc mewn perygl o roi'r gorau i EET | • Y rheini sy'n cymryd rhan mewn llai nag 16 awr o EET.<br>• Y rheini y nodwyd eu bod mewn perygl o ymddieithrio cyn-16 a/neu y barnwyd eu bod mewn perygl o beidio â phontio'n gadarnhaol sydd wedyn mewn AB, chweched dosbarth neu hyfforddiant.<br>• Y rheini y mae darparwyr EET (neu eu hunain) wedi rhoi gwybod i Gyrfa Cymru eu bod mewn perygl o roi'r gorau i EET. | Mae dyrannu gweithiwr arweiniol yn dibynnu ar lefel y risg.<br>• Risg isel a chanolig – systemau bugeiliol darparwyr a/neu ddyrannu anogwr dysgu fel gweithiwr arweiniol.<br>• Risg uchel – gellir dyrannu gweithiwr arweiniol o'r Gwasanaeth Ieuenctid neu o Gyrfa Cymru neu, os bydd Teuluoedd yn Gyntaf yn chwarae rhan, y Tîm o Amgylch y Teulu fydd yn penderfynu ar ddyrannu gweithiwr arweiniol. |
| Haen 3<br>Pobl ifanc 16 ac 17 oed di-waith sy'n hysbys i Gyrfa Cymru | • Y rheini sy'n ymwneud â Gyrfa Cymru a/neu y mae'n hysbys eu bod wrthi'n chwilio am EET; naill ai'n barod i fynd i mewn i EET, neu aseswyd bod angen cymorth rheoli gyrfa neu sgiliau cyflogadwyedd arnynt i fynd i mewn i EET.<br>• Dylai'r haen hon hefyd gynnwys y rheini sy'n hysbys i Gyrfa Cymru, sydd wrthi'n chwilio am EET ond nad oes angen cymorth estynedig Gyrfa Cymru arnynt h.y. maent yn cael gafael ar gymorth drwy GyrfaCymru.com, yn aros am ddyddiad dechrau'r coleg ac ati. | • Nodwyd gweithiwr arweiniol i 100% o'r garfan.<br>• Bydd Gyrfa Cymru yn darparu'r gweithiwr arweiniol ym mron pob achos. |
| Haen 2<br>Pobl ifanc 16 ac 17 oed di-waith, sy'n hysbys i Gyrfa Cymru, nad ydynt ar gael ar gyfer EET | • Person ifanc nad yw ar gael i geisio EET/sy'n methu â cheisio EET (salwch, gofalwyr ifanc, beichiogrwydd, yn y ddalfa).<br>• Pobl ifanc sydd â rhwystrau sylweddol neu luosog, sydd angen cymorth personol dwys. | • Nodwyd gweithiwr arweiniol i 100% o'r garfan.<br>• Bydd y Gwasanaeth Ieuenctid yn darparu gweithiwr arweiniol ym mron pob achos. |
| Haen 1<br>Statws anhysbys yn sgil gadael gwasanaethau Gyrfa Cymru | • Pobl ifanc nad ydynt yn hysbys i Gyrfa Cymru. | Ar ôl nodi unigolion, cânt eu dyrannu i'r haen briodol a dyrennir gweithiwr arweiniol iddynt yn unol â hynny. |

Ffynhonnell: Cynllun gweithredu'r Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid, tudalen 29.

**Yr Achos dros Rannu Data**

3.10 Mae'r holl bolisïau a rhaglenni hyn yn golygu bod Gyrfa Cymru yn chwarae rhan gynyddol bwysig o ran hwyluso mynediad at addysg a hyfforddiant a chymorth cyflogadwyedd. Ar draws Awdurdodau Lleol a phartneriaid prosiect eraill mae nifer o staff yn ymwneud â darparu rhaglenni o'r fath, gan gynnwys mentoriaid ieuenctid ac oedolion, swyddogion brysbennu, swyddogion cyllid, cynghorwyr cyflogaeth arbenigol a swyddogion cyswllt cyflogaeth. Dangosodd asesiad o'r YEPF ddwy flynedd ar ôl ei sefydlu fod ALlau a phartneriaid wedi nodi anawsterau o ran cael gafael ar wybodaeth am bobl ifanc 16-18 oed er mwyn olrhain canlyniadau a chynnal ymarferion meincnodi, a bod potensial gan gysylltu data gweinyddol i helpu i werthuso effeithiau'r YEPF[7].

3.11 Amlygodd tystiolaeth o ddata cyfweliadau a gasglwyd ar gyfer yr astudiaeth bresennol hon anawsterau o ran rhannu data hefyd. Roedd ein cyfweleion o'r farn bod Protocolau Rhannu Gwybodaeth a ddatblygwyd o dan Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI)[8] yn caniatáu rhannu data, ac roedd ALlau a phartneriaid yn gadarnhaol am eu heffaith ar ymgysylltu ag unigolion NEET, ond dywedasant fod cael gafael ar wybodaeth am bobl ifanc 16-18 oed i olrhain canlyniadau a gwneud gwaith meincnodi yn fwy heriol. Tynnodd y cyfweleion sylw at yr angen am gydgyfrifoldeb am bob Haen. Drwy ddarparu mynediad dim ond at wybodaeth o fewn yr hen system IO (a ddisodlwyd yn ddiweddar gan Atlas CRM) a oedd yn berthnasol i unigolion o fewn Haenau penodol (e.e. ALlau yn unig 1 a 2, Gyrfa Cymru 3, a darparwyr 4 a 5) roedd yn anodd i sefydliadau ystyried effaith eu hymyriadau. Mae angen i bartneriaid YEPF, YPG a rhaglenni cymorth cyflogadwyedd gael cyfrifoldeb ar y cyd am bob Haen, a mynediad at ddata ar gyfer pob Haen, i gefnogi nodi'n gynnar ac ymyrraeth briodol, er bod yn rhaid i gyfrifoldebau pob partner, i gwsmeriaid ac ar draws sefydliadau, gael eu nodi'n glir.

3.12 Hefyd, ystyriwyd ei bod hi'n bwysig cael mynediad ar draws partneriaid at ddata unigolion o fewn rhaglen Cymru'n Gweithio. Er enghraifft, lle'r oedd rhwystrau i ddysgu eisoes wedi'u nodi, gallai hyn fod yn berthnasol i'r cymorth a gynigir gan sefydliadau yn y dyfodol. Gall deall hanes pontio i fyny ac i lawr Haenau helpu i gynllunio darpariaethau a phennu nodau o fewn ALlau. Ystyriwyd bod mwy o

---

[7] ICF Rhyngwladol ac Ymchwil Arad, 2015
[8] WASPIs

wybodaeth yn adnodd allweddol wrth lywio tystiolaeth a chynllunio darpariaeth yn y tymor hwy. Ystyriwyd bod hyn yn arbennig o wir ar gyfer cefnogi'r rheini ag anghenion cymhleth, y rheini a symudodd yn rheolaidd rhwng Haenau yn ogystal â chaniatáu i unigolion sy'n agored i niwed gael eu nodi ac ymyriadau wedi'u trefnu cyn gynted â phosibl.

3.13 Er bod y ddarpariaeth bresennol gan Gyrfa Cymru yn darparu mynediad i ddangosfyrddau ac adroddiadau Power BI[9] sy'n caniatáu i sefydliadau weld data cyfanredol ledled Cymru ac edrych ar berfformiad mewn meysydd penodol, barnwyd bod data ar lefel unigol yn llawer mwy defnyddiol wrth gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau. Roedd trafodaethau'n ymwneud â defnyddioldeb data yn pwysleisio pwysigrwydd rhannu dynodwyr personol, lefelau sgiliau (llythrennedd, rhifedd), profiad gwaith a hanes cyflogaeth, hyfforddiant (y cofrestrwyd ar ei gyfer ac sydd wedi'i gwblhau), dyheadau, rhwystrau, ymyriadau a baner ddosbarthu model 5 haen. Fodd bynnag, bydd datblygu systemau wedi'u halinio yn gofyn am gapasiti a buddsoddiad sylweddol.

3.14 Er y gwelwyd bod Cydlynwyr Ymgysylltu a Datblygu yn arwain ar gydlynu'r YEPF, ystyriwyd gan amlaf fod yr amser a'r adnoddau yr oedd eu hangen i gefnogi anghenion data yn ddiffygiol. Byddai creu un gronfa ddata sy'n adalw data o ffynonellau data eraill, fel sy'n bosibl yn Power BI, yn caniatáu i bartneriaid data fod yn broseswyr data (neu'n rheolwyr data ar y cyd)[10] ar gyfer pob sefydliad a oedd yn llofnodwr, gyda rolau a defnydd wedi'u diffinio'n glir ar gyfer pob un ohonynt. Hefyd, byddai un gronfa ddata'n mynd i'r afael â'r baich sylweddol a osodir ar gwsmeriaid i ddarparu'r un wybodaeth a phrofiadau dro ar ôl tro i nifer o wahanol sefydliadau partner, rhywbeth y mae cwsmeriaid yn ei ystyried yn faich ac yn llafurus i'r staff hynny sy'n eu cefnogi.

3.15 Yn fwy diweddar, mae'r YEPF wedi bod yn cael ei adolygu a disgwylir ei adnewyddu yn 2022. Dangosodd tystiolaeth o'r ymgynghoriad swyddogol ar yr YEPF yn 2021[11] fod gan y rhaglen werth sylweddol ymhlith partneriaid, eto

---

[9] Gall Power BI, gwasanaeth dadansoddeg busnes, alluogi creu adroddiadau sy'n defnyddio setiau data CRM i greu canfyddiadau a mewnwelediadau yn seiliedig ar y data hwnnw, gan greu delweddau safonedig y gall unigolion a sefydliadau lluosog gael atynt. Yna, gall y delweddau a grëwyd ar gyfer adroddiad gael eu rhoi mewn 'dangosfwrdd', sy'n gallu cael gafael ar wybodaeth o adroddiadau lluosog.

[10] Mae'r gwahaniaeth rhwng rheolydd data a phrosesydd data yn ymwneud yn bennaf â chyfrifoldeb am lywodraethu data. Mae rheolwyr data yn pennu pam a sut y caiff data ei gasglu ac at ba ddibenion y gellir ei ddefnyddio, a gall proseswyr data ddefnyddio'r data hwn at ddibenion diffiniedig. Ewch i wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, am ragor o wybodaeth.

[11] Adolygiad o'r YEPF

awgrymodd y bydd "bydd dulliau mwy effeithiol o rannu data a gwaith tracio a darpariaeth gydgysylltiedig yn elfennau pwysig o Fframwaith diwygiedig" yn enwedig i'r rheini dros 18 oed (t. 4) (trafodir hyn ymhellach yn Adran 4). Awgrymodd cyfweliadau nad oes fawr o ddisgwyl y byddai nodau cyffredinol yr YEPF yn newid yn sylweddol, yn hytrach, disgwylid newidiadau yn gysylltiedig â chwmpas, llywodraethu a phrosesau. Croesawyd rôl y Cydlynwyr Ymgysylltu a Datblygu ond mae'r ffordd y caiff ei gwreiddio mewn ALlau yn amrywio, gyda rhai â chyfrifoldeb unigol, rhai'n rhannu'r rôl ac eraill yn jyglo'r rôl ymhlith cyfrifoldebau eraill. Disgwylir y bydd yr YEPF wedi'i ddiwygio'n rhoi mwy o arweiniad ar gyfrifoldebau'r Cydlynwyr, a sut mae'r YEPF yn cyd-fynd â'r YPG. Hefyd, mae cwmpas yr YEPF yn debygol o newid, gan ehangu i gynnwys mwy o gefnogaeth i bobl sy'n cael problemau iechyd meddwl neu'r rheini sy'n ddigartrefedd neu mewn perygl o fod yn ddigartref.

3.16 Thema gyffredin mewn cyfweliadau â Gyrfa Cymru a sefydliadau partner oedd yr angen am fwy o gydlynu wrth ddarparu gwasanaethau ac yng nghydnawsedd systemau neu ddata. Diben hyn oedd galluogi asesu'r rhwystrau y gallai cwsmeriaid eu hwynebu wrth fynd i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth, a all helpu gyda chyfarwyddyd ac ymyriadau effeithiol. Gellid datblygu'r gwaith o ddarparu mentora, meithrin cydberthnasau o fewn gwasanaethau ieuenctid a rhaglenni fel Cymunedau am Waith drwy rannu data. Gallai hyn hefyd wella profiad cwsmeriaid gan nad yw teithiau, yn enwedig i'r rhai ag anghenion cymhleth neu amrywiol, yn aml yn llinol a bydd unigolion yn aml yn hwylio rhwng categorïau o fewn y model 5 haen. Gall cynnal daliadau data hydredol ar draws gwasanaethau helpu i lywio dealltwriaeth o ymyriadau a gynigiwyd ond nad arweiniodd at gyflogaeth hirdymor. Gall cael y ddealltwriaeth hon alluogi nodi llwybrau ac ymyriadau priodol, neu rwystrau y mae angen mynd i'r afael â hwy.

3.17 Yn ogystal, codwyd hanes o broblemau meddalwedd mewn cyfweliadau â sefydliadau allanol. Yn aml, nid oedd data'n cael ei rannu'n fewnol rhwng adrannau mewn awdurdodau lleol ac roedd diffyg mecanweithiau i gefnogi rhannu data o fewn ALlau yn ogystal ag yn allanol. At hynny, lle cesglir data, mae hyn yn aml yn digwydd gyda swyddogaethau rheoleiddio ac adrodd mewn golwg yn hytrach na defnyddio data wrth ddarparu gwasanaethau unigol. Teimlwyd y dylai meddalwedd a chofnodi data gael eu safoni o fewn partneriaethau, lle bo hynny'n bosibl. Awgrymwyd y byddai mynediad at yr un seilwaith (sef "*y* system"), gyda

mynediad rheoledig at wybodaeth angenrheidiol neu berthnasol, yn annog mwy o gysoni. Gallai datblygu systemau data mwy cydlynol a chyson alluogi meincnodi effeithiol ac amserol hefyd. Yn wir, ystyriwyd hefyd bod un system cronfa ddata a oedd yn gweithredu ar draws ALlau ac, o bosibl hefyd, sefydliadau partner eraill sy'n cefnogi hyfforddiant a chyflogaeth, yn fuddiol i gynyddu gwydnwch wrth gefnogi unigolion sy'n symud cartref ar draws ffiniau ALlau.

3.18 Mae potensial i ddefnyddio cysylltu data er mwyn darparu gwybodaeth i'r bobl hynny mewn rolau cymorth a all helpu i lywio trafodaethau CIAG gyda chwsmeriaid. Mae cyfle hefyd i fanteisio i'r eithaf ar ddefnyddioldeb data gweinyddol a gesglir gan Gyrfa Cymru a phartneriaid cyflenwi wrth ddarparu'r gwasanaethau hyn.

**Deddfwriaeth**

3.19 Mae'r Llythyr Cylch Gwaith cyfredol a anfonwyd at Gyrfa Cymru yn amlinellu pwysigrwydd data. Yn benodol, mae'n annog Gyrfa Cymru i barhau i "ddefnyddio data cwsmeriaid yn rhagweithiol, p'un a ydych yn ei gael gan bartneriaid neu o'ch cronfa ddata eich hun, i lywio a chyfarwyddo eich cefnogaeth i gwsmeriaid ac i helpu mesur effaith eich cefnogaeth", yn ogystal â hyrwyddo'r defnydd ar ddata i gefnogi partneriaid a llunwyr polisïau. Fodd bynnag, mae angen rhannu data o fewn ffiniau fframweithiau cyfreithiol. Felly, rhaid gwerthuso manteision posibl rhannu data yn gysylltiedig â llwybrau cyfreithiol mynediad at ddata a rheoliadau/cyfyngiadau defnyddio (fel y GDPR, hysbysiadau preifatrwydd, a chydsyniad). Rydym bellach yn ystyried dylanwad deddfwriaeth yng Nghymru, y DU a'r UE sy'n effeithio, yn gadarnhaol ac yn negyddol, ar allu Gyrfa Cymru i gael at ddata gan sefydliadau eraill a all gefnogi anghenion data sefydliadol a pholisi.

*Deddfwriaeth Cymru a'r DU*

3.20 Mae adran 60 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn caniatáu i Weinidogion Cymru drosglwyddo neu gyflawni eu swyddogaeth a'u pwerau cyfreithiol fel awdurdodau cyhoeddus i Awdurdodau Lleol a Gyrfa Cymru, yn ogystal â darparu cymorth ariannol (adran 70). Mae adran 83 yn pennu y gellir gwneud trefniadau sy'n caniatáu i:

'(a) unrhyw swyddogaethau un ohonynt gael eu harfer gan y llall,

(b) unrhyw swyddogaethau Gweinidogion Cymru gael eu harfer gan aelodau staff yr awdurdod perthnasol,

(c) unrhyw swyddogaethau'r awdurdod perthnasol gael eu harfer gan aelodau staff Llywodraeth Cymru, neu

(d) ddarparu gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol neu dechnegol gan un ohonynt ar gyfer y llall.'

3.21 Yn ogystal, mae Adran 40 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000[12] yn nodi "Rhaid i Weinidogion Cymru sefydlu systemau ar gyfer casglu gwybodaeth sydd wedi'u cynllunio i sicrhau bod eu penderfyniadau o ran addysg a hyfforddiant yn cael eu gwneud ar sail gadarn." a "Caiff Gweinidogion Cymru sicrhau bod cyfleusterau'n cael eu darparu ar gyfer darparu gwybodaeth, cyngor neu arweiniad am addysg neu hyfforddiant neu faterion cysylltiedig (gan gynnwys cyflogaeth)." Fel y gwelsom uchod, mae'r llythyr Cylch Gwaith yn rhoi cyfarwyddyd i Gyrfa Cymru asesu ei allu i gefnogi darpariaeth a monitro ar draws rhaglenni addysg a chyflogadwyedd. Ymddengys felly fod y ddau ddarn hyn o ddeddfwriaeth yn cefnogi'r swyddogaethau a gyfarwyddir gan y Gweinidog ac yn cefnogi mynediad at ddata Gyrfa Cymru.

3.22 Yn Neddf Addysg 1997 yn bennaf y mae'r sail ddeddfwriaethol ar gyfer rhannu data cwsmeriaid oedran ysgol. Dywed adran 43(1) "Rhaid darparu rhaglen addysg gyrfaoedd i bob disgybl cofrestredig mewn ysgol [yng Nghymru] y mae'r adran hon yn berthnasol iddi, yn ystod cyfnod perthnasol eu haddysg.", ac mae Adran 44(1) yn datgan "ar gais, dylai darparwyr Gwybodaeth, Cyngor a Chyfarwyddyd Gyrfaoedd (CIAG) gael "enw a chyfeiriad pob disgybl neu fyfyriwr perthnasol yn y sefydliad; ac unrhyw wybodaeth sydd ym meddiant y sefydliad am unrhyw ddisgybl neu fyfyriwr o'r fath y mae ar y cynghorydd gyrfaoedd ei hangen er mwyn gallu rhoi cyngor a chyfarwyddyd iddo ar benderfyniadau am ei yrfa neu wybodaeth arall sy'n berthnasol i benderfyniadau o'r fath." Fodd bynnag, gall disgresiwn ysgolion o ran beth yw gwybodaeth berthnasol a diffyg manylder am y math o fynediad (er enghraifft, trosglwyddo data ar gyfer prosesu, mynediad personol i systemau ar safleoedd ysgol neu'n ddigidol) gyfyngu ar fynediad at ddata sy'n angenrheidiol ym marn Gyrfa Cymru i ddarparu CIAG effeithiol. At hynny, gan fod yr adran hon yn cyfeirio at ddisgyblion mewn ysgol ac yn y cyfnod perthnasol yn unig, mae hyn yn debygol o gael ei ddehongli fel dysgwyr Cyfnod

[12] Deddf Dysgu a Sgiliau 2000

Allweddol 4, ac mae'n eithrio dysgwyr sy'n cael Addysg Ddewisol yn y Cartref (neu addysg gartref, fel y'i gelwir yn aml).

3.23 O dan Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (Rhan 2 o Atodlen 2 adran 253A(2)(d))[13] a Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Fyfyrwyr) (Cymru) 2017, nodir bod Gyrfa Cymru (CCDG) a sefydliadau addysg eraill sy'n ymwneud â darpariaeth PCET (fel CCAUC, Cymwysterau Cymru, HESA ac UCAS) yn sefydliadau sy'n gallu rhannu gwybodaeth myfyrwyr at ddibenion ymchwil, cynhyrchu ystadegau neu ddadansoddiadau, neu ddarparu gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd.

3.24 Mae'r Rheoliadau'n datgan:

'1. Ar gyfer pob unigolyn sy'n ceisio, wedi ceisio
neu wedi cael cymhwyster penodedig, yr wybodaeth a ganlyn –

(a) cyfenw;

(b) enw cyntaf, neu bob enw cyntaf, os oes mwy nag un;

(c) rhyw;

(d) dyddiad geni;

(e) grŵp ethnig;

(f) cyfeiriad cartref a chod post;

(g) rhif unigryw'r dysgwr a ddyrannwyd i unigolyn gan y Gwasanaeth Cofnodion Dysgu(4);

(h) y cymwysterau perthnasol neu'r cymwysterau rheoleiddiedig, os oes rhai, sydd gan yr unigolyn wrth ymrestru neu gofrestru â'r darparwr dysgu at ddiben cael cymhwyster penodedig;

(i) y dyddiad pan gofrestrodd, neu pan ymrestrodd, yr unigolyn â darparwr dysgu at ddiben cael cymhwyster penodedig.

2. Enw a chyfeiriad y darparwr dysgu y mae'r unigolyn, neu yr oedd yr unigolyn, wedi ymrestru neu wedi ei gofrestru ag ef.

3. Ar gyfer pob cymhwyster penodedig y mae unigolyn yn ei geisio, wedi ei geisio, neu wedi ei gael—

[13] Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009

(a) enw'r cymhwyster;

(b) y cod adnabod unigryw a ddyrannwyd i'r cymhwyster gan Gymwysterau Cymru(5);

(c) y radd y mae darparwr dysgu neu goladydd gwybodaeth yn rhag-weld y bydd unigolyn yn ei chael cyn sefyll unrhyw arholiad neu asesiad sy'n arwain at y cymhwyster;

(d) y radd, os oes un, a gafwyd;

(e) enw a chyfeiriad y ganolfan arholi a rhif y ganolfan arholi, a ddyrannwyd gan y person sy'n dyfarnu'r cymhwyster, y safwyd unrhyw arholiad neu asesiad sy'n arwain at y cymhwyster ynddi;

(f) y dyddiad pan gofnodwyd unigolyn ar gyfer arholiad neu asesiad sy'n arwain at y cymhwyster;

(g) y dyddiad pan ddyfarnwyd y cymhwyster;

(h) y rhif unigryw a ddyrannwyd i unigolyn sy'n ceisio'r cymhwyster gan y person sy'n dyfarnu'r cymhwyster.'[14]

3.25 Yn achos cwsmeriaid sy'n oedolion sy'n ymgymryd ag addysg a hyfforddiant (ond nad ydynt mewn AU), mae Deddf Cyflogaeth a Hyfforddiant 1973 yn darparu sail gyfreithiol i Gyrfa Cymru ymgymryd â darparu CIAG, i benderfynu "pa gyflogaethau, o ystyried eu galluoedd, sydd neu a fydd yn addas iddynt ac ar gael iddynt, a pha hyfforddiant neu addysg y mae neu y bydd eu hangen arnynt ac ar gael iddynt er mwyn eu paru â'r cyflogaethau hynny" ac i brosesu data categori personol ac arbennig at y diben hwn. Mae hyn yn ehangu cylch gwaith prosesu data i'r rhai sydd mewn amgylcheddau addysg a hyfforddiant llai ffurfiol.

3.26 O ran ymgysylltu â disgyblion a chwsmeriaid ag AAA, mae Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 yn darparu sail gyfreithiol i Gyrfa Cymru brosesu data personol, gan gynnwys data categori arbennig, er mwyn cyflawni swyddogaethau a darparu gwasanaethau. Yn achos data sy'n cael ei ddal gan Awdurdodau Lleol, gall darpariaethau o dan Ddeddf Plant 2004 (Adran 25(6)) alluogi rhannu data at ddibenion gwella lles sy'n cynnwys addysg, hyfforddiant, lles economaidd a datblygiad deallusol.

---

[14] Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Fyfyrwyr) (Cymru) 2017

3.27 Diwygiodd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i bobl rhwng 0 a 25 oed sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) (neu Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)) ar gyfer plant oedran ysgol ac anawsterau/anableddau dysgu mewn AB). Roedd y ddeddfwriaeth hon yn golygu cynhyrchu'r Cod a'r Rheoliadau ADY, a gymeradwywyd ym mis Ebrill 2021. Nid yw'r newidiadau yn y maes hwn yn lleihau rhwymedigaethau Gyrfa Cymru i gefnogi swyddogaethau Gweinidogol yn gysylltiedig ag Anghenion Addysgol Arbennig a nodir yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000. Fodd bynnag, mae potensial gan y newidiadau i gyfyngu ar fynediad Gyrfa Cymru at wybodaeth gan nad oes 'rhwymedigaeth' bellach i gynnwys Gyrfa Cymru wrth asesu anghenion a datblygu cynlluniau cymorth, er ei fod yn cael ei annog.

3.28 Agwedd arwyddocaol arall yw'r pwerau cymharol newydd i awdurdodau cyhoeddus rannu eu ffynonellau data eu hunain a ffynonellau data eraill er lles y cyhoedd. Mae Rhan 5 Deddf yr Economi Ddigidol 2017[15] yn hwyluso rhannu'r data y mae awdurdodau cyhoeddus yn ei ddal. Yn benodol, mae Rhan 5, Pennod 1, Adran 35 'Datgelu gwybodaeth i wella darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus' yn caniatáu i wybodaeth gael ei rhannu pan fo amcan penodol rhwng "personau penodedig" i gyflawni swyddogaethau. Rhestrir personau penodedig o dan Reoliadau Llywodraethu Digidol (Cyrff Cymreig) (Cymru) 2018[16]. Mae hyn yn cynnwys ysgolion (fel y'u diffinnir yn Neddf Addysg 1996), Gyrfa Cymru a chyrff llywodraethu'r sectorau AB ac AU, ymhlith eraill. Mae'r hawliau i rannu gwybodaeth bersonol yn gyfyngedig oni bai bod cydsyniad yn cael ei roi neu mae'n gysylltiedig â'r hyn "sy'n ofynnol neu a ganiateir gan unrhyw ddeddfiad (gan gynnwys unrhyw un o adrannau 35 i 39)".

3.29 Rhaid i sefydliadau sy'n rhannu data o dan Ddeddf yr Economi Ddigidol roi sylw dyledus i'r "systemau a gweithdrefnau ar gyfer trin gwybodaeth yn ddiogel" a sicrhau mai diben yr amcanion yw (a) gwella neu dargedu gwasanaeth cyhoeddus a ddarperir i unigolion neu aelwydydd, neu (b) hwyluso darparu budd (boed yn ariannol ai peidio) i unigolion neu aelwydydd. Yn ail, rhaid iddo wella lles unigolion neu aelwydydd o ran "(a) eu hiechyd corfforol a meddyliol a'u lles emosiynol, (b) y cyfraniad a wnânt i gymdeithas, ac (c) eu lles cymdeithasol ac economaidd." Yn olaf, dylai gefnogi "(a) cyflawni swyddogaethau person penodedig, neu (b)

[15] Deddf yr Economi Ddigidol 2017

[16] Reoliadau Llywodraethu Digidol (Cyrff Cymreig) (Cymru) 2018

gweinyddu, monitro neu orfodi swyddogaethau person penodedig". O dan yr amodau hyn, dylai Gyrfa Cymru fod â'r gallu i rannu a derbyn gwybodaeth bersonol. Felly, gellir rhannu gwybodaeth bersonol rhwng Gyrfa Cymru a'r sefydliadau partner hynny a restrir fel personau penodedig ar gyfer amcanion penodol.

3.30 Mae nifer o newidiadau deddfwriaethol eraill sy'n cael eu cynnig neu eu gweithredu yng Nghymru dros y blynyddoedd nesaf a allai newid mynediad Gyrfa Cymru a phartneriaid at wybodaeth bersonol a data categori arbennig. Er enghraifft, gwnaed ymgynghoriadau a chynigion o ran rheoleiddio Addysg Ddewisol yn y Cartref. Mae newidiadau sylweddol hefyd yn y tirlun llywodraethu ar gyfer AHO a hynny o dan y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru). Nod y Bil yw sicrhau bod awdurdodau lleol yn cynllunio hawliau i gyfleoedd dysgu (academaidd a galwedigaethol), gan gynnwys mynediad at wasanaethau cymorth a hyrwyddo diwygio prentisiaethau. Gallai'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil roi cyfle i sicrhau gwell mynediad at ddata AB ac AU at ddibenion cefnogi olrhain, tueddiadau a gwerthuso a dylid monitro datblygiadau am eu heffeithiau ar weithgareddau Gyrfa Cymru.

*Deddfwriaeth yr UE, y Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data*

3.31 Yn sgil cyflwyno'r GDPR yn 2018, cafwyd newidiadau yn yr amgylchedd deddfwriaethol o ran data personol a rhannu data. Rhoddwyd mwy o amlygrwydd i gydsyniad, a chydsyniad gwybodus, i ddiogelu hawliau unigol ond nid yw deddfwriaeth GDPR yn atal nac yn rhwystro prosesu/rhannu data sy'n angenrheidiol ac yn gymesur ar gyfer cyflawni swyddogaethau sydd er budd y cyhoedd. Mae'r GDPR yn rhoi llwybr at fynediad at ddata er mwyn cyflawni tasg gyhoeddus (Erthygl 6(1)(e)) ac am resymau budd sylweddol i'r cyhoedd neu fuddiannau dilys sy'n gymesur â hawliau unigolion (Erthygl 9(2)(g)).

3.32 Gellir rhannu data rhwng sefydliadau ar yr amod bod sail gyfreithiol dros wneud hynny (rydym wedi tynnu sylw at y llwybrau cyfreithiol allweddol uchod). Gan amlaf, mae angen cytundebau rhannu data rhwng sefydliadau, sy'n nodi'r rhesymau dros rannu'r data a gwybodaeth am y data sydd i'w rannu.

3.33 Yn unol â'r GDPR, mae Gyrfa Cymru yn darparu hysbysiadau preifatrwydd manwl i esbonio i gwsmeriaid sut y bydd yn prosesu, yn defnyddio ac yn rhannu data am unigolion. Mae gan Gyrfa Cymru ddatganiad preifatrwydd ar-lein sy'n cwmpasu ei

wasanaethau[17] (gyda hysbysiad preifatrwydd ar wahân yn cwmpasu Cymru'n Gweithio). O ran mynediad at ddata, mae hysbysiad preifatrwydd Gyrfa Cymru yn nodi ar hyn o bryd ei fod yn rhannu data gyda sefydliadau sy'n cynnwys Ysgolion (gan gynnwys eu rheolwyr a'u staff), sefydliadau AB ac AU, darparwyr hyfforddiant, Awdurdodau Lleol, Llywodraeth Cymru ac Estyn. Mae hyn yn unol â'r ddeddfwriaeth a enwir uchod ac mae'n galluogi Gyrfa Cymru i ddarparu gwybodaeth i bartneriaid allanol lle y bo porth priodol a chyfreithiol ac, mewn rhai achosion, mae'n caniatáu mynediad at systemau rheoli data Gyrfa Cymru (gyda chytundebau a mesurau diogelu priodol).

3.34 Mewn cyfweliadau, dywedwyd bod darparu data i Gyrfa Cymru ar ôl cyflwyno'r GDPR wedi newid. Ar gyfer Llywodraeth Cymru, arweiniodd cyflwyno'r GDPR at adolygiad o deithiau data, i asesu'r arferion rhannu a sicrhau eu bod yn rhesymol ac yn gymesur. Fodd bynnag, nododd yr adolygiad hwn daith gymhleth ar gyfer data addysg a olygai fod data'n cael ei drosglwyddo o ysgolion i Lywodraeth Cymru ac, yn y pen draw, i Gyrfa Cymru. Cododd hyn gwestiynau ynghylch yr hawliau fel rheolwyr a phroseswyr data a diben y rhannu hwn. Daethpwyd i'r casgliad y byddai taith ddata symlach, o ysgolion yn syth i Gyrfa Cymru, yn fuddiol gan fod cyfrifoldebau'n gliriach a byddai data'n llifo'n gynt. Fodd bynnag, effeithiodd hyn ar amserlennu a darparu data, gan fod Swyddogion Diogelu Data mewn ysgolion neu'r ALl yn dehongli'r rhwymedigaethau arnynt i rannu data yn wahanol (naill ai yn ei gyfanrwydd neu eitemau data penodol, sensitif yn aml). Codwyd y materion hyn hefyd yng ngwerthusiad 2021 YEPF.

*Cydsyniad*

3.35 Mae 6 sail gyfreithlon ar gyfer cael mynediad at ddata personol o dan ddeddfwriaeth y GDPR. Uchod, rydym wedi ystyried y llwybrau cyfreithiol sy'n cefnogi prosesu data, lle gallai Gyrfa Cymru fynd ar drywydd data ar sail tasg gyhoeddus neu fudd dilys. Mae cydsyniad yn darparu llwybr arall a gall alluogi rhannu data y tu hwnt i unrhyw sail gyfreithiol ar yr amod bod nifer o amodau'n cael eu bodloni. Mae'r meini prawf yn cynnwys rhoi data yn rhydd, yn wybodus ac yn ddiamwys, a bod gweithgareddau prosesu (neu ddefnyddiau) yn cael eu pennu. Mae angen cydsyniad penodol ar gyfer data categori arbennig (e.e. ethnigrwydd neu ddata iechyd).

[17] Hysbysiad preifatrwydd Gyrfa Cymru

3.36 Nid oedd cyfweleion o’r farn bod symud i broses gydsynio, yn enwedig ar gyfer disgyblion ysgol neu lle'r oedd pyrth cyfreithiol i fynediad at ddata yn bodoli, yn angenrheidiol nac yn ddoeth. Y prif bryder oedd na fyddai'r mwyafrif o bobl yn dueddol o gymryd rhan yn y broses a rhoi eu cydsyniad oherwydd difaterwch, er na fyddai'r rhan fwyaf o bobl yn gwrthwynebu’n agored i’w data gael ei ddefnyddio. Byddai hyn yn arwain at leihau'r data, a fyddai'n llesteirio’r gallu i ddarparu gwasanaethau. Nodwyd hefyd bod hawliau i unigolion dynnu eu data yn ôl ar waith, yn unol â GDPR. Mae hyn wedi'i gofnodi yn hysbysiad preifatrwydd Gyrfa Cymru. Dylid nodi hefyd bod ymchwil yn dangos bod y cyhoedd yn cefnogi rhannu data yn gyffredinol ymhlith awdurdodau cyhoeddus lle'r oedd mynediad ato er budd y cyhoedd (IPSOS, 2014)[18].

3.37 O ran y broses y mae Gyrfa Cymru yn ei dilyn wrth gyflawni ei rwymedigaethau i unigolion y maent yn dal data ar eu cyfer, pan gaiff data cwsmeriaid newydd ei drosglwyddo i Gyrfa Cymru, fel data gan ysgolion neu ALlau, cysylltir â chwsmeriaid a rhoddir gwybodaeth am yr hysbysiad preifatrwydd iddynt o fewn 30 diwrnod i'w hatgyfeirio i Gyrfa Cymru. Pan fo cwsmeriaid o dan 18 oed, yn unol â deddfwriaeth diogelu, anfonir gwybodaeth at rieni neu warcheidwaid. Mae Gyrfa Cymru yn gweithredu yn ôl model cydsynio drwy optio allan, lle y cymerir camau priodol i roi gwybod i bobl am y defnydd ar eu data personol a'u hawliau i dynnu cydsyniad yn ôl. Byddai unrhyw newidiadau i'r model cydsynio yn cynyddu'r baich gweinyddol trwm presennol ar Gyrfa Cymru a achosir gan gytundebau rhannu data a byddai’n debygol o ddirywio ansawdd a chwmpas y data a gesglir. Yn ogystal, awgrymodd cyfweleion y byddai sefydlu model cydsynio drwy optio i mewn yn atal y sefydliad rhag cyrraedd yr union bobl y mae angen cymorth arnynt fwyaf. Bydd angen gwneud rhagor o waith i ganfod y llwybrau mynediad cyfreithiol at ddata ar gyfer pobl dros 18 oed ac, os bernir bod hyn yn anfoddhaol, efallai y bydd angen ystyried deddfwriaeth newydd.

**Crynodeb**

3.38 Mae amcanion sefydliadol Gyrfa Cymru a'r cyfarwyddebau polisi cenedlaethol yn tynnu sylw at y rôl gynyddol bwysig o ran darparu gwasanaethau i'r rhai a all elwa fwyaf o CIAG, gyda dull cydlynol a strategol o ymgysylltu â chyflogwyr a darparwyr dysgu i feithrin marchnad lafur ac economi ffyniannus. Mae pwysau cynyddol i

[18] IPSOS Deialog ar Data

olrhain canlyniadau at ddibenion gwerthuso, ond mae cyfleoedd gwirioneddol i gyflawni hyn hefyd, yn enwedig i'r rhai sy'n troi at wasanaethau cyflogaeth drwy Cymru'n Gweithio.

3.39 Er bod Gyrfa Cymru yn gweithredu o fewn amgylchedd deddfwriaeth cymhleth, ac mae rhywfaint o ddeddfwriaeth yn cyfyngu ar botensial cysylltu data, mae potensial hefyd i ddefnyddio data gan AU, yr Adran Gwaith a Phensiynau ac ALlau i gefnogi'r gwaith o werthuso gwasanaethau a monitro canlyniadau sy'n berthnasol i amrywiaeth o gynlluniau a rhaglenni sy'n canolbwyntio ar gyflogadwyedd. Mae dichonoldeb gweithredu canolfan ddata o fewn y cyd-destun cyfreithiol hwn yn golygu y rhoddir cyfrifoldebau sylweddol ar Gyrfa Cymru i sicrhau bod y gofynion cyfreithiol sy'n gysylltiedig â sicrhau bod hysbysiadau preifatrwydd a chytundebau rhannu data yn briodol. Gall datblygu cytundebau, prosesau ac asesu risg gymryd amser y tu hwnt i bob rheswm i’w drafod. Felly, er bod llwybrau cyfreithiol at ddata amrywiol, bydd yr amser a'r capasiti sydd eu hangen i greu cytundebau ledled Cymru yn sylweddol.

# 4. Canfyddiadau: Data

4.1 Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o ddata Gyrfa Cymru a ffynonellau data allanol eraill sydd â'r potensial i gefnogi amcanion Gyrfa Cymru ac, felly, ddylanwadu ar amcanion polisi cysylltiedig.

**Data Gyrfa Cymru**

4.2 Mae data a gesglir gan Gyrfa Cymru, wrth ddarparu ei wasanaeth, yn darparu amrywiaeth eang o wybodaeth i'w defnyddio i wneud penderfyniadau gwybodus am anghenion a gofynion cwsmeriaid, cefnogi gwerthusiadau ac archwilio tueddiadau gwasanaethau. Mae tair ffynhonnell graidd o ddata mewnol: cofnodion gweinyddol cwsmeriaid, Arolwg Gwirio Gyrfa a'r Arolwg Cyrchfannau Disgyblion.

***Cofnodion Gweinyddol Cleientiaid.***

4.3 Mae cronfa ddata Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM) Gyrfa Cymru, Atlas, yn rhoi meddalwedd i'r sefydliad fewnbynnu a chadw gwybodaeth weinyddol, manylion rhyngweithiadau cwsmeriaid, a gwybodaeth a ddarperir gan bartneriaid (gweler Atodiad B am restr o eitemau data). Mae'r gronfa ddata weinyddol hon yn darparu'r ffynhonnell ddata gyfoethocaf o fewn y sefydliad, gan gasglu gwybodaeth am unigolion (fel dynodwyr personol a gwybodaeth gyswllt), lefel y gwasanaeth y bernir ei bod yn briodol/gofynnol (er enghraifft, cyfarwyddyd unigol neu ddarpariaeth gwybodaeth ddigidol) a manylion y rhyngweithio â chwsmeriaid (er enghraifft, cyswllt un i un, dros y ffôn, cymryd rhan mewn sesiwn gwaith grŵp). Yn yr un modd, mae'r data gweinyddol yn cofnodi gwybodaeth am bob rhyngweithiad y mae Gyrfa Cymru wedi'i gael gyda'i gleientiaid. Mae llawer o feysydd data sy'n gysylltiedig â darparu rhaglenni penodol, ac sy'n nodi rôl gynyddol Gyrfa Cymru yn gysylltiedig â chyflwyno Cymru'n Gweithio. Mae data'n cael ei gasglu ar gyfer pob cwsmer waeth beth fo'u hoedran ac, felly, nid yw pob maes yn berthnasol i bob grŵp o gleientiaid. O ganlyniad, mae strwythur cofnodion cleientiaid a gedwir gan Gyrfa Cymru yn gymhleth iawn.

4.4 Yn fras, o ran y mathau o ryngweithio sydd gan Gyrfa Cymru â'i gwsmeriaid, defnyddir Atlas i gofnodi gwybodaeth am y gweithgareddau canlynol:

- Un i un: cyfweliad lle cynhelir trafodaeth ddwyffordd rhwng cynghorydd a'r cwsmer. Gall rhieni neu warcheidwaid fod yn bresennol ar gyfer disgyblion oedran ysgol.

- Sesiwn grŵp: rhyngweithio lle mae mwy nag un cwsmer yn bresennol. Er y gellir cynnal trafodaeth ddwyffordd o hyd, yn nodweddiadol, mae'r rhain yn rhyngweithiadau o fath cyflwyniad yn amlach.

- Adolygiad Blynyddol/Pontio: yn achos cwsmeriaid sydd â Datganiad, sydd â chynllun Gweithredu gan yr Ysgol neu Weithredu gan yr Ysgol a Mwy, cynhelir Adolygiad Pontio neu Adolygiad Blynyddol bob blwyddyn, y gwahoddir Cynghorydd Gyrfaoedd y cwsmer iddo.

- Eiriolaeth/Cydgyswllt: mae'n cynrychioli gwaith a wneir ar ran y cwsmer ac nid yw'r cwsmer yn bresennol fel arfer (neu o leiaf, nid yw'n cymryd rhan weithredol). Gall hyn gynnwys cysylltu â darparwyr neu golegau Dysgu Seiliedig ar Waith ar ran y cwsmer, ymchwilio i gyfleoedd gwaith neu ysgrifennu llythyrau cefnogi ac ati.

- Ebost i/gan y cwsmer: ebost a gynhyrchir o'r CRM i'r cwsmer, neu ateb gan y cwsmer (sy'n cael ei fewnforio'n awtomatig i hanes CRM)

- Neges destun i/gan y cwsmer: neges destun a gynhyrchir o'r CRM i'r cwsmer, neu ateb gan y cwsmer (sy'n cael ei fewnforio'n awtomatig i hanes CRM)

4.5 Hefyd, cofnodir gwybodaeth am natur y gwasanaeth a gyflwynwyd, gan wahaniaethu'n bennaf rhwng Gwybodaeth, Cyngor a Chyfarwyddyd. O Flwyddyn 9 ymlaen, mae Cynghorwyr Gyrfaoedd mewn ysgolion, gyda chefnogaeth ymatebion i Gwirio Gyrfa, yn dechrau blaenoriaethu'r cwsmeriaid yn y grŵp blwyddyn ar sail eu gofynion tebygol am wasanaeth. Cofnodir y gofynion hyn yn y cofnodion gweinyddol a gellir eu hadolygu a'u diwygio os bydd angen. Felly, mae'n bosibl y bydd gofynion lluosog wedi'u cofnodi ar gyfer pob cwsmer sawl gwaith.

4.6 Cofnodir hefyd y mathau o gyfrif (ysgol, cyflogwr, ALI ac ati), mathau o ddarparwr, gweithgareddau a digwyddiadau yn gysylltiedig â chyflogwr a data sy'n benodol i brosiect (e.e. ReAct, Activate, CfW). Hefyd, mae Atlas yn cynnwys asesiadau sy'n mesur y pellter tebygol o'r farchnad lafur, ar gyfer cwsmeriaid ifanc ac oedolion, gan nodi a oes angen lefel isel, cymedrol neu uchel o gefnogaeth. Mae'r asesiadau hyn hefyd yn ystyried sgiliau a phriodoleddau mwy meddal fel cymhelliant. Mae'r Cynghorydd Gyrfaoedd yn canfod gwybodaeth i gwblhau'r asesiadau trwy ryngweithiadau â chyfarwyddyd.

4.7 Mae'r data gweinyddol ar gwsmeriaid yn caniatáu am ddadansoddi yn ôl sawl nodwedd ddemograffig, sef: rhywedd, oedran, ethnigrwydd, AAA/ADY, statws anabledd a lefel cymwysterau. Fodd bynnag, dim ond os ydynt wedi'u darparu gan sefydliadau eraill, megis ysgolion, y gallai rhai o'r meysydd hyn, megis ethnigrwydd ac AAA, gael eu cadw o fewn y CRM, ac ni fyddant oll wedi'u llenwi. Ceir hefyd asesiadau o 'bellter a deithiwyd' sy'n defnyddio arolygon cwsmeriaid.

***Arolwg Gwirio Gyrfa***

4.8 Yr ail ffynhonnell ddata fewnol bwysig yw'r Arolwg Gwirio Gyrfa, adnodd diagnostig a ddefnyddir i helpu Cynghorwyr Gyrfaoedd i benderfynu pwy sydd â'r angen mwyaf am gymorth a beth sydd ei angen. Fe'i cwblheir fel arfer yng Nghyfnod Allweddol 4 (Blwyddyn 10 ac 11) a bydd yn cynnwys gwybodaeth werthfawr am wybodaeth gyswllt a demograffeg disgyblion; y sefyllfa bresennol (o ran addysg a math o sefydliad, neu statws cyflogaeth); galluoedd disgyblion i wneud penderfyniadau a'u cynlluniau gyrfa, eu dyheadau a'u nodau; a rhwystrau a systemau cymorth. (Gweler Atodiad C, Cwestiynau'r Arolwg Gwirio Gyrfa). Gellir cysylltu'r ymatebion i'r arolwg â chofnodion unigol yn y CRM.

4.9 Fel arolwg annibynnol, mae Gwirio Gyrfa yn darparu dull i gwnselwyr cyfarwyddyd broffilio disgyblion ac yna cofnodi'r lefel o wasanaeth neu ryngweithio argymelledig y bernir bod ei hangen ar ddisgyblion yng nghronfa ddata'r CRM. Drwy gysylltu â ffynonellau data eraill, gall gwireddu dyheadau ac effeithiolrwydd ymyriadau gael eu hasesu yn ôl amrywiaeth o wahanol nodweddion a galluogi i lwybrau a chanlyniadau addysgol gael eu monitro yn dilyn darparu gwasanaethau.

***Arolwg Cyrchfannau***

4.10 Yn ogystal ag ymgymryd â'r Arolwg Gwirio Gyrfa, mae Gyrfa Cymru yn gyfrifol am gyflwyno'r Arolwg Blynyddol o Gyrchfannau Ymadawyr Ysgol. Mae hwn yn holi disgyblion sydd wedi cyrraedd oedran gadael statudol (Blwyddyn 11), a disgyblion sy'n gadael 6ed dosbarth ysgol ym Mlynyddoedd 12 a 13. Fe'i cynhelir yn flynyddol yn y mis Hydref sy'n dilyn diwedd y flwyddyn academaidd flaenorol. Mae'r arolwg yn nodi a yw unigolion yn parhau mewn addysg (boed ar sail amser llawn neu ran-amser), yn ymgymryd â dysgu seiliedig ar waith, mewn cyflogaeth, neu ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Mae darparu data personol gan ysgolion a Llywodraeth Cymru (yn enwedig data CYBLD ôl-16 a Chofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) yn arbennig o bwysig ar gyfer olrhain

disgyblion ac maent yn allweddol i gyflwyno'r arolwg hwn. Mae adroddiadau'r Arolwg Blynyddol o Gyrchfannau Ymadawyr Ysgol yn cael eu cynhyrchu ar gyfer pob grŵp blwyddyn a holir. Mae'r rhain yn adrodd ar ganran y garfan a barhaodd i ddysgu mewn addysg amser llawn, addysg ran-amser (16 awr neu lai yr wythnos), hyfforddiant seiliedig ar waith, cyflogaeth neu NEET, yn ogystal â dosbarthu hyn yn ôl rhywedd ac ethnigrwydd. Cesglir gwybodaeth yr arolwg hwn ar gyfer adroddiadau ystadegol ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'r wybodaeth yn gysylltiedig â chofnodion CRM presennol ond ni ellir ei defnyddio i greu rhai newydd.

***Gwybodaeth am Swyddi a'r Farchnad Lafur***

4.11 Mae data sy'n gysylltiedig â swyddi, sgiliau a gwybodaeth am y farchnad lafur (LMI) yn gynyddol bwysig yng ngweithgarwch Gyrfa Cymru, gyda mwy o ffocws ar baru sgiliau, marchnadoedd swyddi lleol neu ranbarthol ac ymgysylltu â chyflogwyr. Mae'r adnoddau sydd newydd eu datblygu neu eu gwella sydd ar gael ar wefan Gyrfa Cymru yn cynnwys:

- gwybodaeth i gwsmeriaid am swyddi er mwyn galluogi materion ymarferol, fel y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer rôl benodol neu gyflog cyfartalog,
- datblygiad gwybodaeth cyflogwyr am swyddi sydd ar gael ar hyn o bryd,
- ac ystorfa gyflawn o'r cyrsiau sydd ar gael.

Nod ehangu gwasanaethau digidol yw gwella mynediad at wybodaeth a chyfleoedd mewn meysydd economaidd blaenoriaethol

4.12 Mae manteision LMI yn cynnwys mwy o wybodaeth gynnil i arwain sgyrsiau a chymorth gyda chwsmeriaid, nid yn unig o fewn Gyrfa Cymru ond i weithwyr awdurdodau lleol fel mentoriaid cyflogadwyedd. Gall y data hwn hefyd lywio'r gwaith cynllunio strategol a gwneud penderfyniadau o fewn y 6ed dosbarth ac AB ar y ddarpariaeth y maent yn ei chynnig. Gellid cyfuno'r data hwn â gwybodaeth o arolwg Gwirio Gyrfa am ddyheadau a diddordebau gyrfaol er mwyn ehangu gwybodaeth cyflogwyr am y cyflenwad sgiliau lleol.

4.13 Mewn cyfweliadau a gynhaliwyd yn rhan o'r ymchwil hon, ystyriwyd bod potensial gan adroddiadau manylach ar LMI yr ardal leol i wella dewisiadau addysgol a chanlyniadau cyflogaeth, gan y gallai canllawiau realistig sy'n seiliedig ar anghenion cyflogaeth presennol ac yn y dyfodol wella rhagolygon cyflogaeth. Hefyd, gall helpu ymadawyr ysgol â'u penderfyniadau. Er enghraifft, efallai gall y

rhai sydd â diddordeb eang mewn peirianneg fireinio eu dewisiadau trwy wybod pa gwmnïau peirianneg sydd wedi'u lleoli yn y rhanbarth a pha rolau sydd ar gael. Yn ogystal, ystyriwyd bod gwybodaeth gyfredol yn bwysig ar gyfer darparu cymorth cyflogadwyedd gan ALlau.

4.14 Er mwyn manteisio i'r eithaf ar y potensial i gysylltu cofnodion cleientiaid â ffynonellau LMI, efallai y bydd Gyrfa Cymru am adolygu sut y mae'n categoreiddio swyddi a chyfleoedd yn ôl sectorau diwydiannol a galwedigaethol. Ar hyn o bryd, mae'r potensial am ddadansoddi cymharol â ffynonellau eraill yn gyfyngedig, felly hefyd y potensial i asesu dyheadau a chanlyniadau sy'n cyfateb yn gadarn oherwydd amrywiaeth yn nosbarthiad galwedigaethau neu ddiwydiannau mewn gwahanol ffynonellau data. Er enghraifft, pe bai codau SIC[19] a chodau SOC[20] yn cael eu defnyddio yn yr Arolwg Gwirio Gyrfa, byddai gweithgareddau meincnodi a pharu cwsmeriaid â chyfleoedd cyflogaeth yn bosibl gan fod codau SIC a SOC yn darparu'r sail ar gyfer cyflwyno llawer o ystadegau'r farchnad lafur (e.e. cyflogaeth, oriau, enillion). Yn ogystal, mae Canolfan Byd Gwaith yn defnyddio codau SOC i ddosbarthu swyddi gwag. Mae potensial hefyd am wneud cysylltiadau uniongyrchol rhwng dewisiadau galwedigaethol cleientiaid Gyrfa Cymru a chyfleoedd hyfforddi os gellir sefydlu tablau chwilio wedi hynny rhwng SOC a'r dosbarthiadau a ddefnyddir yng nghronfeydd data cyfleoedd hyfforddi (e.e. fel System Ddosbarthu LearnDirect).

## Ffynonellau Data Allanol

4.15 Mae'r adran hon yn trafod ffynonellau data gweinyddol a allai gefnogi gwasanaethau cyhoeddus sy'n gysylltiedig â chymorth addysg a chyflogadwyedd ac mae'n awgrymu y gall nifer o setiau data presennol wella'r gwasanaethau a ddarperir a monitro polisi, o fewn Gyrfa Cymru ac yn allanol iddi. Yn gyntaf, archwilir cynnwys, defnyddioldeb a dichonoldeb cysylltu â setiau data addysg, yna data sy'n gysylltiedig â chyflogaeth, a gwybodaeth a gasglwyd wrth ddarparu gwasanaethau a rhaglenni ALl.

### *Data Addysg*

4.16 Mae'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), a CYBLD Ôl-16; Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR); Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS);

---

[19] Codau SIC y Swyddfa Ystadegau Gwladol
[20] Codau SOC y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Cronfa Ddata Arholiadau Cymru (WED); Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau (UCAS) ac Awdurdod Ystadegau Addysg Uwch (HESA); a data HWB yn ffynonellau gwybodaeth ychwanegol posibl.

4.17 Mae'n bwysig nodi bod pandemig COVID-19 wedi effeithio ar gasglu data gan Lywodraeth Cymru, gyda rhai casgliadau wedi'u canslo yn 2020 (er enghraifft, data asesu athrawon o fewn yr NDC) ond bydd llawer o'r rhain yn cael eu hadfer yn y dyfodol a dim ond oedi fydd i rai ohonynt.

4.18 Mae data Llywodraeth Cymru ar ddisgyblion, y mae'n ofynnol i ysgolion ei gofnodi yn y CYBLD, a chasgliadau CYBLD Ôl-16, yn cynnwys gwybodaeth am ddisgyblion mewn ysgolion a gynhelir o'r feithrinfa i Flwyddyn 13[21]. Byddai'r eitemau allweddol o ddiddordeb a fydd yn cefnogi gweithgareddau Gyrfa Cymru yn cynnwys:

- Dynodwyr personol i ymgymryd â chysylltu (sef, enw cyntaf a chyfenw, dyddiad geni, rhywedd a chyfeiriad)
- Yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim
- Darpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) (Dim angen addysgol arbennig, Gweithredu gan yr Ysgol neu Weithredu yn y Blynyddoedd Cynnar, Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu Weithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy a Datganiad)
- Angen Arbennig (16 dosbarthiad)
- Cymorth AAA (y cwricwlwm, cymorth yn y dosbarth, adnoddau arbenigol, asesu)
- Statws Plentyn sy'n Derbyn Gofal
- Presenoldeb
- Gwaharddiadau
- Asesiadau athrawon yn y Cyfnod Sylfaen ac o Gyfnod Allweddol 2 i 4.
- Dysgwr ag Anawsterau neu Anableddau Dysgu (Ôl-16)
- Rhaglen/pwnc dysgu (Ôl-16)

[21] I gael manylion penodol am gynnwys CYBLD gweler nodiadau Cwblhau Technegol CYBLD

4.19 O fewn cyfweliadau, roedd gwerth data disgyblion ysgol yn cael ei gydnabod yn sylweddol. Er mai CYBLD yw'r enw a roddir arno yn aml, mae'r derminoleg hon ond yn cyfeirio at y casgliad data cyfan a anfonir at Lywodraeth Cymru. Gan fod ysgolion yn darparu detholiad cyfyngedig o'r data hwn ac, yn wir, dim ond ychydig o eitemau data, i Gyrfa Cymru, a hynny ar wahân i'w cyflwyniad CYBLD, byddwn felly'n cyfeirio at y data a ddefnyddir gan ddata Gyrfa Cymru fel data disgyblion ysgol o hyn ymlaen.

4.20 Mae Gyrfa Cymru yn gofyn i ysgolion lanlwytho data disgyblion trwy ddulliau diogel ar y we. Mae'n gofyn am rif unigryw'r disgybl (RhUD), grŵp blwyddyn academaidd y disgybl, enwau, dyddiad geni, rhywedd, cyfeiriad, ethnigrwydd, iaith y cartref, statws AAA, a yw'r disgybl dan ofal yr AALl, ac a yw'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim. Nodir nad oes gan Gyrfa Cymru yr hawl i gael mynediad at unrhyw ddata cyn Blwyddyn 9 ac, felly, ni all ofyn am wybodaeth am gyrhaeddiad yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2. Mae diffyg data sy'n ymwneud ag absenoldeb, rhagfynegydd pwysig canlyniadau Cyfnod Allweddol 4 a chyrchfannau, yn bwysig yn hyn o beth hefyd. Byddai'n bosibl i Gyrfa Cymru ofyn i ysgolion am y data hwn. Ar hyn o bryd, gall ysgolion dynnu sylw Cynghorwyr Gyrfaoedd at ddisgyblion sydd â lefelau uchel o absenoldeb ond nid yw'r data hwn yn cael ei rannu fel mater o drefn.

4.21 Ni fydd nifer fach o ysgolion yn lanlwytho eu data i Gyrfa Cymru, yn hytrach maent yn darparu mynediad ar y safle i gynghorwyr ddefnyddio systemau SIMS. Gall cynghorwyr weld y data cyn iddynt weld yr unigolyn ond gan nad yw'r data'n cael ei ddarparu i Gyrfa Cymru, mae'n effeithio ar flaengynllunio. Wrth gynllunio adnoddau ac amserlennu, bydd Gyrfa Cymru yn asesu pobl ifanc mewn gwahanol gategorïau o fewn ysgol (boed dan arweiniad Gwirio Gyrfa, data'r ysgol neu wrth drafod cynllunio gyda staff yr ysgol) er mwyn caniatáu amser ychwanegol i bobl ifanc y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt. Mae'r tasgau cynllunio hyn yn cael eu gwneud yn anos o safbwynt dyrannu adnoddau'n briodol. At hynny, os nad yw'r data yn system Gyrfa Cymru pan fydd pobl ifanc yn symud ymlaen o'r ysgol, mae hyn yn llesteirio ei allu i ddarparu cymorth yn y dyfodol neu werthuso gwasanaethau'n gadarn oherwydd diffyg gwybodaeth. At hynny, nid yw rhai ysgolion sy'n lanlwytho data i Gyrfa Cymru yn darparu'r holl wybodaeth y gofynnir amdani. Mae gwybodaeth goll am ddisgyblion yn lleihau gallu Gyrfa Cymru i

sicrhau'r effeithlonrwydd mwyaf posibl wrth ddyrannu adnoddau, targedu darpariaeth a chynnal dadansoddiad segmentu.

***Cronfa Ddata Arholiadau Cymru (WED)***

4.22 Mae Cronfa Ddata Arholiadau Cymru (WED) yn cynnwys gwybodaeth am ganlyniadau arholiadau myfyrwyr sydd wedi dilyn cymwysterau a gymeradwyir gan Lywodraeth Cymru.  Caiff y data ei gasglu oddi wrth amrywiaeth o gyrff dyfarnu ac mae'n sail i gyhoeddiad blynyddol Llywodraeth Cymru ar Ganlyniadau Arholiadau. Mae'r set ddata yn gymhleth ac yn cynnwys manylion unrhyw arholiadau a safwyd, gan gynnwys cofnodion sy'n ymwneud â'r rhai sydd wedi sefyll arholiadau'n gynnar a chanlyniadau unrhyw ailsefyll. Mae'r gronfa ddata yn cadw gwybodaeth ar wahanol lefelau o fanylder.  Mae'r tablau mwyaf manwl yn cynnwys data ar lefel arholiadau, gan gofnodi manylion cymwysterau unigol. Mae tablau eraill yn darparu crynodebau amrywiol ar lefel disgyblion o'r data hwn, megis mesurau sy'n deillio o ddeilliannau Cyfnod Allweddol 4 (e.e. Sgoriau Pwyntiau wedi'u Capio) neu'r sgoriau pwyntiau ehangach a ddyrennir i ddisgyblion yng Nghyfnod Allweddol 5. Felly, mae'r WED yn hanfodol o ran deall canlyniadau disgyblion ar ôl cwblhau addysg orfodol, gan gynnwys pontio i addysg ôl-orfodol, cofrestru ar raglenni dysgu seiliedig ar waith neu ymuno â'r farchnad lafur a'r risg o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Yn anffodus, roedd yn anodd asesu potensial Llywodraeth Cymru i rannu data WED, er enghraifft ar gyrhaeddiad L2 mewn Cymraeg neu Saesneg a Mathemateg (neu beidio), oherwydd bod diffyg gwybodaeth ar gael.

***Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR)***

4.23 Mae LLWR yn cynnwys cofnodion ar gyfer unigolion sydd wedi'u cofrestru ar weithgarwch dysgu mewn colegau AB yng Nghymru. O 2021/22 ymlaen, bydd LLWR hefyd yn cynnwys gwybodaeth am gyflogwyr[22]. Mae'r LLWR yn cynnwys 8 set ddata wahanol a all ddarparu:

- Dynodwyr personol i ymgymryd â chysylltu
- Rhaglen/pwnc dysgu
- Gweithgareddau dysgu (gweithgareddau unigol neu gyrsiau y mae'r dysgwr yn ymgymryd â nhw yn gysylltiedig â'r rhaglen)

[22] Mae manylion llawn cynnwys data LLWR

- Dyfarniadau/cymwysterau
- Set ddata cyflogwyr, sy'n cofnodi gwybodaeth am gyflogwr y dysgwr
- Cyfnod Cyflogaeth (sy’n orfodol i ddysgwyr ar brentisiaeth ac fe’i gorfodir ar gyfer rhaglenni sy'n dechrau o 01 Awst 2021 ymlaen)
- Set ddata Atal dros dro (sy'n gysylltiedig ag atal rhaglen brentisiaeth dros dro).

4.24 Mae'r data a gesglir yn cynnwys cyrsiau a gwybodaeth am barhad cyrsiau/gadael cwrs a chwblhau. Ar hyn o bryd, mae Gyrfa Cymru yn cael gwybodaeth am y rhai sy'n gadael darpariaeth AB yn fisol. Mae hyn yn helpu i nodi unigolion sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, y gallai fod angen cymorth arnynt. Mae LLWR yn cael ei ddarparu i Gyrfa Cymru er mwyn nodi pa unigolion o fewn data Gyrfa Cymru sydd wedi symud ymlaen i AB. Fodd bynnag, ni ddylid defnyddio'r data i nodi unigolion y tu hwnt i'r rhai sydd yng nghronfa ddata CRM Gyrfa Cymru, fel y nodir yn hysbysiad preifatrwydd LLWR:

> '[Bydd y data'n cael ei ddefnyddio] gan Gyrfa Cymru i gyflawni ei amcan sef darparu cymorth i grwpiau penodol o unigolion sydd mewn perygl mawr o ymddieithrio rhag addysg, cyflogaeth a hyfforddiant. Er mwyn cyflawni hyn, defnyddir data LLWR i gyd-fynd â chofnodion gweithredol presennol Gyrfa Cymru ar gyfer cwsmeriaid. Mae hyn yn golygu y bydd rhywfaint o'r wybodaeth nad yw'n bersonol a ddarperir i Gyrfa Cymru ar gael i Gyrfa Cymru o ddydd i ddydd. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth am y cwrs, dyddiad dechrau ac ati. Mae manylion am sut y bydd Gyrfa Cymru yn defnyddio'ch gwybodaeth i'w gweld yn ei hysbysiad preifatrwydd.'[23]

4.25 Mae hyn yn golygu mai prin yw'r defnydd o ffynhonnell ddata bwysig a allai helpu i nodi'r rhai nad oes ganddynt gofnodion o fewn data CRM Gyrfa Cymru. Gallai unigolion y mae hyn yn berthnasol iddo gynnwys dysgwyr a gafodd eu haddysgu gartref, neu yn Lloegr, hyd at Gyfnod Allweddol 4 ond sy'n ymgymryd â dysgu pellach yng Nghymru, neu'r rhai nad yw eu cofnodion yn cael eu rhannu gan ysgolion, neu ddysgwyr sy'n oedolion nad ydynt wedi cael unrhyw gysylltiad blaenorol â Gyrfa Cymru. Mae rhannu data personol i nodi'r rhai y tu hwnt i

[23] Hysbysiad Preifatrwydd LLWR

boblogaeth y CRM yn bwysig gan y gallent elwa o wasanaethau, yn enwedig i'r rhai sy'n rhoi’r gorau i gyrsiau neu nad ydynt yn eu cwblhau’n llwyddiannus.

***Data Hwb***

4.26 Ers 2012, mae pob ysgol a gynhelir yng Nghymru wedi cael mynediad rhad ac am ddim i Blatfform Dysgu Hwb, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, sef sianel ddigidol strategol ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm yng Nghymru. Mae cofnodion ar Hwb a gesglir gan Lywodraeth Cymru yn dangos pa mor aml mae disgyblion ac athrawon yn mewngofnodi iddo. Mae'n darparu ystadegau misol ar ddefnydd ar draws y system, fesul ysgol ar gyfer nifer y cyfrifon (staff a disgyblion) a sawl tro y mewngofnodir i’r system (staff a disgyblion). Gellir defnyddio hwn i edrych ar ymgysylltu digidol ar gyfer gweithgareddau addysgu a dysgu yn ôl y math o ysgol, daearyddiaeth ac anghydraddoldebau sylfaenol eraill, ac ystyried amrywiadau neu anghydraddoldebau o ran defnydd.

4.27 Ymddengys nad oes llawer o botensial i'r data hwn fod o fudd i weithrediadau Gyrfa Cymru. Mae llawer o blatfformau digidol eraill ar gael i ysgolion a gall ysgolion ddewis defnyddio'r gwasanaethau eraill hyn a pheidio ag ymgysylltu â Hwb. Dengys dadansoddiad[24] diweddar fod tua 10% o ddisgyblion a thua 25% o'r staff wedi mewngofnodi i Hwb ym mis Medi 2019, er bod nifer y disgyblion a wnaeth fewngofnodi wedi cynyddu’n sylweddol i fwy na 45% o ddisgyblion ar ddechrau cau ysgolion oherwydd y pandemig. Mae'r ymchwil yn dangos amrywiaeth yn y defnydd yn ôl y sector ysgolion, gan ddangos bod llawer mwy o ymgysylltu gan staff a disgyblion mewn ysgolion cynradd ac ysgolion sydd â chyfran is na'r cyfartaledd o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim. Oherwydd natur gyfyngedig y data sydd ar gael, a lefelau isel o ymgysylltu gan ddisgyblion ysgolion uwchradd, bernir bod data Hwb yn llai perthnasol i anghenion data strategol Gyrfa Cymru.

***Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS)***

4.28 Mae darpariaeth Gyrfa Cymru yn ymwneud nid yn unig â disgyblion mewn ysgolion prif ffrwd ac arbennig, ond hefyd ddisgyblion sy'n cael eu Haddysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS), er enghraifft mewn unedau cyfeirio disgyblion (UCDau). Mae ALlau yn casglu'r wybodaeth hon a gallant rannu'r eitemau data yn unol ag ysgolion. Daw UCDau o dan y Ddeddf Addysg, ond mae llai o eglurder yn

[24] O gyflwyniad seminar WISERD

y ddeddfwriaeth ynghylch darpariaeth arall. Y tu hwnt i unedau UCD, byddai data Addysg Heblaw yn yr Ysgol yn caniatáu i Gyrfa Cymru ddeall eu darpariaeth i ddisgyblion EOTAS ac ystyried llwybrau yn well. Mae angen ymchwilio ymhellach i'r potensial i ALlau ddarparu'r data hwn. Darparwyd data EOTAS i gronfa ddata SAIL gan Lywodraeth Cymru, felly mae potensial i archwilio ymhellach y rhyngweithio rhwng disgyblion EOTAS a Gyrfa Cymru a chanlyniadau gan ddefnyddio data gydag elfennau adnabod wedi’u dileu.

***UCAS a HESA***

4.29 Er mwyn bodloni asesiad o wasanaethau Gyrfa Cymru, mae'n bwysig deall ymgysylltiad addysgol a chanlyniadau i gwsmeriaid. Mae dwy set ddata, UCAS a HESA, yn darparu ffynonellau gwybodaeth defnyddiol posibl a all alluogi olrhain canlyniadau cwsmeriaid.

4.30 Mae UCAS yn casglu ac yn prosesu data sy'n gysylltiedig â phob cais israddedig amser llawn i Sefydliadau Addysg Uwch (SAU) yn y DU. Mae data cyhoeddedig UCAS yn cynnwys ffigurau ymgeisio a derbyn yn ôl gwlad, rhanbarth ac etholaeth, yn ogystal â chyfraddau mynediad a chynnig ar gyfer prifysgolion unigol yn ôl rhywedd, oedran a chefndir ymgeiswyr. Yn benodol, mae set ddata UCAS yn cynnwys gwybodaeth am ymgeiswyr, cynigion yn gysylltiedig â’u ceisiadau, derbyniadau a gwrthodiadau i gyrsiau. Mae enghreifftiau o rai o'r newidynnau sydd wedi’u cynnwys yn nata UCAS a allai fod yn ddefnyddiol i’w cysylltu â data Gyrfa Cymru yn cynnwys oedran, math blaenorol o ysgol, derbyniadau trwy glirio, pwnc, sgorau Safon Uwch a ragwelir, statws dyddiad cau, casgliad am ymateb SAU, gwlad breswyl (y DU yn unig), ethnigrwydd, rhywedd a statws economaidd-gymdeithasol.

4.31 Mae gan HESA amrywiaeth eang o wybodaeth am AU yn y DU, yn cwmpasu myfyrwyr yn y brifysgol a'u cyrchfannau ar ôl iddynt adael, staff prifysgol, cyllid a rheoli ystadau. Mae set ddata HESA yn cynnwys gwybodaeth fanwl am fyfyrwyr unigol ar raglenni astudio y mae lefel eu cyfarwyddyd yn uwch na lefel 3 y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol. Mae gan set ddata myfyrwyr HESA gwmpas cyffredinol ac, yn nodweddiadol, mae'n cynnwys dros ddwy filiwn a chwarter o gofnodion bob blwyddyn ar gyfer y DU.

4.32 Mae'r set ddata yn cynnwys gwybodaeth am gyfeiriad cartref y myfyriwr, ei ddyddiad geni, ei ethnigrwydd, ei gymwysterau cyn dechrau'r cwrs, y cwrs a

astudir a phrif ffynhonnell gyllid y myfyriwr. Mae data'r HESA yn cynnwys gwybodaeth sy'n caniatáu am asesu ymyriadau (h.y. disgyblion sy'n mynd i'r brifysgol ai peidio), y cyrsiau sy'n cael eu hastudio, cwblhau cyrsiau'n llwyddiannus, a chyrchfannau'r rhai sy'n gadael y brifysgol.

4.33 Mae set ddata myfyrwyr HESA yn brif ffynhonnell ddata a ddefnyddir i archwilio newidiadau a thueddiadau ymhlith myfyrwyr sy'n dechrau AU ac sydd mewn AU. Hefyd, bu'n bosibl i Lywodraeth Cymru ddefnyddio'r set ddata i ddadansoddi cyfrannau'r bobl ifanc nad ydynt yn mynd i AU a defnyddio hyn fel dangosydd amddifadedd ym mynegai amddifadedd lluosog Cymru.

4.34 Gall data HESA helpu i asesu effeithiolrwydd CIAG gan ei fod yn dangos presenoldeb myfyrwyr mewn SAU (yn hytrach na bwriad i fynd i AU, fel y mae data UCAS yn ei ddarparu). Yn ogystal â chodi dyheadau myfyrwyr i wneud cais am SAUau blaenllaw, mae llawer o'r gweithgareddau a ddarperir gan Gyrfa Cymru yn canolbwyntio hefyd ar ddatblygu sgiliau i wella llwyddiant y ceisiadau hyn, megis paratoi ar gyfer cyfweliadau mynediad.

4.35 Gallai Gyrfa Cymru neu sefydliadau partner ddefnyddio'r ffynonellau hyn hefyd i fesur achosion dilyniant disgyblion wrth fynychu'r brifysgol/rhoi'r gorau i'r brifysgol, gan felly hwyluso archwiliad p'un a yw cymorth Gyrfa Cymru yn cyfrannu at ddilyniant i AU ac ynddi. Hefyd, gellid eu defnyddio i ystyried cyflenwad gweithwyr ar gyfer gwahanol farchnadoedd swyddi neu sgiliau a sectorau diwydiannol yn y dyfodol, yn gysylltiedig ag amcanion strategol Gyrfa Cymru sy'n ystyried Gwybodaeth am Farchnadoedd Llafur.

4.36 Defnyddiwyd data UCAS i helpu ateb amrywiaeth o gwestiynau ymchwil ynghylch ceisiadau a derbyniadau a gwrthodiadau i gyrsiau Addysg Uwch yn y DU. Hefyd, gellir defnyddio'r wybodaeth ddemograffig a gynhwysir yn nata UCAS i fonitro cyfraddau derbyn lleoedd Addysg Uwch ar gyfer dilyn gwahanol feysydd pwnc (sy'n bwysig wrth asesu'r cyflenwad sgiliau yn y dyfodol) ac ar gyfer gwahanol grwpiau economaidd-gymdeithasol. Er bod data NDC yn dal gwybodaeth bwysig am gyrhaeddiad disgyblion Blwyddyn 11 mewn TGAU, sef y man cychwyn hollbwysig ar gyfer archwilio taith dysgwyr drwy lwybr Addysg Uwch, mae gwybodaeth am statws economaidd-gymdeithasol yn gyfyngedig. Felly, byddai ymgorffori data UCAS yn hwyluso dadansoddiad mwy trylwyr o effeithiau ffactorau economaidd-gymdeithasol ar ddewisiadau Addysg Uwch dysgwyr na data disgyblion ysgol yn unig.

### *Data Cyfranogwyr Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF)*

4.37 Mae Data Cyfranogwyr ESF yn cynnwys gwybodaeth am unigolion sy'n ymgymryd â dysgu seiliedig ar waith neu sy'n manteisio ar gymorth, fel y'i hariennir gan yr Undeb Ewropeaidd. Gallai'r data hwn fod yn ddefnyddiol i nodi disgyblion sydd wedi mynd ymlaen i ymgymryd â dysgu seiliedig ar waith, neu'r oedolion hynny sy'n ailhyfforddi, a'u canlyniadau. Gall data cyfranogwyr ESF gefnogi'r gwasanaethau a ddarperir i oedolion mewn tair ffordd. Yn gyntaf, gall cymryd rhan mewn cyrsiau daflu goleuni ar ganlyniadau cyfarwyddyd Gyrfa Cymru a gwahanol raglenni. Yn ail, gall helpu Gyrfa Cymru i asesu’r cyrsiau sy’n well gan grwpiau o gwsmeriaid i helpu i ystyried nodweddion a gwybodaeth am y farchnad lafur wrth ddarparu cyfarwyddyd a chyngor. Yn olaf, gallai helpu i nodi unigolion sy'n rhoi'r gorau i gyrsiau ac nad ydynt yn eu cwblhau.

4.38 Ymhlith yr eitemau o fewn data ESF a fyddai'n galluogi archwiliadau o'r fath y mae statws cyflogaeth (di-waith, tymor byr; di-waith tymor hir; segur (mewn addysg neu hyfforddiant); segur (ddim mewn addysg na hyfforddiant); cyflogedig (gan gynnwys hunangyflogedig), a gwybodaeth am y cwrs. Fodd bynnag, gan na rhaglen yr ESF yn darparu cyllid mwyach ar ôl mis Rhagfyr 2023 (bydd prosiectau'n dechrau cau ym mis Mehefin 2023), mae potensial data ESF i gefnogi gweithgareddau Gyrfa Cymru yn debygol o fod o werth cyfyngedig, heblaw am ddarparu gwybodaeth am bwy sydd wedi bod drwy’r rhaglenni amrywiol hyn.

### *Data Awdurdodau Lleol*

4.39 Mae sawl maes y gallai data a gedwir gan Awdurdodau Lleol ar eu cyfer fod yn ddefnyddiol ar gyfer llywio a gwerthuso gweithgarwch Gyrfa Cymru. Mae data ALlau eisoes yn llifo i Gyrfa Cymru, yn ymwneud yn bennaf â model Haenau’r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid. Mae ALlau yn darparu diweddariadau misol i Gyrfa Cymru gyda dynodwyr personol i nodi'r rhai sydd wedi symud allan o Haenau 1 neu 2.

4.40 Fel y trafodwyd yn Adran 3, mae cynghorwyr Cymru'n Gweithio yn atgyfeirio i gynlluniau fel CfW+ ac yn cefnogi ceisiadau am grantiau Hyfforddiant Galwedigaethol ReAct. Er y bydd Gyrfa Cymru yn datblygu cipolygon gwerthfawr i anghenion cwsmeriaid sy'n defnyddio gwahanol gynlluniau, mae'n bwysig bod modd olrhain yr atgyfeiriadau a wneir er mwyn ystyried canlyniadau – eto i edrych ar effeithiolrwydd cyngor a meysydd posibl i wella’r gwasanaeth. Mae data a

gesglir yn CfW a PaCE yn cynnwys statws gweithio, ethnigrwydd ac iechyd a'i nod yw olrhain canlyniadau, gan gynnwys hyfforddiant a wneir, datblygiad sgiliau, chwilio am swyddi a chyflogaeth. Fodd bynnag, WEFO yw'r rheolydd data ac, felly, mae cyfyngiadau ar yr hyn y gall ALlau ei wneud gyda'r data y tu hwnt i adrodd ar raglenni. Yn wir, dim ond gwybodaeth gyfanredol am ganlyniadau sydd ar gael i ALlau. Er bod hon yn cynnwys demograffeg a chanlyniadau o ran swyddi, nid yw'n cynnig y potensial i gysylltu'n ôl â data Gyrfa Cymru. Mae CfW+, sy’n gynllun a ariennir gan Lywodraeth Cymru, yn rhoi gwell cyfle, yn enwedig o ystyried bod angen i Gyrfa Cymru gynnal asesiad cychwynnol.

4.41 Trafodwyd rhwystrau rhag gweithgarwch ALlau mewn cyfweliadau a daeth tair thema allweddol i'r amlwg: heriau o ran nodi unigolion cymwys; gwybodaeth am y farchnad lafur ar gyfer ardaloedd bach; a gwybodaeth hanesyddol am gwsmeriaid. Soniwyd bod cael diweddariadau rheolaidd am bobl sy’n hawlio’r Credyd Cynhwysol yn eu hardal i gefnogi gweithgareddau yn rhwystredigaeth, ac yn yr un modd diffyg gwybodaeth gynhwysfawr am gyfleoedd gwaith yn yr ardal leol a gwybodaeth arall am y farchnad lafur. Ystyriwyd bod y ddwy agwedd hyn ar ddata yn angenrheidiol i hysbysu swyddogion cymorth cymunedol lleol am bobl sy'n gymwys ar gyfer cynlluniau a, hefyd, i ddarparu cyfleoedd mwy hygyrch. Beirniadwyd y wybodaeth gyfredol am farchnadoedd swyddi, a ddarperir yn bennaf gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, am ganolbwyntio ar gyflogwyr mawr nad oeddent yn aml wedi'u lleoli'n agos at gwsmeriaid. O ran gwybodaeth hanesyddol, roedd galw clir am rannu gwybodaeth yn fwy. Gallai hyn gynnwys cymwysterau, ymyriadau blaenorol ond, yn enwedig, unrhyw wybodaeth o asesu rhwystrau rhag addysg a chyflogaeth, yn ogystal â mesurau lles.

4.42 Grŵp arall, a grybwyllir yn amcanion strategol Gyrfa Cymru, sy'n berthnasol i ALlau yw dysgwyr sy’n cael addysg ddewisol yn y cartref. Mae Gyrfa Cymru yn ei chael hi’n anodd cael gafael ar gofnodion ar y plant neu'r bobl ifanc hynny sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref gan nad oes darpariaethau penodol ar hyn o bryd i ganiatáu rhannu data gwybodaeth y mae Awdurdodau Lleol yn ei dal. Mae ALlau yn dal rhywfaint o wybodaeth am ddysgwyr sy’n cael addysg ddewisol yn y cartref ond nid oes cofrestr ganolog ffurfiol o ddysgwyr sy’n cael addysg ddewisol yn y cartref yng Nghymru. Os caiff disgybl ei dynnu'n ôl o'r sector ysgolion a gynhelir i gael ei addysgu gartref, mae'n ofynnol i ysgolion hysbysu Awdurdodau Lleol sy'n cadw cofnod o'r wybodaeth hon. Er bod cynnig Gyrfa Cymru ar gyfer

addysg ddewisol yn y cartref wedi'i nodi yn y Cynllun Gweithredol ac mae'n grŵp targed o dan y Warant i Bobl Ifanc, ychydig o wybodaeth sydd ar gael i Gyrfa Cymru i nodi'r dysgwyr hyn y tu hwnt i allgymorth i sefydliadau sy'n gweithio gyda disgyblion sy’n cael addysg ddewisol yn y cartref neu grwpiau mwy anffurfiol i rieni.

4.43 Felly, mae'n debygol y bydd angen cymorth deddfwriaethol pellach ar unrhyw ddefnydd o wybodaeth addysg ddewisol yn y cartref yn y dyfodol i ganiatáu i Awdurdodau Lleol a Gyrfa Cymru gael gwybodaeth gyswllt er mwyn cynnig gwasanaeth yn uniongyrchol. Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar ddarparu data er mwyn caniatáu i ALlau adnabod plant sy’n cael addysg ddewisol yn y cartref yn 2019 o dan Reoliadau Cronfa Ddata Addysg Deddf Plant 2004 (Cymru) 2020 (drafft)[25]. Nid oedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn cefnogi'r cynigion, gan gyfeirio’n aml at faterion yn ymwneud â stereoteipiau negyddol am deuluoedd sy'n addysgu gartref a hawliau i breifatrwydd. Awgrymodd rhai y byddai'n well cael cofrestr wirfoddol a oedd yn nodi defnyddiau yn glir. O'r herwydd, nid yw addysg ddewisol yn y cartref yn cael ei ystyried yn faes ymarferol i Gyrfa Cymru fynd ar drywydd rhannu data ar hyn o bryd. Dylai unrhyw ddeddfwriaeth yn y dyfodol ar gasglu data ar ddysgwyr EHE, neu gofrestr EHE, ystyried mynediad at wybodaeth am ddysgwyr EHE er mwyn gallu targedu gwasanaethau i sicrhau nad yw dysgwyr EHE yn cael eu heithrio rhag defnyddio gwasanaethau CIAG.

4.44 Mae data Awdurdodau Lleol yn cynnig ffyrdd eraill o rannu data a allai fod yn fwy cynhyrchiol. Bydd yr unigolion sy'n ymgysylltu â rhaglenni cyflogaeth a drafodir yn Adran 3 (fel CfW+) sy'n defnyddio Cymru'n Gweithio fel porth yn cael eu cofrestru ar gronfa ddata Gyrfa Cymru ar ôl iddynt gael ymyriad. Gallai hyn gynnig cyfle i gofnodi gwybodaeth am gefndir addysgol, ymyriadau blaenorol, amgylchiadau neu rwystrau unigol, a dyheadau cwsmeriaid nad ydynt eisoes yn hysbys i Gyrfa Cymru ond, yn bwysig, darparu gwybodaeth bersonol y mae ei hangen i baru a chysylltu unrhyw ddata ar ryngweithio blaenorol â Gyrfa Cymru.

***LEO***

4.45 Caiff set ddata LEO ei chreu drwy gysylltu nifer o setiau data gweinyddol. Ei phrif nod oedd darparu gwell tystiolaeth ar lwybrau o'r ysgol i'r farchnad lafur. Defnyddiwyd LEO i edrych ar ddeilliannau’r farchnad lafur yn gysylltiedig â

[25] Rheoliadau Cronfa Ddata Addysg Deddf Plant 2004 (Cymru) 2020 (drafft)

chyrhaeddiad addysgol blaenorol. Er bod LEO yn cynnig potensial i olrhain cyrchfannau, yn yr un modd â'r Arolwg Cyrchfannau, mae cysylltiad â data'r Adran Gwaith a Phensiynau a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn rhoi mwy fyth o botensial i ystyried llwybrau dros gyfnod yn hytrach na chipluniau croestoriadol.

4.46 Ar gyfer Cymru, caiff data LEO ei greu drwy rannu LLWR, CYBLD, CYBLD Ôl-16 ac EOTAS gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau. Yna, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn cynnal proses baru i gyfuno'r ffynonellau hyn â budd-daliadau'r Adran Gwaith a Phensiynau, pwnc a chanlyniadau JACS HESA, a data CThEM ar enillion. Mae hyn yn rhoi darlun o'r llwybr addysgol o CA4 i gyflogaeth.

4.47 Oherwydd cymhlethdod cysylltu'r holl ffynonellau data hyn ar gyfer gwledydd y DU, mae oedi cyn darparu data, sy'n golygu mai dim ond i gynnal dadansoddiad hanesyddol y gellir defnyddio LEO. Gallai dadansoddi gefnogi'r broses o ystyried cyrchfannau y tu hwnt i'r setiau data addysg sydd ar gael ar hyn o bryd i Gyrfa Cymru. Fodd bynnag, mae cymhlethdodau hefyd o ran cael gafael ar ddata LEO. Er bod data Lloegr ar gael ar hyn o bryd at ddibenion ymchwil drwy SRS y Swyddfa Ystadegau Gwladol, mae SAIL wrthi'n cynnal trafodaethau i gael mynediad at LEO ond mae ansicrwydd pryd, ac os, y bydd hyn yn digwydd[26].

***Data'r Adran Gwaith a Phensiynau***

4.48 Gall data a gedwir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ddarparu ffynhonnell sylweddol o wybodaeth a all alluogi'r rhai sydd, o bosibl, angen cymorth ychwanegol i gael eu nodi. Yn benodol, gall y rhai sy'n derbyn budd-daliadau lles roi syniad o'r angen am gymorth, neu ganlyniadau i unigolion sydd wedi bod yn gwsmeriaid. Nododd y cyfweleion hynny sy'n gweithio ym maes cymorth cyflogaeth ddiffyg darpariaeth data arferol ar unigolion sy'n derbyn budd-daliadau, gan nodi mai achlysurol oedd y ddarpariaeth.

4.49 Yn hanesyddol, sicrhaodd Gyrfa Cymru gytundebau rhannu data gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau ond wrth i'r Credyd Cynhwysol ddechrau disodli 'budd-daliadau etifeddol' seiliedig ar incwm[27] yn 2013, roedd y cytundeb hwn yn gostwng ei effeithiolrwydd gydag amser wrth i nifer y cysylltiadau â data Gyrfa Cymru ostwng am nad oedd y Credyd Cynhwysol wedi'i gynnwys yn y cytundeb. Roedd

[26] Hysbysiad Preifatrwydd LEO
[27] Mae budd-daliadau etifeddol yn cynnwys Lwfans Ceisio Gwaith, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n gysylltiedig ag incwm, Cymhorthdal Incwm, Credyd Treth Gwaith, Credyd Treth Plant a Budd-dal Tai.

diffyg darpariaeth gwybodaeth am y rhai sy'n derbyn budd-daliadau ac, felly, statws pobl NEET a chymwys i gael cymorth i ddychwelyd i'r gwaith yn lleihau gallu Gyrfa Cymru i gynnig cymorth.

4.50 Mae Gyrfa Cymru yn cynnal trafodaethau gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau er mwyn cael data ac maent wrthi'n datblygu Achos Gofynion Busnes Manwl. Mae trafodaethau'n symud tuag at ddarparu data'n fisol a fydd yn galluogi darganfod statws NEET a'r rhai sydd bellach yn byw mewn rhannau eraill o'r DU. Gellid darparu data Cyfundrefn Weithio'r Credyd Cynhwysol hefyd, sy'n dosbarthu gallu'r bobl sy'n derbyn y Credyd Cynhwysol i weithio. Mae pedwar grŵp amodoldeb yn gwahaniaethu rhwng:

- pobl nad ydynt yn gallu gweithio (er enghraifft, mae ganddynt blant o dan un oed, cyfrifoldebau gofalu neu gyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio)
- pobl a allai baratoi at waith (er enghraifft, pobl sydd â phlant o dan oedran ysgol gorfodol neu gyflwr iechyd tymor byr/dros dro)
- pobl sy'n gallu gweithio ac y mae'n ofynnol iddynt fynd ati i chwilio am waith
- a phobl sydd heb unrhyw ofynion sy'n gysylltiedig â gwaith.

Gall y data hefyd gynnwys baner sy'n dangos bod unigolion yn derbyn taliadau premiwm am gyfrifoldebau gofalu. Pan na fydd hawlwyr y Credyd Cynhwysol yn gymwys i dderbyn y budd-dal mwyach, darperir dosbarthiadau'r rhesymau dros gau hawliad (dangosir y rhain yn Nhabl 4.1).

4.51 Wrth drafod prosesau ar gyfer rhannu data, mae'n ymddangos yn debygol y bydd enwau a chodau post yn cael eu defnyddio i nodi unigolion a bydd achosion yn cael eu paru a'u cysylltu â data Gyrfa Cymru. Bydd y cytundeb yn cael ei fodelu ar gytundeb rhannu data y cytunwyd arno yn ddiweddar rhwng yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Alban at ddibenion tebyg. Y gobaith yw dod i gytundeb a rhannu data yn 2022.

4.52 Mae gan ddarparu data'r Adran Gwaith a Phensiynau oblygiadau i'r Warant i Bobl Ifanc a'r Cynllun Cyflogadwyedd gan y byddai'n helpu asesu nifer y bobl ifanc 16–24 oed sy'n gallu gweithio i bob golwg ond nad ydynt mewn gwaith ar hyn o bryd. Byddai'r data'n galluogi dosbarthu cyflym o dan System Haenau'r Fframwaith

Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid.  Byddai hyn hefyd o fudd i bartneriaid drwy nodi a rhannu gwybodaeth yn gymharol gyflym pan fydd unigolion yn newid Haenau ac a allai fod yn gymwys i gael mynediad at wahanol wasanaethau cymorth a ddarperir gan sefydliadau y mae Gyrfa Cymru yn atgyfeirio atynt, er enghraifft fel rhan o raglen Cymru'n Gweithio. Mae potensial hefyd am olrhain y canlyniadau i unigolion sydd wedi cael ymyriadau gan Gyrfa Cymru, er bod hyn yn dibynnu i raddau helaeth ar ALlau yn cofnodi gwybodaeth am ganlyniadau a'i rhannu gyda Gyrfa Cymru.

Dull gwahanol o olrhain canlyniadau gan ddefnyddio data'r Adran Gwaith a Phensiynau fyddai defnyddio'r Labordy Data Cyflogaeth a sefydlwyd yn ddiweddar, a gynlluniwyd i alluogi gwerthuso ymyriadau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth gan sefydliadau trydydd parti fel Gyrfa Cymru. Mae'r Labordy Data Cyflogaeth yn defnyddio data gweinyddol, budd-daliadau a chyflogaeth i gymharu canlyniadau pobl sydd wedi cael ac sydd heb gael ymyriad. Drwy ddarparu data cwsmeriaid i'r Labordy Data Cyflogaeth, gall sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector sy'n darparu gwasanaethau cyflogaeth ofyn am ddadansoddiadau sy'n anelu at ddangos pa ymyriadau sy'n gweithio. Caiff canlyniadau'r dadansoddiadau eu llunio mewn adroddiad a'u rhannu â'r sefydliad sy'n gwneud cais amdanynt. Mae gwasanaeth o'r fath yn cefnogi olrhain deilliannau grwpiau penodol o gwsmeriaid sy'n cymryd rhan mewn ymyriad penodol, y byddai disgwyl i'w ganlyniadau fod yn 'galed', e.e. llai o amser ar fudd-daliadau. Wrth i'r Labordy Data Cyflogaeth gynnal y dadansoddiad yn fewnol, gall hyn leihau'r baich dadansoddol o fewn Gyrfa Cymru ond mae'n debygol y byddai angen cryn dipyn o amser o hyd i ddatblygu cynigion, paratoi a throsglwyddo data, hwyluso dealltwriaeth o'r dadansoddiad y mae ei angen a dehongli allbynnau.

**Tabl 4.1: Rhesymau'r DWP dros Gau Hawliadau'r Credyd Cynhwysol**

| Rheswm dros gau | Disgrifiad |
|---|---|
| Cyfalaf Anghymwys | Mae gan yr hawlydd gyfalaf, cynilion neu eiddo dros £16,000 |
| Anghymwys, oedran pensiwn y wladwriaeth neu oedran credyd pensiwn | Mae hawlydd yn cyrraedd oedran pensiwn felly bydd yn hawlio budd-dal priodol. |
| Ymyrraeth oherwydd twyll | Mae'r tîm twyll yn gofyn am gau'r hawliad. |
| Wedi symud dramor | Gadawodd y wlad am fwy o amser na'r cyfnod a ganiateir. Dim ond am 4 wythnos y gall hawlwyr adael y wlad oni bai bod amgylchiadau arbennig. |
| Addysg amser llawn | Ni all rhai hawlwyr hawlio'r CC os ydynt mewn addysg amser llawn. Mae hyn yn dibynnu ar amgylchiadau eu haelwyd ac ym mha grŵp gwaith y maent. |
| Wedi marw | Mae'n rhaid bod dyddiad marwolaeth "wedi'i ddilysu" yn bresennol ar CIS cyn y gellir cau hawliad y CC. |
| NINO anghywir | Os bydd NINO yn anghywir, bydd angen creu hawliad newydd i fewnbynnu'r NINO cywir. |
| Hawliad newydd nad yw'n gymwys neu nad oes hawl iddo | Nid oes hawl gan yr hawlydd gael y CC o ddechrau'r hawliad; gall unrhyw reswm dros gau fod yn berthnasol. |
| Anghymwys, 16 neu 17 oed | Rhaid bodloni meini prawf arbennig er mwyn i rywun 16/17 oed hawlio'r CC. |
| Dan gystodaeth gyfreithiol | Yn y ddalfa |
| Yn y carchar | Yn y carchar ac wedi cael ei ddedfrydu. |
| Ni dderbyniwyd ymrwymiad hawlydd | Mae'n ofynnol i hawlydd dderbyn ei ymrwymiadau drwy ei gyfnodolyn neu bydd ei gais yn cau. |
| Tystiolaeth annigonol | Gofynnwyd i hawlydd ddarparu gwybodaeth/tystiolaeth benodol methodd â'i ddarparu yn yr amser a neilltuwyd. |
| Wedi symud i Ogledd Iwerddon | Rhaid cau'r hawliad, yna bydd yr hawlydd yn gwneud hawliad yng Ngogledd Iwerddon. |
| Wedi methu trefnu cyfweliad cychwynnol | Mae'n ofynnol i'r hawlydd drefnu'i apwyntiad cychwynnol ar gyfer hawliad newydd, os na fydd yn gwneud hynny, caiff ei hawliad ei gau a rhaid iddo ddechrau'r broses gyfan eto. |
| Y tu allan i god post digidol y CC | Ni chaiff ei ddefnyddio mwyach gan fod Gwasanaeth Llawn y CC bellach wedi'i gyflwyno ledled y wlad. |
| Methu Mynychu | Mae hawlydd wedi methu mynychu apwyntiad gorfodol naill ai gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau neu ddarparwr. |

Ffynhonnell: Cyflenwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

**Llywodraethu Canolfannau Data**

4.53 Wrth ystyried dichonoldeb cysylltu a rhannu data fel agwedd allweddol ar gyflawni polisi, archwiliwyd pa sefydliad ddylai arwain. O gyfweliadau, barnwyd mai Gyrfa Cymru oedd y sefydliad mwyaf addas am nifer o resymau. Yn gyntaf, maent ganddynt eisoes lawer iawn o ddata ar ddisgyblion, dysgwyr a phobl ddi-waith. Yn ail, ystyriwyd eu bod yn sefydliad sy'n gweithredu hyd braich oddi wrth Lywodraeth Cymru ac na ellid dweud hynny am wasanaethau eraill a ddarperir gan awdurdodau lleol er enghraifft – deellid bod hyn yn creu lefel o ddidueddrwydd a lefel uchel o ymddiriedaeth cwsmeriaid. At hynny, ystyriwyd bod Gyrfa Cymru yn sefydliad a fyddai'n hyrwyddo ymgysylltu 'ar y cyd', gan weithio gyda sefydliadau partner i sicrhau bod llifoedd data yn arwain at rannu data'n llwyddiannus ac yn briodol.

4.54 Nid ystyriwyd mai ALlau oedd yn y sefyllfa orau oherwydd bod dulliau a meddalwedd casglu data yn amrywio. Yn arwyddocaol hefyd, o ran addasrwydd gweithredol, ystyriwyd bod nifer yr awdurdodau lleol yn rhwystr rhag trefnu llwyddiannus ac effeithlon. Ni thybiwyd bod sefydliadau canolog, megis yr Adran Gwaith a Phensiynau, yn ymarferol oherwydd natur bell ei swyddogaethau llywodraeth ganolog. Wrth ystyried potensial Llywodraeth Cymru i ddatblygu a chynnal system ganolog, mynegwyd pryderon y byddai hyn yn arwain at oedi wrth ddarparu data a bod ymgorffori'r swyddogaeth hon yn beryglus gan y teimlid y byddai llai o atebolrwydd neu ymgysylltiad beirniadol.

4.55 Pe bai Gyrfa Cymru yn symud ymlaen fel arweinydd ar gyfer canolfan deallusrwydd data, yna mae cwestiynau o hyd ynghylch pwy yw'r 'perchnogion data' a'r 'rheolwyr data'. Efallai fod hyn yn llai o broblem nag ydyw ar yr olwg gyntaf. Gall pob sefydliad partner barhau i fod yn berchennog data a rheolwr eu gwybodaeth, a byddai Gyrfa Cymru yn yr achosion hyn yn cael ei ystyried yn 'brosesydd data' neu'n rheolwr ar y cyd. Fel prosesydd data, byddai'n rhaid i Gyrfa Cymru gadw cofnod o'r holl weithrediadau prosesu (y gellir eu holrhain gydag amgylchedd Atlas/Dynamics), byddai'n gyfrifol am roi mesurau diogelwch priodol ar waith, a byddai angen prosesau arnynt i hysbysu rheolwr ar unwaith am unrhyw achos o dorri amodau data. Mae hyn yn parhau i gyd-fynd â'r GDPR. Er mwyn i Gyrfa Cymru fod yn rheolwr data ar y cyd, byddai angen ei enwi felly mewn hysbysiadau preifatrwydd sefydliadol.

**Enghreifftiau o Ddadansoddi Data Cysylltiedig**

4.56 Yn yr adran ganlynol, rydym yn cyflwyno 3 astudiaeth achos fer sy'n dangos manteision posibl cysylltu ffynonellau data gan ddefnyddio data Gyrfa Cymru a data addysg[28]. O dan y prosiect Ymchwil Data Gweinyddol, a ariennir gan yr ESRC, rydym wedi sicrhau mynediad at gofnodion addysg gweinyddol gydag elfennau adnabod wedi'u dileu, a data ar gwsmeriaid Gyrfa Cymru, gan gynnwys Gwirio Gyrfa. Mae'r enghraifft gyntaf yn defnyddio data gweinyddol Gyrfa Cymru yn unig i ystyried sut mae asesiadau o'r ddarpariaeth y mae ei hangen ar unigolion yn gysylltiedig â'r ddarpariaeth gwasanaeth go iawn. Mae'r ail enghraifft yn dangos dadansoddiad o arolwg Gwirio Gyrfa yn gysylltiedig â data disgyblion i ddangos pwysigrwydd nodweddion ehangach wrth benderfynu ar ddewisiadau, ac mae'r trydydd yn edrych ar ganlyniadau gan ddefnyddio data gweinyddol cwsmeriaid, data disgyblion ysgol, CYBLD Ôl-16 a'r LLWR i archwilio effaith Cyfarwyddyd Gyrfaoedd.

[28] Mae rhagor o wybodaeth am waith Ymchwil Data Gweinyddol (ADR) ar ddata Gyrfa Cymru

## Achos 1: Gofynion Gwasanaeth a Darparu Gwasanaethau yng Nghyfnod Allweddol 4

Gyda chymorth yr ymatebion i Gwirio Gyrfa, o Flwyddyn 9 ymlaen, mae Cynghorwyr Gyrfaoedd mewn ysgolion yn dechrau blaenoriaethu'r cleientiaid yn y grŵp blwyddyn yn seiliedig ar eu gofynion tebygol am wasanaeth. Cofnodir y gofynion hyn yn y cofnodion gweinyddol a gellir eu hadolygu a'u diwygio os bydd angen. Drwy gymharu data ar ddarparu gwasanaethau â gofynion am wasanaeth, gellir asesu i ba raddau y mae'r gwasanaethau a ddarperir gan Gyrfa Cymru yn cael eu targedu. Mae Tabl 1 yn dangos bod tri chwarter y disgyblion (75%) ymhlith disgyblion Blwyddyn 11 wedi'u nodi'n ddisgyblion y mae angen 'Rhyngweithio Unigol' â nhw, naill ai'n bersonol neu'n ddigidol. Nodwyd bod angen 'Rhyngweithio Grŵp' ar ychydig dros hanner y disgyblion (53%). Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sydd angen darpariaeth gwasanaeth unigol neu grŵp yn derbyn y gwasanaethau hyn (80% a 92% yn y drefn honno). Mae hefyd yn dangos bod cyfran uchel o'r rhai nad oes angen darpariaeth unigol neu grŵp arnynt yn dal i dderbyn y gwasanaethau hyn (tua 63% a 72%).

**Tabl 1: Darpariaeth unigol neu grŵp (yn bersonol ac yn ddigidol) yn ôl gofyniad (Disgyblion Blwyddyn 11, 2017/18-2018/9)**

| Nodi bod Gofyn Ymyrraeth Unigol/Grŵp | Y ganran sy'n derbyn darpariaeth unigol | Y ganran sy'n derbyn darpariaeth grŵp |
|---|---|---|
| **Dim angen** | 62.9 (25%) | 71.9 (47%) |
| **Angen** | 80.1 (75%) | 91.5 (53%) |
| **Cyfanswm** | 75.7 (100%) | 82.3 (100%) |

Mae nodi gofynion am wasanaeth hefyd yn amlygu disgyblion sydd angen Rhyngweithio Wyneb yn Wyneb Unigol (46%). Gan edrych ar draws holl ystod y ddarpariaeth Wyneb yn Wyneb Un i Un, mae Tabl 2 yn dangos bod 85% o blith y disgyblion hynny y nodwyd bod angen Rhyngweithio Wyneb yn Wyneb Unigol arnynt yn derbyn rhyw fath o Ddarpariaeth Wyneb yn Wyneb Un i Un. Mae tri chwarter yn derbyn Cyfarwyddyd Gyrfaoedd Wyneb yn Wyneb – Un i Un. Er bod cyfran y disgyblion sy'n derbyn Gwybodaeth am Yrfaoedd a Chyngor Gyrfaoedd yn is na'r rhai sy'n derbyn Cyfarwyddyd Gyrfaoedd, mae'r ddarpariaeth yn parhau i gael ei blaenoriaethu'n glir ar gyfer y rhai y nodwyd bod angen Rhyngweithio Wyneb yn Wyneb Unigol arnynt.

**Tabl 2: Canran y Disgyblion y nodwyd bod angen Ymyrraeth Wyneb yn Wyneb arnynt yn ôl Derbyn yr Ymyriad hwnnw (Disgyblion Blwyddyn 11, 2017/18-2018/9)**

| Angen Rhyngweithio Wyneb yn Wyneb Unigol | % sy'n derbyn Ymyriad Wyneb yn Wyneb Unigol | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfarwyddyd Gyrfaoedd | Gyrfaoedd Gwybodaeth | Gyrfaoedd Cyngor | Unrhyw Ddarpariaeth Wyneb yn Wyneb – Un i Un |
| Nac oes (54%) | 33.9 | 14.0 | 8.3 | 44.9 |
| Oes (46) | 75.1 | 23.6 | 16.6 | 84.7 |
| Pob un (100%) | 52.9 | 18.4 | 12.1 | 63.3 |

## Achos 2: Pwysigrwydd Rhywedd a Chymhwysedd i Gael Prydau Ysgol am Ddim ar Ddyheadau Gyrfaol Plant Cyfnod Allweddol 4

Mae'r arolwg Gwirio Gyrfa yn helpu Cynghorwyr Gyrfaoedd i nodi'r disgyblion sydd â'r angen mwyaf am gymorth. Mae'r arolwg yn cynnwys gwybodaeth werthfawr am lwybrau arfaethedig, dewisiadau galwedigaethol, amgyffredion o rwystrau, a hyder wrth wneud penderfyniadau. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys gwybodaeth am gefndiroedd economaidd-gymdeithasol plant. Gellir mynd i'r afael â hyn drwy ei gyfuno â data ar gymhwysedd i gael Prydau Ysgol am Ddim o'r Casgliad Data Cenedlaethol.

Mae Tabl 1 yn dangos y 15 dewis cyntaf o ran gyrfa a ddewiswyd gan blant Cyfnod Allweddol 4 yng Nghymru. Dewisodd tua 85% o'r plant a ymatebodd i'r arolwg un o'r 15 categori hyn fel eu dewis cyntaf o faes gyrfa. Yn gyffredinol, y tri maes gyrfa uchaf yw Iechyd a Meddygol (10%); Hamdden, Chwaraeon a Thwristiaeth (9%) a Pheirianneg (8%). Mae'r cysgodi ar y mapiau gwres yn dangos bod cyflogaeth mewn meysydd sy'n gysylltiedig ag Iechyd a Meddygol yn arbennig o bwysig i fenywod (15%), tra bod gwrywod yn fwy tebygol o fynegi eu bod yn ffafrio gweithio ym meysydd Hamdden, Chwaraeon a Thwristiaeth (14%), Peirianneg (14%) a Chyfrifiaduron, Meddalwedd a TG (12%).

Mae'r dadansoddiad yn datgelu ymhellach bod mwy o stereoteipio dewisiadau gyrfa ar sail rhyw ymhlith plant sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim. Er enghraifft, er bod 9% o fenywod wedi dweud mai eu dewis cyntaf o faes gyrfa oedd Gofal Plant, cynyddodd hyn i 14% ymhlith y rhai sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim – gan olygu mai dyma'r maes gyrfa a ddewiswyd amlaf ymhlith y grŵp hwnnw. Mae canfyddiad tebyg yn dod i'r amlwg ar gyfer Gwallt a Harddwch. Er bod 8% o fenywod wedi nodi mai dyma oedd eu dewis cyntaf o Faes Gyrfa (yn y 4ydd safle), cynyddodd hyn i 13% ymhlith y rhai sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim (2il safle). Mae'r dadansoddiad yn dangos sut mae rhywedd a chefndir economaidd-gymdeithasol yn rhyngweithio i ddylanwadu ar ddisgwyliadau gyrfa plant yng Nghymru.

**Tabl 1: Dewisiadau Gyrfa Plant Cyfnod Allweddol 4 yng Nghymru (Disgyblion Blwyddyn 11, 2015/16 i 2018/19)**

| | Genethod | | | Bechgyn | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Swydd | Ddim yn cael prydau ysgol am ddim | Yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim | Pawb | Ddim yn cael prydau ysgol am ddim | Yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim | Pawb | Pawb yn CA4 Plant |
| Iechyd a Meddygol | 15.4 | 11.6 | 14.9 | 4.4 | 2.8 | 4.2 | 9.5 |
| Hamdden, Chwaraeon a Thwristiaeth | 5.1 | 3.3 | 4.8 | 13.8 | 11.2 | 13.5 | 9.2 |
| Peirianneg | 1.4 | 1.3 | 1.4 | 14.1 | 14.1 | 14.1 | 7.8 |
| Cyfrifiaduron, Meddalwedd a TG | 1.2 | 1.0 | 1.1 | 11.5 | 12.0 | 11.6 | 6.4 |
| Celf a Dylunio | 8.6 | 9.6 | 8.7 | 3.5 | 3.9 | 3.6 | 6.1 |
| Gwasanaethau Brys, Amddiffyn a'r Lluoedd Arfog | 3.5 | 3.9 | 3.6 | 6.9 | 7.6 | 7.0 | 5.3 |
| Y Gyfraith | 6.8 | 5.8 | 6.7 | 3.7 | 2.8 | 3.6 | 5.1 |
| Addysgu ac Addysg | 7.8 | 5.6 | 7.5 | 2.6 | 2.3 | 2.5 | 5.0 |
| Gofal Anifeiliaid | 7.5 | 7.7 | 7.5 | 1.8 | 2.3 | 1.9 | 4.7 |
| Adeiladu | 0.4 | 0.5 | 0.4 | 8.2 | 12.2 | 8.7 | 4.6 |
| Teledu, Ffilm a'r Cyfryngau | 4.4 | 3.3 | 4.2 | 4.7 | 4.3 | 4.6 | 4.4 |
| Gofal Plant | 7.8 | 14.1 | 8.7 | 0.2 | 0.3 | 0.2 | 4.4 |


## Achos 3: Effeithiolrwydd Cyfarwyddyd Gyrfaoedd wrth Gefnogi Cyfranogiad mewn Addysg a Hyfforddiant Ôl-Orfodol.

Mae'r pontio o ddysgu i waith yn dod yn fwyfwy cymhleth a theimlir bod darparu cyfarwyddyd gyrfaoedd i'r rhai yn yr ysgol yn chwarae rhan hollbwysig, yn enwedig ymhlith y disgyblion hynny o gefndiroedd tlotach. Felly, a ellir dangos bod darparu Cyfarwyddyd Gyrfaoedd mewn ysgolion yn dylanwadu ar bontio i Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (AHO).

Mae data o Gyfrifiad Ysgolion Blynyddol Ar Lefel Disgyblion Casgliad Data Cenedlaethol Cymru (CYBLD NDC) wedi'i gysylltu â'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol Ar Lefel Disgyblion Ôl-16 a Chofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR). Gall y data hyn nodi'r disgyblion hynny sydd naill ai'n aros mewn Chweched Dosbarth (data a gasglwyd gan CYBLD Ôl-16) neu'r rhai sy'n symud i'r sector AB – gan gynnwys y rhai sydd wedi'u cofrestru ar gyfer Dysgu Seiliedig ar Waith (data a gasglwyd gan LLWR). Mae'r dadansoddiad yn archwilio pontio 2 garfan o ddisgyblion, sef y rhai a oedd ym Mlwyddyn 11 yn ystod 2016/17 a 2017/18. Mae pontio gan y rhai sy'n derbyn Cyfweliad Cyfarwyddyd un-i-un yn ystod CA4 yn cael eu cymharu â'r rhai nad ydynt yn cael y cyfweliad hwnnw.

Ar draws y 2 garfan hyn o ddisgyblion, nid yw tua 9% yn mynd ymlaen i gymryd rhan mewn AHO (gweler Ffigur 1). Mae'r ffigur hwn ychydig yn uwch ymhlith y rhai sy'n derbyn Cyfweliad Cyfarwyddyd Gyrfaoedd (9% o gymharu ag 8%). Y broblem gyda chymariaethau mor eang yw eu bod yn methu ag ystyried gwahaniaethau yn amgylchiadau disgyblion y mae Gyrfa Cymru yn blaenoriaethu bod angen cymorth arnynt, gan gynnwys y rhai â lefelau cyrhaeddiad academaidd is a'r rhai o gartrefi tlotach. Ymhlith y chwartel isaf o'r rhai sy'n ennill TGAU, nid yw 17% o ddisgyblion yn mynd ymlaen i gymryd rhan mewn AHO. Mae'r ffigur hwn yn cynyddu i 22% ymhlith y rhai nad ydynt yn cael Cyfweliad Cyfarwyddyd Gyrfaoedd. Yn yr un modd, ymhlith y rhai sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim, nid yw 12% yn mynd ymlaen i gymryd rhan mewn AHO. Unwaith eto, mae'r ffigur hwn yn cynyddu i 15% ymhlith disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim nad ydynt wedi derbyn Cyfweliad Cyfarwyddyd Gyrfaoedd. Felly, mae'n ymddangos bod y dadansoddiad yn awgrymu bod y Cyfarwyddyd Gyrfaoedd yn effeithio ar bontio disgyblion â lefelau isel o gyrhaeddiad addysgol a'r rhai sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim.

**Ffigur 1: Disgyblion Nad Ydynt mewn Addysg na Hyfforddiant yn dilyn Blwyddyn 11 (Disgyblion Blwyddyn 11, 2016/17-2017/18)**



**Crynodeb**

4.57 Mae'n amlwg y gall data Gyrfa Cymru roi cyfle i asesu anghenion cwsmeriaid drwy gofnodion manwl ar ryngweithio yn ogystal â data arolwg ychwanegol. Fodd bynnag, nid yw'r data'n rhoi cyfle i edrych y tu hwnt i nodweddion penodol. Gallai ffynonellau gweinyddol eraill, megis cofnodion addysgol a data'r Adran Gwaith a Phensiynau, roi rhagor o fanylion am nodweddion cwsmeriaid Gyrfa Cymru. Gall gwybodaeth o'r fath ei gwneud hi'n haws segmentu sylfaen cleientiaid Gyrfa Cymru yn well. Mae dadansoddiad o'r fath yn caniatáu i gleientiaid gael eu grwpio gyda'i gilydd o ran eu nodweddion cyffredin, gan helpu i ddarparu gwasanaethau a gwerthuso gwasanaethau yn effeithiol. Gallai'r sylfaen dystiolaeth well gefnogi cynllunio strategol, ceisiadau am gyllid, dyrannu adnoddau a datblygiad gwasanaethau. Gallai data ar ganlyniadau cleientiaid gefnogi'r gwaith o werthuso effeithiau gwasanaethau. Gallai partneriaid allanol, gan gynnwys cwnselwyr cyfarwyddyd mewn ysgolion, darparwyr dysgu a'r rhai sy'n ymwneud â chyflwyno rhaglenni cymorth cyflogaeth, elwa os bydd mwy o wybodaeth ar gael am gleientiaid. Gallai hyn gynorthwyo â nodi'n gynnar a darparu cymorth i'r rhai sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ac olrhain eu cynnydd. Gallai data a gesglir gan gyrff cyhoeddus wrth ddarparu gwasanaethau cymorth cyflogaeth gynyddu'r ddealltwriaeth o effeithiolrwydd y ddarpariaeth i oedolion, gan arwain at welliannau i gwsmeriaid o oedran gweithio.

4.58 O ystyried yr amrywiaeth eang o grwpiau cwsmeriaid a phartneriaid y mae Gyrfa Cymru yn gweithio gyda nhw, mae'r lefel hon o ddata yn codi cwestiynau arwyddocaol ynghylch pa eitemau data allweddol y byddai rhanddeiliaid yn dymuno eu gweld ym 'mhen blaen' unrhyw gronfa ddata y gall rhanddeiliaid ei chwilio. At hynny, mae pob un o'r setiau data a drafodir uchod yn gymhleth iawn ynddynt eu hunain. Mae'n debygol y bydd angen cael mesurau o bob un a all ddistyllu'r data i fformat sy'n addas i'w chwilio, ei gysylltu ar lefel person a'i ddadansoddi wedi hynny. Bydd angen dadansoddiad manwl o'r data ynghyd â thrafodaethau â chydweithwyr i ddatblygu dulliau cytunedig o gyfuno'r data mewn ffordd sy'n distyllu'r wybodaeth a gedwir heb golli gwybodaeth werthfawr am gwsmeriaid. Mae angen gofyn y mathau hyn o gwestiynau am yr holl setiau data gwahanol y gellid eu cyfuno.

# 5. Dulliau Posibl

5.1 Ar ôl ystyried y llwybrau cyfreithiol ar gyfer mynediad at ddata, y data sydd ar gael, ac anghenion Gyrfa Cymru a phartneriaid, rydym bellach yn cyflwyno chwe llwybr y gallai Gyrfa Cymru eu dilyn wrth ddatblygu ei ddefnydd o ddata cwsmeriaid a data gweinyddol arall i fonitro a gwella'r ddarpariaeth, y canlyniadau a'r gwerthusiad. Ymhlith y dewisiadau y mae:

- parhau â gweithgarwch cyfredol heb unrhyw newidiadau
- datblygu mwy o fynediad a llifoedd data mwy effeithiol i sefydlu Hyb Data
- Hyb Data a Mwy, a fyddai'n caniatáu hawliau i bartneriaid olygu meysydd data
- Porth Data i gwsmeriaid, defnyddio gwasanaethau data diogel a ddarperir gan sefydliadau eraill
- ac, yn olaf, partneriaethau sy'n seiliedig ar ymchwil.

Ar gyfer pob opsiwn byddwn yn ystyried dichonoldeb gweithredol, economaidd, technegol, cyfreithiol ac amserlennu, lle bo hynny'n briodol. Nid yw'r Opsiynau yn llwybrau heterogenaidd, ar wahân, ac eithrio Opsiwn 1 (yn y senario hwn, ni fyddai unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud i weithrediadau Gyrfa Cymru). Mae opsiynau 2 i 4 yn canolbwyntio ar ehangu'r defnydd o ddata gweinyddol mewn gwahanol ffyrdd, gan adeiladu ar waith presennol Gyrfa Cymru, ac mae Opsiynau 5 a 6 yn canolbwyntio ar adnoddau a chydberthnasau allanol.

**Opsiwn 1: Busnes fel Arfer**

5.2 Mae llawer o'r cyfyngiadau a nodir yn Adrannau 3 a 4 yn parhau i fod yn berthnasol os na fydd unrhyw newidiadau i allu Gyrfa Cymru i rannu data, cysylltu data, a derbyn a darparu data gyda sefydliadau partneriaeth.

*Gweithredol*

5.3 Mae gan Gyrfa Cymru dimau TG ac MIS (systemau gwybodaeth reoli), a thimau ansawdd a chynllunio sy'n gyfrifol ar hyn o bryd am faterion data – fel adrodd, cyrchfannau. Dim ond un dadansoddwr data sydd o fewn y sefydliad ac, felly, mae cyfyngiadau ar y graddau y gellir cynhyrchu a rhannu gwybodaeth sy'n seiliedig ar ddata.

5.4 Mae Gyrfa Cymru yn parhau i eiriol o blaid, trafod ac adolygu Cytundebau Rhannu Data gydag ysgolion, darparwyr a phartneriaid, gyda'r nod o cwmpasu 100% ohonynt. Gall amrywiadau yng nghyflawnrwydd y data a ddarperir ac amlder y rhannu ar draws ysgolion yng Nghymru barhau. Bydd mynediad cyfyngedig hefyd i nodweddion cwsmeriaid ar gyfer proffilio a chynllunio, a chanlyniadau i gleientiaid hŷn. Bydd cwblhau trefniadau rhannu data yn llwyddiannus gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau yn gwella'r broses o olrhain canlyniadau, ond dim ond yn rhannol y bydd hyn yn mynd i'r afael ag anghenion monitro ar gyfer cwsmeriaid.

*Economaidd*

5.5 Os na fydd Gyrfa Cymru yn cymryd unrhyw gamau pellach i ddatblygu defnyddioldeb data, ni fydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu creu.

*Technegol*

5.6 O ran materion technegol, mae Gyrfa Cymru ar hyn o bryd yn defnyddio warws data Azure i storio data a Microsoft Dynamics ac Atlas i fewnbynnu a rheoli'r data hwnnw. Mae newid diweddar o gronfa ddata IO i Atlas wedi arwain at lai o fynediad at ddata i'r partneriaid hynny sydd â thrwyddedau Power Bi, am gyfnod dros dro. Ar hyn o bryd, darperir mynediad i ychydig dros 100 o bartneriaid allanol (Cydlynwyr Ymgysylltu a Datblygu, yn bennaf) sy'n gallu asesu nifer y bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn Haenau 1 a 2. Gallai Gyrfa Cymru barhau i ddatblygu'r system Atlas newydd a gweld cynnwys Power Bi.

*Cyfreithiol*

5.7 Byddai Cytundebau Rhannu Data unigol gydag ysgolion, WASPIs gydag Awdurdodau Lleol a darpariaethau a drafodir yn Adran 3 yn parhau i gefnogi mynediad at ddata. Mae rai cyfyngiadau i'r rhain, yn enwedig lle nad yw WASPIs yn cwmpasu data adnabyddadwy a lle nad yw ysgolion yn trosglwyddo data i Gyrfa Cymru ar hyn o bryd.

*Amserlennu*

5.8 Elfen allweddol o amserlennu yw darparu data. Byddai'n rhaid parhau i aildrafod Cytundebau Rhannu Data ddwywaith y flwyddyn. Mae ysgolion yn parhau i lanlwytho drwy ardal lanlwytho ddiogel yn unol â manylebau'r Cytundebau Rhannu Data. Byddai eitemau data LLWR yn parhau i gael eu darparu ar gyfer yr arolwg cyrchfannau ac adroddiadau misol ar y rhai sy'n gadael AB (ac felly yn Haen 3).

**Opsiwn 2: Hyb Data**

5.9 Mae potensial i Gyrfa Cymru gynyddu ei rôl o ran cefnogi mynediad at ddata at ddefnydd mewnol ac allanol. Cafodd y gwaith o ddatblygu systemau a seilwaith data a all gefnogi cydweithio i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ei gefnogi'n gryf gan y rhai a gafodd eu cyfweld. Caiff tair nodwedd allweddol eu hawgrymu ar gyfer yr hyb data: mynediad digidol i gydweithwyr a phartneriaid; mynediad i alluogi defnyddwyr i weld data cyfanredol er mwyn cefnogi cynllunio gweithredol; mynediad at ddata unigol i helpu darparu gwasanaeth effeithiol. Byddai'r hyb data hwn yn canolbwyntio nid yn unig ar ddefnyddio data o fewn Gyrfa Cymru ond hefyd ar ddarparu cymorth a mynediad i bartneriaid. Gallai hyn gynnwys mwy o fynediad gan ysgolion ac AB ac ALlau at wybodaeth. Gall defnyddio data gefnogi penderfyniadau priodol ynghylch darparu gwasanaethau ar gyfer cwsmeriaid targed; monitro ffafriaeth, dewisiadau a chyrchfannau; darparu cymorth parhaus i ymadawyr, cynnal gwerthusiadau, a dadansoddiadau segmentu.

5.10 Ar hyn o bryd, mae Gyrfa Cymru yn cymryd ciplun o’i gronfa ddata bob mis i ddarparu data at ddibenion monitro. Er y bydd y gronfa ddata weithredol yn cofnodi hanesion, gweithgareddau a chanlyniadau fel bod gwybodaeth yn gyfredol, gallai’r ciplun gynnig y sylfaen ar gyfer cronfa ddata ddadansoddol y gellir ei defnyddio ar gyfer dadansoddi ystadegol mwy cymhleth. Mae'r gronfa ddata weithredol (Atlas) yn cysylltu â Power BI, adnodd pwerus ar gyfer delweddu a chael mynediad at ddata.

5.11 Mae Gyrfa Cymru eisoes yn gweithredu nifer o bolisïau rhannu data ac mae ganddo fecanweithiau a phrosesau ar waith i gefnogi'r gweithgaredd hwn. Drwy ehangu mynediad a gwella casgliadau data, gellir cynyddu defnyddioldeb y data. Mae trwyddedau Power BI yn chwarae rhan bwysig o ran darparu mynediad at ddata ac adroddiadau a byddent yn ganolog i’r hyb data. Drwy fod yn aelod o 'ap' Power BI, gellir gweld cynnwys gan gynnwys dangosfyrddau (sy'n dangos metrigau allweddol), taenlenni, adroddiadau yn ogystal â setiau data (a gellir eu golygu a'u lawrlwytho/argraffu gyda’r caniatâd cywir). Gall dylunwyr systemau reoli caniatâd i gael at ddata penodol o fewn gweithle Power BI a diogelu meysydd na ddylent fod ar gael i bawb, gan ganiatáu mynediad dim ond pan fydd llwybrau cyfreithiol ar waith. Gall creu apiau gan Gyrfa Cymru ddarparu mynediad at adroddiadau cyfredol ar wybodaeth ar lefel gyfanredol, er enghraifft yn ôl awdurdod lleol neu gynllun, i weld dadansoddiad disgrifiadol o ddata fel

nodweddion cyfranogwyr, neu nifer y bobl NEET mewn ALl. Hefyd, gallai gynnwys mynediad at ddata lefel unigol, er enghraifft ar ddiddordebau galwedigaethol neu rwystrau.

5.12 Manylir ar y meysydd data unigol allweddol y gellid eu cadw o fewn y gronfa ddata yn Nhabl 5.1.

**Tabl 5.1: Meysydd Data Unigol Gofynnol Hyb Data**

| Eitem | Disgrifiad | Ffynhonnell |
|---|---|---|
| Dynodwyr personol | Enw llawn | Gyrfa Cymru |
| Manylion cyswllt | Cyfeiriad/rhif ffôn/ebost | Gyrfa Cymru |
| Dyddiad geni | - | Ysgolion, Gyrfa Cymru |
| Statws presennol | Addysg (ysgol, AHO, Prifysgol), cyflogedig, di-waith | Gyrfa Cymru, DWP |
| Haen | Grŵp model 5 haen yn nodi statws NEET neu EET | Gyrfa Cymru, DWP, ALlau, LLWR, Gwasanaethau Ieuenctid |
| PYDd | Cymhwysedd i gael Prydau Ysgol am Ddim | Data'r ysgol |
| LAC | Statws Plentyn sy'n Derbyn Gofal | Data'r ysgol |
| AAA/ADY | Prif angen AAA neu ADY | Data'r ysgol, LLWR |
| Ethnigrwydd | Grŵp ethnig | Data'r ysgol, LLWR |
| Lefel Cymhwyster | Lefel yn ôl yr NQF, cyflawniad addysgol uchaf | Gwybodaeth yr ysgol, cwsmeriaid, WED |
| Dyheadau<br>Rhwystrau<br>Galwedigaeth o ddewis | Cyrchfan fwriadedig<br>Rhwystrau<br>Prif ddiddordeb cyflogaeth | Gwirio Gyrfa |
| Atgyfeiriad Cymru'n Gweithio | Cynllun | Cymru'n Gweithio |
| Canlyniad Cymru'n Gweithio | Statws NEET/EET | Cymru'n Gweithio, ALlau |
| Ymyrraeth y Warant i Bobl Ifanc | Math o ryngweithio | Cymru'n Gweithio, Gyrfa Cymru, ALlau, Darparwyr |
| Gwybodaeth am y cwrs | | LLWR, Data'r ysgol |
| Gwybodaeth am y swydd | Rôl bresennol | Cwsmer, Cymru'n Gweithio |
| Canlyniad y Warant i Bobl Ifanc | Statws NEET/EET | ALlau, Darparwyr |
| Ymgysylltu â'r YEPF | Math o ryngweithio | Cymru'n Gweithio, Gyrfa Cymru, ALlau, Darparwyr |
| Canlyniad yr YEPF | Statws NEET/EET | ALlau, Darparwyr |

*Gweithredol*

5.13 Yn weithredol, gallai datblygu mynediad allanol at ddata a gedwir gan Gyrfa Cymru effeithio ar gynllunio, darparu a gwerthuso gan Gyrfa Cymru. Oherwydd prinder staff o fewn Gyrfa Cymru i reoli a dadansoddi data, byddai angen cyflwyno rolau newydd o fewn Gyrfa Cymru i gefnogi'r gwaith o gydlynu a hwyluso'n strategol yn fewnol ac ar draws partneriaethau. Mae'r ddarpariaeth pob oed a gynigir gan Gyrfa Cymru yn golygu bod anghenion gweithredol a data cymhleth ar draws sawl partner, gydag ysgolion, colegau, timau awdurdodau lleol ac ar draws amrywiaeth o raglenni polisi yn chwarae rôl. Byddai arweinydd strategol allweddol o fewn Gyrfa Cymru yn hwyluso ac yn llywio'r gwaith o ddatblygu a chynllunio prosesau data a systemau technegol a chynllun gweithredu manwl. Byddai cyfrifoldebau'n cynnwys cydgysylltu â phartneriaid (yn enwedig arweinwyr polisi, Cydlynwyr Ymgysylltu a Datblygu, rheolwyr data a Swyddogion Diogelu Data), cefnogi adolygiadau o Gytundebau Rhannu Data, amserlennu darparu data a gweithgareddau a chydlynu datblygiadau technegol angenrheidiol i greu'r dangosfyrddau a'r adroddiadau y mae eu hangen yn Power BI. Gallai fod potensial sylweddol i'r rôl hon helpu i cyflwyno'r cyfeiriad strategol y mae ei angen o dan y Warant i Bobl Ifanc a'r YEPF. Hefyd, mae potensial i'r rôl hon gefnogi gwaith cydgysylltu a phartneriaeth gyda chyflogwyr a Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i gynyddu potensial data'r gweithlu a'r farchnad lafur i gefnogi cwsmeriaid a phartneriaid. Ymhlith data'r LMI y gellid cael ato drwy'r hyb data y mae gwybodaeth am swyddi a chyrsiau yn ôl ardal, a data cyfanredol tebyg i'r hyn sydd ar gael ar InfoBaseCyrmu[29] ar lefelau cyflogaeth a chymwysterau sector fesul rhanbarth daearyddol.

5.14 Hefyd, byddai angen datblygwr system a dadansoddwyr data i gefnogi'r gwaith hwn. Byddai'r cyfrifoldebau'n cynnwys nodi'n glir yr anghenion data ar gyfer sefydliadau partner, galluogi mynediad, cynhyrchu adroddiadau gwybodaeth a dealltwriaeth yn ogystal â gwerthuso a gweithio i gefnogi systemau sydd wedi'u cysoni. Yn ychwanegol at waith timau TG, MIS ac ansawdd a chynllunio yn Gyrfa Cymru, byddai'r rolau hyn yn galluogi asesiadau ansawdd, yn asesu anghenion ar draws sefydliadau, ac yn sicrhau bod dulliau rhannu ac amserlennu yn briodol. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried yr amrywiaeth a'r materion cydnawsedd a nodwyd mewn casglu a storio data ar draws sefydliadau partner. Byddai asesu

[29] InfoBaseCymru

ansawdd data yn galluogi Gyrfa Cymru i rannu allbynnau'n hyderus, rheoli risg a gwneud gwelliannau wrth i waith yn y maes hwn ddatblygu. Byddai'r rolau hyn hefyd yn galluogi gwaith ar ddadansoddiadau segmentu, a chynhyrchu adroddiadau, a dangosfyrddau i gefnogi darpariaeth, y tu hwnt i'r adroddiadau gweithredol y mae'r tîm MIS yn eu cynhyrchu ar hyn o bryd. Byddai gan rolau canol gyfrifoldebau tuag at weinyddu data arferol, gwirio ansawdd a chynnig cymorth i bartneriaid.

5.15 Mae hefyd angen ystyried effeithiau gweithredol ar sefydliadau partner o ran eu sgiliau, eu gallu a'u hadnoddau i ddarparu data a defnyddio hyn yn effeithiol. Byddai cydweithrediad a chefnogaeth gan ALlau ac eraill yn hanfodol o ystyried y tebygolrwydd o waith ychwanegol i ystyried capasiti ar gyfer datblygu seilwaith a rheoli data (llif, storio, prosesu a dadansoddi data), a gweithredu hynny. Cyfrifoldeb allweddol uwch arweinydd fyddai rheoli cydberthnasau â phartneriaid.

5.16 Hefyd, byddai angen datblygu'r hyb data gyda chynllun clir ar gyfer cynyddu sgiliau staff a phartneriaid wrth ddefnyddio'r hyb data. Gallai adeiladu ar raglen Infuse Y Lab[30] fod yn fodel posibl ar gyfer hyn. Nod hyn yw cynyddu'r potensial i arloesi a defnyddio data o fewn Awdurdodau Lleol a sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus. Nod y rhaglen yw "canolbwyntio ar sut y gall sgiliau, offer a gwahanol ffyrdd newydd o feddwl helpu i ddatrys heriau rhanbarthol cyffredin drwy fabwysiadu dull cydweithredol. Y gobaith yw y bydd Swyddogion yn datblygu offer a dulliau newydd y gellir eu defnyddio i wella'r modd y darperir gwasanaethau yn y dyfodol – gan greu arbedion effeithlonrwydd, arbed arian neu wella effaith darparu gwasanaethau i'r bobl sy'n eu defnyddio a'u cyflwyno." Darperir y rhaglen gan academyddion Prifysgol Caerdydd, gyda chymorth Nesta, a gellir ei theilwra i anghenion neu faterion rhanbarthol penodol. Gallai cynllun o'r fath ddarparu hyfforddiant ar ddibenion rhannu a dadansoddi data, systemau data a chynnig cymorth ymarferol i ddefnyddio technegau dadansoddol. Byddai rhaglen gyfathrebu a hyfforddiant o fudd hefyd o ran ymgorffori defnydd effeithiol a phriodol o ddata a chynyddu effaith.

*Economaidd*

5.17 Bydd mwy o gyfrifoldeb i reoli, sicrhau ansawdd a dadansoddi data yn galw am fuddsoddiad. Mae seilwaith ar waith o fewn Gyrfa Cymru, ond byddai costau'n

[30] Infuse Y Lab

gysylltiedig â'r staffio ychwanegol y byddai ei angen o fewn Gyrfa Cymru a thrwyddedau Power BI, sy'n cefnogi mynediad effeithiol at ddata a’i ddadansoddi a’i reoli’n effeithiol. Mae costau posibl hefyd darparu hyfforddiant a chostau i bartneriaid i gefnogi llif data.

5.18 Oherwydd nifer fach o staff sy'n ymwneud â rheoli a chaffael data yn Gyrfa Cymru, awgrymir y dylid creu rolau newydd i hwyluso cydlynu strategol ar draws partneriaid, datblygu systemau a phrosesau ar gyfer rhannu data arferol, a chefnogi darpariaeth data o ansawdd. Gallai cyflwyno 5 rôl ychwanegol gostio tua £230,000 y flwyddyn. Amlinellir costau posibl, fel y’u trafodwyd gyda Gyrfa Cymru, yn Nhabl 5.3. Gellid cynyddu nifer y staff yn raddol wrth i’r hyb data ddod yn rhan annatod o arferion. Byddai gweinyddwyr data yn cynnal a chadw'r mannau data cyffredin o ddydd i ddydd ac yn cydgysylltu â phartneriaid i sicrhau ansawdd y data. Byddai angen cynnal trafodaethau pellach yn fewnol yn Gyrfa Cymru i amlinellu'n llawn y cyfrifoldebau y byddai angen eu cyflawni; darperir y wybodaeth hon fel arwydd yn unig.

**Tabl 5.2: Costau blynyddol rôl bosibl**

| Rôl | Cyflog | Cyflog gan gynnwys argostau |
|---|---|---|
| Arweinydd Strategol | £48,600 | £61,722 |
| Dadansoddwr Data | £48,600 | £61,722 |
| Datblygwr System | £34,100 | £43,307 |
| Gweinyddwr Data | £25,000 | £31,650 |
| Gweinyddwr Data | £25,000 | £31,650 |
| Cyfanswm | | £230,051 |

Ffynhonnell: Gyrfa Cymru

5.19 Byddai costau trwyddedau yn sylweddol hefyd. Byddai angen cynyddu'r 104 o drwyddedau Power BI presennol a ddarperir i bartneriaid allanol (Cydlynwyr Ymgysylltu a Datblygu yn bennaf a swyddogion cyflogadwyedd mewn ALlau) yn enwedig er mwyn caniatáu mynediad i ysgolion a darparwyr AB. Drwy ddarparu mynediad i ysgolion a darparwyr AB, bydd y sefydliadau hyn yn cael mynediad at wybodaeth am ddyheadau a chymhellion gyrfaoedd o Wirio Gyrfa, ac LMI a all lywio'r ddarpariaeth. Amlinellir y costau amcangyfrifedig yn Nhabl 5.3. Mae'r amcangyfrifon hyn yn seiliedig ar gostau a ddarparwyd gan Gyrfa Cymru. Rhagdybir y byddai mynediad gan un arweinydd ym mhob ysgol a gynhelir a choleg AB yng Nghymru, ac y byddai'r ddarpariaeth i ALlau yn parhau yn ôl y niferoedd presennol. Efallai y bydd rhesymau dilys dros gynyddu mynediad i fwy o staff neu sefydliadau eraill. Gallai partneriaid eraill, er enghraifft y rhai mewn Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, hefyd nodi rolau priodol a allai ddefnyddio'r data. Mae'r costau yma hefyd yn dibynnu ar y math o drwydded a ddarperir i unigolion, efallai y byddai trwyddedau llawn yn well i rai defnyddwyr ac nid i eraill. Felly, dylid ystyried mai’r gwerth isaf yw cyfanswm y costau ar gyfer trwyddedau Tîm. Dylid ystyried costau trwydded llawn fel arwydd o’r uchafswm, er y gallai'r dull a fabwysiadir a'r niferoedd sy’n cael mynediad gynyddu’r costau hyn. Gellid lleihau costau pe bai Gyrfa Cymru yn archwilio'r potensial o gael trwydded capasiti, sy'n

caniatáu i ddata Azure/Atlas gael ei wreiddio mewn gweithle, ac apiau a reolir gan weinyddwyr defnyddwyr Pro.

**Tabl 5.3: Amcangyfrifon o gostau trwyddedau**

| Partner | Nifer | Trwydded Tîm (£10 y defnyddiwr y mis) | Trwydded Pro (£46 y defnyddiwr y mis) |
|---|---|---|---|
| Ysgolion | 182 | £1,820 y mis | £8,372 |
| AB | 13 | £130 | £598 |
| ALlau | 104 | £1,040 | £4,748 |
| Cyfanswm y mis | 245 | £4,030 | £13,753 |
| Cyfanswm y flwyddyn | - | £48,360 | £165,306 |

Ffynhonnell: Cyfweliadau Gyrfa Cymru

5.20 Efallai hefyd y bydd angen adnoddau o fewn sefydliadau partner i wella systemau data a darparu data. (Roedd yr asesiadau hyn y tu hwnt i gwmpas y prosiect hwn oherwydd amser ac adnoddau cyfyngedig; rhagwelir y bydd hyn yn agwedd allweddol ar rôl yr arweinydd strategol).

*Technegol*

5.21 Byddai angen gwneud cryn dipyn o waith i archwilio'r dull gorau o drwyddedu partneriaid, ond y pwynt technegol allweddol fydd datblygu gweithleoedd, dangosfyrddau ac apiau sy'n cynnwys yr holl wybodaeth, lefelau mynediad a chaniatâd priodol.

Mae Azure, MS Dynamics, Atlas a Power BI yn cynnig adnodd pwerus i wneud y mwyaf o ddata. Azure, sef warws y data, yw'r ystorfa ganolog ar gyfer data. Mae MS Dynamics yn caniatáu i ddata gael ei goladu o wahanol feddalwedd, megis cronfa ddata Atlas, ac mae Power BI yn darparu mynediad i ddelweddau, dangosfyrddau a'r data ei hun. Yn ddiddorol, gall MS Dynamics a Power BI dynnu data o nifer o wahanol ffynonellau. Felly, gallai Gyrfa Cymru ymchwilio i'r

posibilrwydd o dynnu data o systemau partneriaid allanol ac awtomeiddio'r broses hon er mwyn lleihau baich darparu data.

*Cyfreithiol*

5.22 Trwy sail gyfreithlon GDPR y DU, gall Gyrfa Cymru gael mynediad at ddata tasg gyhoeddus ar gyfer data, a chael cyfle i ofyn am ganiatâd gan y rhai sy’n 24 oed ac yn hŷn. Bydd angen i Gyrfa Cymru barhau gyda Chytundebau Rhannu Data a WASPI i gael mynediad at ddata ar lefel unigol a gwybodaeth gan bartneriaid. Fodd bynnag, gallai Gyrfa Cymru a Llywodraeth Cymru weithio gyda'i gilydd i newid datganiad preifatrwydd LLWR i gynnwys rhannu data gyda Gyrfa Cymru ar gyfer unigolion nad ydynt eisoes o fewn CRM Gyrfa Cymru, ac i ystyried cwmpas deddfwriaeth ar gyfer pobl dros 18 oed lle gallai rhannu data fod yn hanfodol i lwyddiant prosiectau fel y Warant i Bobl Ifanc. Gallai'r broses o weithredu’r Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil effeithio ar hyn, a dylid ei fonitro'n ofalus. Byddai cyfyngiadau ar ôl-ddefnydd, er enghraifft dim ond ar ôl ceisio caniatâd i amrywio'r defnydd y gellid defnyddio data hanesyddol. Ar gyfer YEPF a grwpiau hŷn, mae rôl porthgeidwad Cymru'n Gweithio yn darparu sail dda ar gyfer rhannu data.

5.23 Dylai Gyrfa Cymru hefyd drafod mynediad at ddata cofrestru, pwnc a chanlyniadau gydag UCAS a HESA, gan fod darpariaethau cyfreithiol ar gyfer mynediad at ddiben darparu cymorth, fel y trafodir yn Adran 3. Gall ymchwilwyr sy'n dymuno defnyddio data wneud hynny drwy gael gafael ar ddata dienw o fewn Gwasanaeth Ymchwil Diogel y Swyddfa Ystadegau Gwladol ac, ar gyfer Cymru, drwy fanc data SAIL. Efallai y bydd costau ynghlwm wrth gael mynediad at ddata UCAS a HESA a byddai angen archwilio hynny ymhellach.

*Amserlennu*

5.24 Rhagwelir y byddai datblygu hyb data yn cymryd o leiaf 24 i 36 mis. Yn ystod y 12-18 mis cyntaf, byddai angen i reolwyr Gyrfa Cymru sicrhau neu ddyrannu cyllid, datblygu cynllun gweithredu, cyflogi staff newydd a chyd-ddylunio systemau, prosesau a meddalwedd mewnol gyda phartneriaid. Hefyd, byddai’n ddoeth cynnal ymgynghoriadau ynghylch union natur dyluniad yr hyb data. Yn y cyfnod canlynol, dylai Gyrfa Cymru ddechrau gweithredu cynlluniau, sicrhau cytundebau a dogfennau angenrheidiol, datblygu a gwirio systemau a dechrau treialu'r system gyda defnyddwyr presennol. Byddai angen cytundebau ar fformatau a dosbarthiadau data er mwyn sicrhau bod systemau'n cael eu cysoni, sy'n caniatáu

am gydgrynhoi a chymharu ar draws gwahanol bartneriaid, sy’n broses heriol. Ar ôl i gymhlethdodau mynediad cyfreithiol a seilwaith a fformat data gael eu trafod a'u sicrhau, gallai Gyrfa Cymru ddechrau ystyried ymgysylltu, cyfathrebu a hyfforddiant teilwredig yn fewnol fewnol ac yn allanol. Ar ôl gweithredu, dylai Gyrfa Cymru gynnal archwiliad o adnoddau a'r defnydd o'r hyb data, yn fewnol a chan bartneriaid.

**Opsiwn 3: Hyb Data a Mwy**

5.25 Mae'r opsiwn hwn nid yn unig yn darparu mynediad er mwyn gweld data, byddai hefyd yn galluogi defnyddwyr trwyddedig i ychwanegu neu ddiweddaru data. Gellir monitro ac archwilio'r camau a gymerir gan ddefnyddwyr trwyddedig a ganiateir. Byddai rôl gweinyddwyr data yn bwysig o ran cefnogi'r gwaith hwn. Diben darparu mynediad at y data sylfaenol fyddai gwella cywirdeb y data a galluogi anghenion i gael eu nodi’n gynnar er mwyn targedu ymyriadau.

*Gweithredol*

5.26 Byddai'r Hyb Data a Mwy yn gweithredu fel yr Hyb Data, ond byddai'n cynyddu cyfraniad sefydliadau allanol drwy ychwanegu neu ddiweddaru data. Yn dibynnu ar werthusiad o lwyddiant yr Hyb Data, byddai’r Hyb Data a Mwy yn dod yn fwy o ystorfa ddata ganolog i bob partner.

*Economaidd*

Byddai angen adnoddau gweithwyr i ddiweddaru caniatâd mynediad, efallai creu meysydd newydd i ddefnyddwyr neu sefydliadau penodol, a monitro hyn gydag amser. Fel rhan o’r gwerthusiad o weithredu’r Hyb Data, dylai Gyrfa Cymru asesu a oes angen adnoddau pellach i gefnogi gwell mynediad. Unwaith eto, mae'n debygol y byddai angen hyfforddiant i sicrhau defnydd cywir a phriodol.

*Technegol*

5.27 Byddai datblygiadau technegol yn canolbwyntio ar ddiweddaru caniatâd er mwyn rhoi’r mynediad cywir i'r meysydd data priodol. Ni fyddai angen y math hwn o fynediad ar bob defnyddiwr trwyddedig. Byddai angen i drafodaethau rhwng Gyrfa Cymru a phartneriaid gyfiawnhau mynediad ar gyfer rolau penodol.

*Cyfreithiol*

5.28 Cyn gweithredu, dylid asesiadau o'r seiliau cyfreithiol dros newid data o fewn Power BI gael eu hailasesu gan fod newidiadau yn debygol o ganlyniad i ddeddfwriaeth arfaethedig.

*Amserlennu*

5.29 Dylid creu cynlluniau ac amserlenni ychwanegol i baratoi mynediad ac chyflawni hyfforddiant. Disgwylir i hyn gymryd tua 6 mis i'w wireddu.

**Opsiwn 4: Porth Hyb Data**

5.30 Yn y cyfweliadau, codwyd angen am well gwasanaethau digidol sy'n cefnogi ymagweddau cydlynedig a chyfunol at addysg a chymorth cyflogadwyedd, yn enwedig gan gyfranogwyr o ALlau. Yn aml, nid oes gan gwsmeriaid Gyrfa Cymru sydd â'r rhwystrau mwyaf cymhleth fynediad er mwyn cadw cofnodion, storio dogfennau, a rheoli ymgysylltiad â gwasanaethau. Gallai Porth Hyb Data gefnogi'r angen hwn, yn ogystal â rhoi potensial i gwsmeriaid adolygu eu data eu hunain a chyfrannu at reoli ansawdd data.

5.31 O fewn Porth Hyb Data, byddai unigolion yng Nghymru’n gallu mynd at fannau penodol a fyddai'n eu galluogi i:

- Adolygu cofnodion a gedwir gan Gyrfa Cymru o ran manylion cyswllt, cymwysterau/hyfforddiant, ymgysylltiadau ac atgyfeiriadau.
- Rhoi gwybod i Gyrfa Cymru am newidiadau
- Lanlwytho cofnodion/tystysgrifau hyfforddiant neu ddogfennau perthnasol eraill

*Gweithredol*

5.32 Dylid archwilio’r angen am wasanaeth o’r fath ymhellach gyda phartneriaid. Dylai hyn asesu a yw'r gwasanaeth hwn yn fuddiol ac a ddylai Gyrfa Cymru neu sefydliadau eraill ei gynnig. Y prif effaith weithredol a ragwelir fyddai creu tasgau a allai gael eu harwain gan staff sy'n canolbwyntio ar Ddata, yn ymwneud â datblygu systemau, cynnal a chadw data a gwiriadau.

5.33 Mantais cyflwyno porth yw y byddai'n bosibl olrhain hyfforddiant a chyflogaeth ymhellach, gan helpu i leihau problemau sy'n gysylltiedig â data coll, gan roi darlun o deithiau addysgol a chyflogaeth unigolion lle nad yw mynediad i ddata’r ysgol

neu ddata arall ar gael. Fodd bynnag, byddai hyn yn dibynnu ar gwsmeriaid yn diweddaru'r wybodaeth

*Economaidd*

5.34 Yn economaidd, efallai y bydd angen buddsoddiad pellach mewn staffio i ddatblygu systemau, cynnal a chadw a sicrhau ansawdd.

*Technegol*

5.35 Byddai angen i Gyrfa Cymru ganiatáu i unigolion gofrestru ar ei wefan. Felly, byddai angen i Gyrfa Cymru ddatblygu'r systemau cefndir a'r seilwaith ar gyfer porth. Gallai datblygwr systemau'r hyb data wneud y gwaith hwn.

*Cyfreithiol*

5.36 Byddai angen datblygu datganiad preifatrwydd i roi gwybod i gwsmeriaid am ddefnydd data, a byddai angen cael caniatâd wrth gofrestru gan y byddai hon yn ffynhonnell ddata newydd, wedi'i rheoli gan Gyrfa Cymru ac nad yw'n dod o dan ddeddfwriaeth bresennol.

5.37 *Amserlennu*

Unwaith eto, byddai amcangyfrif o'r amserlenni ar gyfer datblygu yn debyg i'r amserlenni ar gyfer yr Hyb Data. Byddai angen i Gyrfa Cymru ymgysylltu â chwsmeriaid a phartneriaid i asesu anghenion a datblygu systemau. Dim ond ar ôl i brif nodau'r Hyb Data weithio'n effeithiol yn ymarferol y dylid archwilio'r opsiwn hwn.

**Opsiwn 5: Gwasanaethau Ymchwil Diogel**

5.38 Mae nifer o Wasanaethau Ymchwil Diogel ar waith a all gefnogi mynediad at ffynonellau data gweinyddol. Fel y trafodwyd yn Adran 4, mae Gyrfa Cymru eisoes yn ymgysylltu ag ymchwilwyr ADR sy'n ymgymryd â gwaith dadansoddi yng nghronfa ddata SAIL. Fodd bynnag, mae labordai ymchwil diogel eraill yn bodoli sy'n cynnig llwybrau ymchwil eraill. Yma, rydym yn ystyried manteision defnyddio SAIL a labordy Data Cyflogaeth yr Adran Gwaith a Phensiynau. Nid yw'r un o'r gwasanaethau ymchwil diogel hyn yn darparu mynediad at ddata sy'n galluogi adnabod unigolion, maent yn defnyddio data gydag elfennau adnabod wedi'u dileu ac mae ganddynt weithdrefnau sy'n lleihau risg adnabod unigolion neu risg niwed iddynt.

### Banc data SAIL

5.39 Mae Banc Data SAIL, sy'n cael ei weithredu gan Brifysgol Abertawe, yn cynnig mynediad wedi'i ddiogelu at ddata anhysbys y boblogaeth mewn amgylchedd diogel er mwyn cynnal dadansoddiad ymchwil sy'n rheoli risgiau preifatrwydd, ac mae gan brosesau a seilwaith ardystiad ISO 27001. Mae SAIL yn defnyddio amgylcheddau Platfform e-Ymchwil Diogel (SeRP) i roi mynediad at ddata pan fydd prosiect wedi'i gymeradwyo.[31] Amlinellir y data a gedwir yn SAIL yn Asset Manager[32] ac, yn fras, mae'n cynnwys data gweinyddol ar boblogaeth Cymru gan gynnwys data iechyd, data cyfiawnder teuluol a data gweinyddol. Mae data gweinyddol yn cynnwys data addysg (addysg orfodol hyd at AU), data ar Blant sy'n Derbyn Gofal, data cwsmeriaid Gyrfa Cymru a Gwirio Gyrfa, a Chyfrifiad 2011.

5.40 Mae proses ymgeisio ar gyfer SAIL a rhaid i ymgeiswyr nodi nodau'r prosiect, manylu ar yr anghenion data, y dadansoddiad ac allbynnau posibl, yn ogystal â thystiolaeth o fudd i'r cyhoedd. Adolygir y cais hwn gan banel llywodraethu sydd â'r pŵer i gymeradwyo neu wrthod cynigion. Mae gan berchnogion data yr hawl i wrthod caniatâd i ddefnyddio'r data am unrhyw reswm. Ar ôl cymeradwyo prosiect, rhoddir y data mewn ffolder prosiect y mae ymchwilwyr (sydd wedi cwblhau hyfforddiant cymeradwy ar ddiogelu data a datgelu data) yn cael mynediad ato trwy fwrdd gwaith rhithwir. Caiff allbynnau'r dadansoddiad eu gwirio a'u clirio gan dimau datgelu SAIL i sicrhau bod cyn lleied o botensial â phosibl i adnabod unigolion yn a bod allbynnau'n cydymffurfio â rheolau SAIL.

5.41 Yn economaidd, mae costau'n gysylltiedig â chael mynediad i SAIL sy'n galluogi SAIL i ddarparu cymorth yn ystod prosesau ymgeisio ac ynghylch rheoli data a seilwaith (nid yw'n dâl am ddefnyddio'r data). Mae'r costau'n amrywio yn dibynnu ar fanylebau prosiect, megis nifer y setiau data, nifer y bobl sy'n defnyddio'r data, hyd y prosiect, cymhlethdod darparu'r data ac anghenion seilwaith megis y feddalwedd sydd ei hangen a RAM neu bŵer prosesu[33].

5.42 Mae'r data a gedwir yn SAIL yn rhoi cyfle i ymgymryd ag ymchwil ar ddata gydag elfennau adnabod wedi'u dileu er mwyn archwilio tueddiadau ym meysydd polisi allweddol iechyd, addysg, cyfarwyddyd gyrfaoedd a chyfiawnder teuluol. Mae

---

[31] Mae SeRP Llywodraeth Cymru yn cael ei gadw yn SAIL sy'n cael ei ddefnyddio at ddiben dadansoddi nad oes angen data cysylltiedig arno ac nad oes ganddo fynediad at yr ystod o ffynonellau data sydd ar gael yn SAIL. Nid yw'n ymddangos bod hwn yn llwybr addas i Gyrfa Cymru ei ddilyn.

[32] Chwiliad asedau data SAIL

[33] Gellir gofyn am bolisi codi tâl SAIL drwy gysylltu â SAIL

amgylchedd y labordy yn darparu mynediad at setiau data parod i'w dadansoddi a meddalwedd ystadegau i gefnogi gwerthusiadau a dadansoddi data.

**Labordy Data Cyflogaeth yr Adran Gwaith a Phensiynau**

5.43 Mae Labordy Data Cyflogaeth yr Adran Gwaith a Phensiynau (a drafodir yn Adran 4) yn caniatáu i ddata sefydliadol gael ei gysylltu â data CThEM, yr Adran Addysg a Sgiliau a'r Adran Gwaith a Phensiynau er mwyn gallu asesu canlyniadau cyflogadwyedd ac ymyriadau cyflogaeth. Ar wahân i gynnig y potensial i gysylltu â data sy'n anodd iawn cael ato drwy ddulliau eraill, mae'r Labordy Data Cyflogaeth yn caniatáu am ddadansoddiad gwrth-ffeithiol. Mae'r dechneg hon yn defnyddio nodweddion unigolion sy'n derbyn ymyriad ac yn dewis sampl â nodweddion tebyg nad ydynt wedi derbyn ymyriad. Drwy gymharu canlyniadau'r ddau grŵp, gellir llunio barn am effaith ymyriad.

5.44 Yn wahanol i SAIL, gwasanaeth dadansoddol yw'r Labordy Data. Mae unigolion neu sefydliadau yn anfon eu data'n ddiogel i'r labordy data, sydd yna'n cael ei gysylltu â data'r Adran Gwaith a Phensiynau. Yna, byddai tîm yn y labordy data yn cynnal dadansoddiad, dan gyfarwyddyd gweithwyr Gyrfa Cymru. Ar ôl cwblhau'r dadansoddiad, byddai Gyrfa Cymru yn cael canlyniadau nad ydynt yn cynnwys unrhyw ddata adnabyddadwy, ond sy'n deillio o ddadansoddiad ystadegol sy'n cydymffurfio â rheolau datgelu'r labordy.

**Ddichonoldeb**

5.45 Mae'r gwasanaethau data yn hwyluso mynediad at ddata i ategu gwerthusiadau. Gall data gweinyddol ddarparu mynediad at adnoddau sy'n anodd eu cael fel arall; mae hyn yn arbennig o wir am ddata iechyd, enillion neu'r Cyfrifiad. Cynigiant y gallu i archwilio tueddiadau a chysylltiadau a gwneud ymchwil gwrth-ffeithiol.

5.46 Mae cyfyngiadau defnyddio cyfleusterau o'r fath yn cynnwys amserlenni. Gall prosesau ymgeisio gymryd nifer o fisoedd i'w cwblhau. Gall paratoi data gymryd amser hefyd. Gall darparu data, yn enwedig wrth brosesu data newydd, fod yn hirfaith, yn enwedig lle y mae angen i swyddogaethau a chyhoeddiadau'r llywodraeth ddigwydd cyn caniatáu mynediad at ddibenion ymchwil, neu lle nad yw rhannu data yn flaenoriaeth. Yn achos Gyrfa Cymru, mae hyn yn golygu nad yw gwasanaethau mynediad at ddata yn addas ar gyfer dadansoddi 'amser real', na nodi unigolion y mae angen cymorth arnynt. Fodd bynnag, gall roi mynediad at

ddata sy'n caniatáu am segmentu ar draws nifer o wahanol nodweddion, neu fynediad at ffynonellau data nad ydynt ar gael fel arall.

5.47 Gall dibynnu ar gasglu data gweinyddol olygu hefyd nad yw eitemau data mor gywir ag y gallai fod eu hangen ar gyfer amcan dadansoddol penodol. Hefyd, gall data gael ei newid neu ei ddileu o gasgliadau. Er enghraifft, yn ystod blwyddyn academaidd 2020/21, newidiwyd y ffordd o adrodd data presenoldeb disgyblion rhoddwyd y gorau i rai casgliadau; ni newidiwyd statws disgyblion o ran PYDd os nad oeddent bellach yn gymwys er mwyn sicrhau na chafodd effeithiau niweidiol pandemig Covid-19 ar ddisgyblion difreintiedig eu gwaethygu. Yn ogystal, ym mis Rhagfyr 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai prydau ysgol am ddim ar gael i bob disgybl ysgol gynradd – gan atal casglu statws PYDd yn y blynyddoedd cynradd. Gallai newidiadau o'r fath effeithio ar allu dadansoddiadau data cysylltiedig i ategu gwerthusiadau.

5.48 Ar gyfer pob gwasanaeth, mae angen i ymgeiswyr sicrhau bod y sgiliau a'r gallu dadansoddol ystadegol gofynnol ar waith i gynnal dadansoddiad yn SAIL ac i ddadansoddi'n uniongyrchol ar gyfer y Labordy Data Cyflogaeth.

5.49 Ni chodir tâl am ddefnyddio Labordy Data Cyflogaeth yr Adran Gwaith a Phensiynau. Mae cronfa ddata SAIL yn codi tâl.

**Opsiwn 6: Partneriaethau**

5.50 Gall partneriaethau academaidd gefnogi'r gwaith ymchwil a gwerthuso gwasanaethau a pholisi. Gallant gynnig mynediad at sgiliau ac arbenigedd dadansoddol ar gyfer gwerthuso Ymyriadau'r Farchnad Lafur nad ydynt efallai'n ymarferol i'w cynnal yn fewnol. Byddai partneriaethau o'r fath yn bwysig yn y cam dylunio er mwyn sicrhau bod unrhyw blatfform data yn cynnwys data a oedd yn addas i'w werthuso a'i ddadansoddi. Mae Gyrfa Cymru eisoes wedi cymryd camau i ymgysylltu ag academyddion i ystyried cwestiynau busnes allweddol a datblygiadau arloesol mewn gwasanaethau. Ar hyn o bryd, mae Gyrfa Cymru yn gweithio gydag academyddion ym Mhrifysgol Caerdydd i archwilio potensial data gweinyddol, ac mae ymchwilwyr Ymchwil Data Gweinyddol (ADR) yn gweithio ar gysylltu data cwsmeriaid a'r arolwg Gwirio Gyrfa â data gweinyddol addysg o fewn banc data SAIL.

5.51 Yn ogystal, mae nifer o lwybrau eraill y gallai Gyrfa Cymru eu dilyn a allai gynnig cymorth ariannol neu sgiliau dadansoddi neu sgiliau eraill. Mae'r ddarpariaeth yn

amrywio, gyda rhai cynlluniau'n gofyn am gyllid gan sefydliadau ac eraill ddim, lefelau ariannu amrywiol, gydag amserlenni a nodau amrywiol. Caiff enghreifftiau o rai ffrydiau ariannu posibl eu crynhoi yn Nhabl 5.4 isod.

**Tabl 5.4: Nodweddion Allweddol Cyfleoedd Ariannu Ymchwil y DU**

| Cynllun | Canolbwynt | Math | Cyllid | Hyd |
|---|---|---|---|---|
| Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth Innovate UK | Cefnogi busnes i arloesi drwy weithio mewn partneriaeth â gweithwyr proffesiynol academaidd neu ymchwil | Ariannu ar y cyd, y busnes yn ariannu rhwng traean a hanner, gyda'r gweddill gan UKRI | Hyd at £60,000 y flwyddyn | 12 i 36 mis |
| Partneriaethau, Hyfforddiant Doethurol, e.e. Dadansoddeg Data a Chymdeithas CDT | PhD ac MSc Integredig mewn Dadansoddeg Data a Chymdeithas i ddatblygu setiau data hydredol economaidd-gymdeithasol a dadansoddeg data mawr | UKRI yn eu hariannu'n llawn, ond prifysgolion unigol yn eu gweithredu | Hyd at £21,309 y flwyddyn | 4 blynedd |
| Cyfrif Cyflymu Effaith | Cydweithio dan arweiniad ymchwilydd gyda busnesau i gefnogi effaith fuddiol | UKRI yn eu hariannu'n llawn, ond prifysgolion unigol yn eu gweithredu | Rhwng ychydig gannoedd hyd at £10,000 | Amrywiol, llai na 12 mis fel arfer |
| Grantiau Ymchwilwyr Newydd, | Cefnogi ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa i arwain prosiectau annibynnol yn y gwyddorau cymdeithasol | Cais gan academyddion, ond caiff cydweithio ac astudiaethau rhyngwladol eu hannog | Rhwng £100,000 a £300,000 | Hyd at 5 mlynedd |
| Menter Dadansoddi Data Eilaidd (SDAI) | Dadansoddiad o adnoddau data presennol yn y gwyddorau cymdeithasol | Ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa ac ymchwilwyr profedig mewn sefydliad ymchwil neu brifysgol | Hyd at £300,000 | Hyd at 2 flynedd |
| Grantiau Ymchwil Agored | | Ymchwilwyr mewn sefydliad ymchwil neu brifysgol | O £350,000 hyd at £1miliwn | Hyd at 5 mlynedd |

5.52 Yn ogystal â'r cyllid ar lefel y DU a amlinellir yn Nhabl XX, mae gan brifysgolion gynlluniau eraill a allai helpu Gyrfa Cymru i ddatblygu tystiolaeth ac adnoddau. Er enghraifft, ym Mhrifysgol Caerdydd mae cynllun InFuSe Y Lab (a grybwyllwyd yn gynharach), a'r Academi Gwyddor Data[34] yn cynnig cyfleoedd pellach i gefnogi uwchsgilio a phrosiectau sy'n canolbwyntio ar ddata. Mae nifer o ffynonellau cyllid posibl eraill hefyd, megis Sefydliad Joseph Rowntree, y Gymdeithas Frenhinol, y Loteri Genedlaethol, Sefydliad Nuffield ac Ymddiriedolaeth Leverhulme.

5.53 Yn weithredol, byddai angen i Gyrfa Cymru fuddsoddi amser a chefnogi staff i ymgysylltu â phartneriaid er mwyn i ganlyniadau'r llwybrau hyn fod yn fuddiol. Datblygwyd canlyniadau posibl ymchwil o'r fath sy'n seiliedig ar bartneriaethau rhwng yr ADR a Gyrfa Cymru (fel y dangosir yn Adrannau 3 a 4). Yn economaidd, gall partneriaethau academaidd ddarparu naill ai potiau bach neu symiau sylweddol o gyllid, o ychydig gannoedd o bunnoedd i filiwn o bunnoedd. Bydd rhai cynlluniau'n darparu cyllid llawn ar gyfer ymchwil ond mae rhai cynlluniau hefyd yn gofyn am gyfraniadau gan bartneriaid busnes. Yn dechnegol, gallai ymgysylltu â chynlluniau fel yr Academi Gwyddor Data arwain at ddatblygiadau mewn systemau neu arferion sefydliad. O ran amserlennu, mae partneriaethau academaidd yn aml yn rhai hirdymor eu natur a gall cylchoedd ariannu a therfynau amser eu cyfyngu'n aml. Er mwyn mynd ar drywydd y llwybrau hyn, mae'n bwysig felly cael disgwyliadau realistig a chynllunio a pharatoi ymlaen llaw i ymateb i alwadau ariannu.

[34] Academi gwyddor data, Prifysgol Caerdydd

## 6. Argymhellion

6.1 Nod yr ymchwil hon oedd asesu pa mor ymarferol yw hi i Gyrfa Cymru "fod yn ‘hyb data’ ar gyfer materion sy'n ymwneud â gyrfaoedd” ac a allai hyn gefnogi “penderfyniadau ar sail tystiolaeth gan lunwyr polisïau”. Yn gyntaf, mae Gyrfa Cymru wedi cymryd camau sylweddol i wella cwmpas eu data a'u mynediad at ddata ar ôl i gyflwyno deddfwriaeth GDPR y DU effeithio ar ei allu i gaffael data sy'n cynrychioli'n genedlaethol i lywio'r broses o wneud penderfyniadau sefydliadol a darparu gwasanaethau. Mae ein hadolygiad o'r amgylchedd deddfwriaethol yn dangos cymhlethdod enfawr ac, ar adegau, diffyg tryloywder y trefniadau cyfreithiol presennol. Daw dau broblem ganolog o hyn: 1) data coll ar ddisgyblion ysgol a allai helpu Gyrfa Cymru i lywio CIAG, trefnu neu werthuso darpariaeth; a 2) yr anhawster wrth olrhain canlyniadau CIAG. Mae nifer o gyfyngiadau’n perthyn i gynnal y defnydd presennol ar ddata, fodd bynnag, bydd angen buddsoddiad sylweddol yn adnoddau a systemau Gyrfa Cymru i gefnogi'r defnydd mwy effeithiol o ddata. Bydd hefyd yn dibynnu ar gydweithrediad a phartneriaeth sylweddol â sefydliadau eraill.

6.2 Mae'r dystiolaeth a ystyriwyd yn yr adroddiad hwn yn awgrymu y byddai'n briodol ac yn ymarferol gweithredu dull graddol o fabwysiadu Opsiynau 2 a 3, dros gyfnod o ryw 3 blynedd, ond y bydd ar hyn angen cydlynu ac ymrwymiad sylweddol gan bob partner.

6.3 Tasgau allweddol fyddai:

- sicrhau buddsoddiad ar gyfer swyddi ychwanegol
- ymarfer ymgynghori ynghylch cynnwys, cwmpas ac ymarferoldeb yr hyb data
- sicrhau bod hysbysiadau preifatrwydd (yn fewnol ac yn allanol) yn adlewyrchu defnydd, rheolaeth a gweithrediadau rhannu. Bod sefydliadau partner yr YPG, YEPF a Cymru’n Gweithio yn adolygu'r gofynion ar gyfer adnoddau i gefnogi’r gwaith o gydlynu arferion casglu a rhannu data (megis sicrhau bod cydsyniad i rannu data adeg atgyfeirio neu fynediad at ymyriadau hefyd yn caniatáu i wybodaeth am ganlyniadau lifo'n ôl i Gyrfa Cymru)

- cydlynu gweithgarwch gyda phartneriaid. Gall hyn gynnwys asesiad o sut y caiff data eu cofnodi er mwyn sicrhau cysondeb a chymharedd
- datblygu rhaglenni ar y we o fewn Power Bi i gefnogi mynediad ac adroddiadau
- asesu a hwyluso hyfforddiant o fewn Gyrfa Cymru ac yn allanol

6.4 Byddem yn cynghori bod cynnydd ac effaith unrhyw newidiadau yn cael eu gwerthuso pan fyddant wedi'u sefydlu. Ar ôl gwerthuso'n llwyddiannus, gellid ystyried Opsiwn 4 ymhellach, gan werthuso anghenion cwsmeriaid, rhwystrau a manteision. Efallai fod ALlau mewn sefyllfa well i greu pyrth, ond gallent ddefnyddio Power Bi i dynnu gwybodaeth o'r systemau hyn lle darperir cydsyniad neu lle mae llwybrau cyfreithiol ar gael.

6.5 Hefyd, dylai Gyrfa Cymru barhau i ymgysylltu â gwasanaethau ymchwil diogel a phartneriaeth academaidd (Opsiynau 5 a 6) a datblygu'r defnydd ohonynt ymhellach. Mae partneriaeth ADR wedi bod yn ffordd fuddiol o archwilio effaith gwasanaethau Gyrfa Cymru ac mae wedi dangos y cipolygon ychwanegol y gellir eu cynhyrchu o ddadansoddi data cysylltiedig. Y cwestiwn yn awr yw, sut y gellid uwchraddio’r gweithgaredd hwn?

**Argymhellion ehangach**

6.6 Wrth symud ymlaen, mae angen hefyd i Gyrfa Cymru barhau i fonitro a dylanwadu ar yr amgylchedd deddfwriaethol. Gallai cyflwyno’r Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil a’r Ddeddf ADY, a datblygiadau mewn deddfwriaeth ar addysg ddewisol yn y cartref, effeithio ar allu Gyrfa Cymru i gael at ddata. Gallai unrhyw reoliadau yn y dyfodol ar gofrestru disgyblion sy'n cael eu haddysgu gartref gynnwys darpariaethau i ganiatáu mynediad i Gyrfa Cymru at ddata er mwyn cyflawni ei dasg gyhoeddus. Byddai darpariaeth o'r fath yn darparu llwybr cyfreithiol at fynediad at ddata, gan alluogi targedu'r grŵp anodd ei gyrraedd hwn yn fwy strwythuredig.

6.7 Mae ystyriaeth arwyddocaol wrth werthuso gweithgarwch Gyrfa Cymru yn ymwneud â'r rôl ehangach mewn asesu addasrwydd unigolion ar gyfer rhaglenni cyflogadwyedd; paru sgiliau a diddordeb â swyddi ac AHO a gwell defnydd o LMI. Hefyd, dylid gwerthuso'r fframiau codio a ddefnyddir yn nata Gyrfa Cymru i ddosbarthu diddordeb mewn gyrfaoedd (e.e. drwy'r Arolwg Gwirio Gyrfa). Dylai hyn asesu a yw categoreiddiadau Gyrfa Cymru yn cyd-fynd ai peidio â safonau

cenedlaethol neu systemau codio a ddefnyddir mewn ffynonellau data eraill. Lle nad ydynt, dylid ystyried dichonoldeb cysoni dosbarthiadau i alluogi paru haws neu i hwyluso dadansoddiad cymharol neu werthusol.

## Atodiad A: Canllaw Cyfweliadau

Defnyddiwyd y cwestiynau canlynol i lywio trafodaethau gyda chyfranogwyr y cyfweliadau. Addaswyd y cwestiynau yn dibynnu ar rôl y cyfranogwyr yn eu sefydliad.

Canllaw Cyfweliadau:

1) Allwch chi ddweud wrthyf am eich rôl?
2) Pa ymgysylltiad sydd gennych â Gyrfa Cymru?
3) Pa ddata sydd gan eich sefydliad sy'n cael ei ddefnyddio neu sydd wedi cael ei ddefnyddio gan Gyrfa Cymru?
4) Pa ddata y mae eich sefydliad yn ei ddefnyddio sydd gan Gyrfa Cymru?
5) Sut mae'r data'n cael ei rannu?
6) Pa ddatblygiadau neu newidiadau mewn perthynas â data a fyddai'n helpu i ddarparu gwasanaethau?
7) Pa rwystrau sy'n bodoli rhag rhannu data a sut y gellid eu goresgyn?
8) A oes costau neu adnoddau’n gysylltiedig â rhannu data?
9) Pa sefydliadau allai ddarparu hyb deallusrwydd data?
10) Sut y byddai hyb deallusrwydd data, dan arweiniad Gyrfa Cymru, yn effeithio ar eich gwasanaethau a'ch rhyngweithio â Gyrfa Cymru?

## Atodiad B: Daliadau data IO ac Atlas Gyrfa Cymru

| Data a gesglir ar y cwsmeriaid canlynol: | Maes IO | Enw Atlas Dynamics |
|---|---|---|
| *CWSMERIAID* | | |
| Math o gyswllt = PAWB | Teitl | Math o Gyswllt |
| | Enw Cyntaf | Teitl |
| | Enw Canol | Enw Cyntaf |
| | Adwaenir fel | Enw Canol |
| | Cyfenw | Adwaenir fel |
| | Cyfenw blaenorol | Cyfenw |
| | | Cyfenw blaenorol |
| | | Enw'r Cyfrif |
| | | Rhif Ffôn |
| | | Ffôn Symudol |
| | | Ebost |
| Math o gyswllt = cwsmer | | Ebost Hwb |
| | | Dull Cysylltu |
| | | Statws cynfyfyriwr |
| Math o gyswllt = Cyswllt Ysgol, Cyswllt Cyflogwr a Staff Gyrfa Cymru | Math o Swydd | Math o Swydd |
| | Teitl y Swydd | Teitl y Swydd |
| | Dyddiad Gorffen | Dadactifadu |
| | Dyddiad Gorffen | Dyddiad dadactifadu |
| Math o gyswllt = Staff Gyrfa Cymru | Rheolwr Tîm | Rheolwr Tîm |
| | | Sgiliau |
| | | Gwasanaethau a gyflwynwyd |
| Math o gyswllt = Cwsmer | Nodiadau Rhybudd | Nodiadau |
| | | Recordiwyd gan |
| | | Dyddiad ychwanegu |
| Math o gyswllt = Cwsmer | Dyddiad Geni | Dyddiad Geni |
| | Prif Gyswllt | Prif Gyswllt |
| | Cyswllt Allweddol | Cyswllt Allweddol |
| | Gweithiwr Proffesiynol Arweiniol | Gweithiwr Proffesiynol Arweiniol |
| | Cyfeirnod y cerdyn | Carfan |
| | ULN | Rhif Unigryw'r Dysgwr |
| | Prif Ganolfan | Canolfan |
| | Grŵp ethnig | Grŵp ethnig |
| | Rhywedd | Rhywedd |
| | Rhif YG | Rhif YG |
| | | Rhagenw |
| | | RhUD |
| | | Sianel Bwletin Swyddi Gwag |
| | | Bwletin Swyddi Gwag |
| | | Lefel Cymhwyster a Briodolwyd |
| | | Lefel Cymhwyster Wirioneddol |
| Math o gyswllt = Cwsmer | | Llinell 1 y cyfeiriad |

| | | |
|---|---|---|
| | | Llinell 2 y cyfeiriad |
| | | Llinell 3 y cyfeiriad |
| | | Llinell 4 y cyfeiriad |
| | | Llinell 5 y cyfeiriad |
| | | Cod post |
| | Cyfeiriad anghywir | Cyfeiriad anghywir |
| Math o gyswllt = Cwsmer | | GDPR a chydsyniad |
| | | Cydsyniad |
| Math o gyswllt = Cwsmer | Statws | Statws |
| | | Dyddiad dechrau |
| | | Dyddiad gorffen |
| | | Dyddiad gorffen disgwyliedig |
| | | Cyfrif |
| | | Nodiadau |
| Math o gyswllt = Cwsmer | Ysgol Bresennol | Ysgol Bresennol |
| | Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS) | Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS) |
| | | Dyddiad dechrau |
| | | Dyddiad gorffen |
| | Grŵp Tiwtor | Grŵp Tiwtor |
| | Statws | Grŵp blwyddyn |
| Math o gyswllt = Cwsmer | Categori AAA | Categori AAA |
| | Anabl | Anabl |
| | Iechyd ac Anghenion Arbennig | Iechyd ac Anghenion Arbennig |
| | | Nodiadau |
| Math o gyswllt = Cwsmer | | Amgylchiad |
| | | Dyddiad dechrau |
| | | Dyddiad gorffen |
| | | Cyfrif |
| | | Nodiadau |
| Math o gyswllt = Cwsmer | | Lefel cymhwyster |
| | | Pwnc |
| | | Dyddiad cyflawni |
| | | Gradd Wirioneddol |
| | | Gradd a Briodolwyd |
| | | Nodiadau |
| Math o gyswllt = Pawb | | Math o atodiad |
| | | Lanlwytho/dolen i sharepoint |
| | | Dyddiad atodi |
| Math o gyswllt = Cwsmer | Galwedigaeth Ddewisol 1 | Galwedigaeth Ddewisol 1 |
| | Galwedigaeth Ddewisol 2 | Galwedigaeth Ddewisol 2 |
| | Galwedigaeth Ddewisol 3 | Galwedigaeth Ddewisol 3 |
| | Galwedigaeth Ddewisol 4 | Galwedigaeth Ddewisol 4 |
| Math o gyswllt = Cwsmer | Cyrchfannau Bwriadedig 1 | Cyrchfannau Bwriadedig 1 |
| | Cyrchfannau Bwriadedig 2 | Cyrchfannau Bwriadedig 2 |
| | Cyrchfannau Bwriadedig 3 | Cyrchfannau Bwriadedig 3 |
| | Cyrchfannau Bwriadedig 4 | Cyrchfannau Bwriadedig 4 |
| Math o gyswllt = Cwsmer | | |
| Creu apwyntiad rheolaidd | | Adnodd |

| | | |
|---|---|---|
| | | Gwasanaeth |
| | | Dyddiad/Amser yr Apwyntiad |
| | | Lleoliad |
| Math o gyswllt = Pawb | | Ebost |
| | | Ffôn |
| | | Twitter |
| | | Facebook |
| | | SMS |
| | | Ebost swmp |
| | | SMS swmp |
| | | Ymgyrch Farchnata |
| | | Post |
| | Iaith ddewisol - ar lafar | Iaith ddewisol - ar lafar |
| | Iaith ddewisol - yn ysgrifenedig | Iaith ddewisol - yn ysgrifenedig |
| *CYFLOGWYR, YSGOLION AC ATI* | | |
| Math o Gyfrif = Pawb | Categori | Math o Gyfrif |
| | Is-gategori | Categori’r Cyfrif |
| | Enw | Enw'r Cyfrif |
| | SIC | SIC |
| | Nifer y Gweithwyr | Nifer y Gweithwyr |
| | | Rhif Cwmni Cofrestredig |
| | | Rhif Elusen Gofrestredig |
| Math o Gyfrif = Pawb | | |
| Math o Gyfrif = Pawb | | |
| Math o Gyfrif = Pawb | Enw Blaenorol | Enw Blaenorol y Cyfrif |
| | Enw'r Adeilad | Enw Adeilad y Cyfrif |
| | Rhif | Rhif Adeilad y Cyfrif |
| | Stryd | Stryd |
| | Ardal | Ardal |
| | Tref | Tref |
| | Sir | Sir |
| | Cod post | Cod post |
| | Ffôn | Ffôn |
| | Ffôn Arall | Ffôn Arall |
| | Ebost | Ebost |
| | Gwefan | Gwefan |
| | Ffacs | Ffacs |
| Math o Gyfrif = Sefydliadau Addysgol | AALI | AALI |
| | AdAS | Rhif LIC |
| | | Cod y Coleg |
| | | Cyfleusterau sydd ar gael |
| Math o Gyfrif = Cwmni Gyrfa Cymru | Enw Blaenorol | Enw byr - Cymraeg |
| | Enw'r Adeilad | Enw byr - Saesneg |
| | Statws Lleoliad Cymru’n Gweithio | Statws Lleoliad Cymru’n Gweithio |

| | | |
|---|---|---|
| | Cyfleusterau'r Lleoliad | Cyfleusterau'r Lleoliad |
| Math o Gyfrif = Pawb | Prif Gyswllt | Prif Gyswllt<br>Enw Cyntaf<br>Cyfenw<br>Teitl y Swydd<br>Enw'r Cyfrif<br>Ebost |
| Math o Gyfrif = Cyflogwr | Cymorth a Gynigir:<br>Meysydd a Gefnogir<br>Rhagor o fanylion<br>Grwpiau oedran:<br>Dewisiadau Iaith: | Cymorth a Gynigir:<br>Meysydd a Gefnogir<br>Rhagor o fanylion<br>Grwpiau oedran<br>Dewisiadau Iaith<br>Cymorth a Gynigir:<br>Cymhwysedd<br>Proses Atgyfeirio |
| Math o Gyfrif = Pawb | | Enw'r Swydd Wag<br>Math o swydd wag<br>Prif Gyswllt<br>Statws y Swydd Wag<br>Cyflwyniadau gan<br>SOC<br>Maes<br>Nodiadau ar y Swydd Gwag<br>Dolen i ffynhonnell allanol<br>Manylion cyflog<br>Oriau<br>Dyddiad cau |
| Math o Gyfrif = Pawb | | Math o atodiad<br>Lanlwytho/dolen i sharepoint<br>Dyddiad atodi |
| Math o Gyfrif = Pawb | | Math o Sesiwn<br>O'r dyddiad<br>Tan y dyddiad<br>Prif gyswllt<br>Math o ddigwyddiad<br>Statws y digwyddiad<br>Math o Sesiwn Grŵp<br>Pwnc y Sesiwn Grŵp<br>Cynulleidfa<br>Amcan<br>Nodiadau |
| Math o Gyfrif = Sefydliadau Addysgol | | Prif Gyswllt<br>Enw Cyntaf<br>Cyfenw<br>Teitl y Swydd |

| | | |
|---|---|---|
| | | Enw'r Cyfrif |
| | | Ebost |
| | | Statws cynfyfyriwr |
| Math o Gyfrif = Cyflogwr | Gwybodaeth EBE | Statws |
| | | Yr awdurdodau lleol y bydd y cyflogwr yn gweithio gyda nhw |
| | | Profiad gwaith |
| | | Ymweliadau â safleoedd |
| | | Gweithdai yn yr ysgol |
| | | Cyflwyniadau<br>Dyddiau diwydiant/Ffeiriau gyrfaoedd<br>Gweminarau/cyflwyniadau digidol<br>Gweithio gyda disgyblion cynradd? |
| | | A yw'r cwmni'n defnyddio ieithoedd tramor modern? |
| | | Pa iaith dramor? |
| | | A yw'r cwmni'n gweithredu yn Gymraeg? |
| | | A all y cwmni roi cyflwyniadau yn Gymraeg mewn ysgolion? |
| | | A oes gan y cwmni raglen brentisiaeth? |
| | | A all y cyflogwr gefnogi meysydd canlynol y cwricwlwm: |
| | | A oes unrhyw ysgolion penodol yr hoffai'r cyflogwr weithio gyda nhw? |
| | | Crynodeb o'r Cwmni |
| *DIGWYDDIADAU* | | |
| Math o Gyfrif = Pawb | | |
| Math o sesiwn = Pawb | | Math o Sesiwn |
| Math o sesiwn = Pawb | | O’r dyddiad |
| Math o sesiwn = Pawb | | Tan y dyddiad |
| Math o sesiwn = Pawb | | Prif gyswllt |
| Math o sesiwn = Digwyddiad | | Math o ddigwyddiad |
| Math o sesiwn = Digwyddiad | | Statws y digwyddiad |
| Math o sesiwn = Sesiwn Grŵp | | Pwnc y Sesiwn Grŵp |
| Math o sesiwn = Sesiwn Grŵp Activate | | Pwnc Sesiwn Grŵp Activate |
| Math o sesiwn = Pawb | | Cynulleidfa |
| Math o sesiwn = Pawb | | Nodiadau |
| Math o sesiwn = Pawb | | Lleoliad |
| Math o sesiwn = Digwyddiad | | Amcan y Digwyddiad |
| Math o sesiwn = Pawb | | Y cyfleusterau angenrheidiol |
| Math o sesiwn = Pawb | | Gwahoddedigion |
| Math o sesiwn = Pawb | | Botwm archebu |
| | | Mynychwyr |

## Atodiad C: Cwestiynau'r Arolwg Gwirio Gyrfa

**Amdanoch chi**

1. Beth yw eich enw llawn?
2. Rhowch unrhyw enwau canol sydd gennych
3. Beth yw eich cyfenw?
4. Dyddiad Geni (DD/MM/BBBB):
5. Pa un o'r canlynol sy’n eich disgrifio? Gwryw, Benyw, Mae'n well gennyf beidio â dweud, Arall (nodwch)
6. Beth yw eich cod post?
7. Mae Gyrfa Cymru yn gallu darparu gwasanaethau i chi yn Gymraeg a/neu yn Saesneg. Beth yw eich dewis iaith ar gyfer gwahanol wasanaethau a ddarperir gan Gyrfa Cymru?

   [Dewiswch Gymraeg neu Saesneg – ar gyfer gwasanaethau ysgrifenedig, a gwasanaethau a ddarperir ar lafar]
8. Os byddai'n well gennych wasanaethau a gyflwynir mewn ieithoedd eraill, rhowch wybod i ni yn y blwch isod
9. Ydych chi mewn Addysg Amser Llawn? Ydw/Nac ydw

**Beth ydych chi'n ei wneud nawr**

10. Beth yw eich sefyllfa bresennol? Blwyddyn Ysgol 10, 11, 12/13, Coleg.
11. Pa ysgol neu Goleg ydych chi ynddo?
12. Beth yw eich sefyllfa bresennol? Prentisiaeth, Ymgysylltu neu Hyfforddeiaeth, Gweithio, Chwilio am waith, Arall (nodwch os gwelwch yn dda)
13. Gyda pha Ddarparwr Hyfforddiant ydych chi?

**Eich manylion cyswllt**

14. Rhif ffôn cartref
15. Rhif ffôn symudol
16. Cyfeiriad ebost

**Rheoli Eich Gyrfa a Gwneud Penderfyniadau Gyrfaol**

17. Adnabod fy hun:

    Dydw i ddim yn gwybod beth yw fy nghryfderau na beth sydd angen i mi ei wella

    Rwy’n gwybod am rai o'm cryfderau a rhai o'r pethau y mae angen i mi eu gwella

    Rwy’n gwybod am y rhan fwyaf o'm cryfderau a'r rhan fwyaf o'r pethau y mae angen i mi eu gwella

    Rwy’n gwybod am fy holl gryfderau a'r pethau y mae angen imi eu gwella a gallaf roi enghreifftiau i ddangos hyn

18. Gwybod fy opsiynau:

    Does gen i ddim gwybodaeth am gyfleoedd

    Rwyf wedi cael rhywfaint o wybodaeth am gyfleoedd

    Rwyf wedi dod o hyd i rywfaint o wybodaeth am gyfleoedd, ond efallai y bydd angen mwy arnaf i

    Rwyf wedi dod o hyd i'r wybodaeth gywir am gyfleoedd i'm helpu gyda fy nghynlluniau ar gyfer y dyfodol

19. Gwneud penderfyniad

    Dydw i ddim yn hyderus am wneud penderfyniadau, mae'n well gen i bod eraill yn eu gwneud nhw drosof i

    Rwyf am wneud penderfyniadau, ond mae eraill fel arfer yn eu gwneud drosof i

    Rwy'n gwneud fy mhenderfyniadau fy hun, ond dydw i ddim yn siŵr a wyf bob amser yn ei wneud yn dda

    Rwy'n gwneud fy mhenderfyniadau fy hun ac rwy'n hyderus eu bod yn benderfyniadau da

20. Gwybod pwy all helpu:

    Dydw i ddim yn gwybod at bwy i fynd i gael help

    Rwy'n gwybod at bwy y gallaf fynd os bydd angen help arnaf, ond mae'n debyg na fyddaf yn gwneud

    Rwy’n gwybod at bwy y gallaf fynd i gael help ac mae'n debyg y byddaf yn gwneud

    Rwy’ eisoes yn gofyn i bobl eraill am help

21. Cyrraedd y nod:

Does gen i ddim cynllun ar gyfer fy nyfodol

Mae gen i gynllun ar gyfer fy nyfodol, ond dydw i ddim yn gwybod sut i wneud iddo ddigwydd

Mae gen i gynllun ar gyfer fy nyfodol ac rwy'n gwybod sut i wneud iddo ddigwydd, ond dydw i ddim wedi dechrau eto

Rwy'n hyderus am fy nghynllun ar gyfer fy nyfodol ac rwyf eisoes wedi dechrau gwneud iddo ddigwydd

**Y cam nesaf i chi**

Dywedwch wrthym beth rydych chi am ei wneud NESAF:

Hoffwn barhau mewn addysg (ysgol)

Hoffwn barhau mewn addysg (coleg)

Hoffwn barhau mewn addysg (prifysgol)

Hoffwn gymryd Blwyddyn i Ffwrdd [DS Nid yw'n ateb sydd ar gael i Flwyddyn 10 ac 11]

Rwy'n hoffi'r syniad o weithio ac ennill cymwysterau tra byddaf yn gweithio (prentisiaeth)

Hoffwn ddechrau fy musnes fy hun a gweithio drosof fy hun

Pan fyddaf yn gorffen addysg, rwy' am chwilio am swydd. Nid yw parhau ag addysg a hyfforddiant o ddiddordeb mawr i mi

Hoffwn wneud gwaith gwirfoddol

Ddim yn gwybod

22. Beth hoffech chi ei wneud fel eich cam nesaf?

Dewis cyntaf, 2il ddewis a 3ydd dewis:

Hoffwn barhau mewn addysg (ysgol)

Hoffwn barhau mewn addysg (coleg)

Hoffwn barhau mewn addysg (prifysgol)

Hoffwn gymryd Blwyddyn i Ffwrdd [DS Nid yw'n ateb sydd ar gael i Flwyddyn 10 ac 11]

Rwy'n hoffi'r syniad o weithio ac ennill cymwysterau tra byddaf yn gweithio (prentisiaeth)

Hoffwn ddechrau fy musnes fy hun a gweithio drosof fy hun

Pan fyddaf yn gorffen addysg, rwy' am chwilio am swydd. Nid yw parhau ag addysg a hyfforddiant o ddiddordeb mawr i mi

Hoffwn wneud gwaith gwirfoddol

Ddim yn gwybod

23. Meddyliwch am y datganiadau canlynol a thiciwch a ydych yn cytuno ai peidio. [Graddfa: Yn cytuno llawer, yn cytuno ychydig, ddim yn siŵr, ddim yn cytuno]

Rwy'n teimlo'n hyderus am wneud penderfyniadau

Deallaf y cyfleoedd sydd ar gael i mi Rwy'n gwybod beth yw fy nghryfderau

Rwy'n gwybod sut i wneud i'm cynlluniau ar gyfer y dyfodol ddigwydd

Rwy'n gwybod pwy all fy helpu i gyda'm cynlluniau ar gyfer y dyfodol

**Beth sydd o ddiddordeb i chi**

24. Pa rai o'r meysydd gyrfa canlynol sydd o ddiddordeb i chi? Meddyliwch beth sydd wir o ddiddordeb i chi. Gallwch ddewis hyd at 4 maes, ond nid oes rhaid i chi ddewis 4 os dim ond 1 neu 2 sydd wir o ddiddordeb i chi.

Gweinyddu a Gwaith Swyddfa

Adeiladu

Arlwyo a Lletygarwch

Peirianneg Crefftau Cerbydau Modur

Cyfrifiaduron, Meddalwedd a TG

Celf a Dylunio, Teledu, Ffilm a'r Cyfryngau

Addysgu ac Addysg Gofal Plant

Trafnidiaeth, Cyflenwi a Logisteg

Ffermio a Phlanhigion Yr Amgylchedd Gofal Anifeiliaid

Cyfrifeg, Economeg, Busnes a Chyllid

Iechyd a Meddygol

Hamdden, Chwaraeon a Thwristiaeth

Ieithoedd ac Ysgrifennu

Y Gyfraith

Trin Gwallt a Harddwch

Celfyddydau Perfformio

Gweithgynhyrchu, Diwydiant a Gwaith Ffatri

Gwerthu a Marchnata

Gwyddoniaeth ac Ymchwil

Manwerthu Gwasanaethau Cwsmeriaid

Gwasanaethau Brys, Amddiffyn a'r Lluoedd Arfog

Gofal Personol

Gwaith Cymdeithasol a Lles

Dim Syniadau

**Beth sy'n effeithio ar eich penderfyniadau**

25. Darllenwch y datganiadau canlynol. Ticiwch unrhyw rai sy'n eich disgrifio chi.

Mae gen i neu rwy'n disgwyl cael 5+ TGAU Gradd C+

Gallai diffyg arian gyfyngu ar fy newisiadau yn y dyfodol

Mae fy nheulu yn cefnogi fy syniadau

Mae gen i gymhelliant i lwyddo

Dydw i ddim yn teimlo bod llawer o gyfleoedd yn agored i mi

Mae pethau a allai fy atal rhag cyflawni fy nodau

Rwy’n gallu goresgyn rhwystrau sy'n fy atal rhag cyflawni fy nodau

Does gen i ddim nodau

Dydw i ddim yn hyderus am ganlyniadau fy arholiadau

26. Dywedwch wrthym am unrhyw beth arall sy'n bwysig yn eich barn chi ar gyfer eich cynlluniau at y dyfodol. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys: unrhyw ddiddordebau sydd gennych, swydd neu yrfa sydd o ddiddordeb mawr i chi, unrhyw beth sy'n effeithio ar eich dewisiadau at y dyfodol. [Ymateb testun rhydd]

**Cydsyniad**

Efallai y byddwn am gysylltu â chi gyda deunydd marchnata perthnasol. Er mwyn i ni anfon deunydd marchnata atoch, mae angen eich cydsyniad penodol arnom. Byddwch cystal â thicio'r blychau perthnasol isod i gadarnhau sut rydych yn hapus i dderbyn deunydd marchnata perthnasol gennym ni. Os na fyddwch yn ticio unrhyw flychau, ni fyddwn yn anfon unrhyw ddeunydd marchnata atoch.

Ebost

Testun/SMS

Ffôn

Post

Cyfryngau cymdeithasol